CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL



# STRATEGAETH RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD LLEOL

## HYDREF 2014

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **3** |
| **Crynodeb Gweithredol** | **5** |
| **Cyflwyniad** | **7** |
| **Awdurdodau Rheoli Risg** | **15** |
| **Cyfrifoldebau Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd** | **17** |
| **Asesiad o Berygl Llifogydd Lleol** | **35** |
| **Amcanion i Reoli Perygl Llifogydd** | **43** |
| **Mesurau i Gyflenwi Rheoli Perygl Llifogydd** | **61** |
| **Amcanion Amgylcheddol** | **65** |
| **Cyllido** | **71** |
| **Adolygiad** | **75** |

**Atodiad A – Ffynonellau Llifogydd ac Erydu Arfordirol**

**Atodiad B – Polisi Bagiau Tywod**

**Atodiad C – Polisi Sianelu**

**Atodiad D – Ffynonellau Pellach o Ddeddfwriaeth**

**Atodiad E – Darogan Llifogydd a Rhybuddion Llifogydd**

**Atodiad F - Geirfa**

## RHAGAIR

Mae pob un ohonom yn ymwybodol o effaith ddinistriol llifogydd 2012 ar gymunedau yng Ngheredigion, ac fel Aelod Cabinet Trafnidiaeth, Gwastraff a Rheoli Carbon, rwy'n awyddus iawn i weld gwelliannau mewn rheoli perygl llifogydd yn ein sir.

Mae llifogydd yn creu difrod i eiddo ac isadeiledd a gall hefyd achosi cryn straen ac aflonyddwch i bobl, ac er na allwn atal llifogydd yn gyfan gwbl, gellir lleihau ei effeithiau.

Y Strategaeth hon yw'r cam cyntaf i sicrhau bod gennym sylfaen gadarn i fynd i'r afael â pherygl llifogydd yn y dyfodol yng Ngheredigion, ac mae'n nodi sut yr ydym yn bwriadu datblygu mesurau cynaliadwy i reoli'r perygl hwnnw trwy gymryd i ystyriaeth anghenion y gymuned leol, yr economi leol a'r amgylchedd.

Mae effeithiau newid hinsawdd yn ddigon gwybyddus. Mae'r Cyngor yn ymwybodol iawn o hyn ac mae wedi mabwysiadu Cynllun Rheoli Carbon fel ein cyfraniad tuag at yr ymdrech fyd-eang i ostwng allyriadau carbon. Fel rhan o effeithiau newid hinsawdd mae llifogydd yn dod yn berygl cynyddol. Er na allwn efallai atal grym natur, gallwn greu strategaeth gynaliadwy i baratoi ac i amddiffyn ein cymunedau.

Mae darogan newid hinsawdd yn awgrymu cynnydd yn nwyster glaw ac amlder stormydd sydyn yn y dyfodol ac o ganlyniad i hynny,mae'n debygol y bydd llifogydd dŵr wyneb yn cynyddu ac yn dod yn fwy dwys. Mae'n hanfodol felly ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i gynllunio a pharatoi ar gyfer digwyddiadau o'r fath ac ymateb i'r llifogydd eu hunain a gwaith adfer wedi hynny.

Fel rheol mae pobl yn cysylltu llifogydd mawr gydag afonydd yn gorlifo neu gyda llifogydd arfordirol, ond gall cymunedau lleol wynebu perygl llifogydd o sawl ffynhonnell yn cynnwys y môr, afonydd, dŵr wyneb yn llifo a gorlwytho rhwydweithiau priffyrdd a systemau draenio.

Dyna pam ein bod yn cydnabod bod gweithio mewn partneriaeth rhwng y Cyngor Sir, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru a chymunedau lleol yn allweddol i reoli perygl llifogydd, cyflenwi atebion effeithiol ac integredig a chefnogi cymunedau i ddod yn gryfach wrth ddelio gyda llifogydd.

Nid sôn yn unig am amddiffynfeydd llifogydd a gwaith cynnal y mae'r Strategaeth hon. Bydd atebion ar wahân i atebion strwythurol, yn cynnwys cynllunio cynaliadwy, rheoli datblygu, gwelliannau amgylcheddol a chynllunio brys, fel cefnogi cymunedau i ddod yn gryfach wrth ddelio gyda llifogydd, yn gydrannau allweddol yn ein hymateb i berygl llifogydd, nawr ac yn y dyfodol

Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu'r camau y mae angen inni eu cymryd dros y blynyddoedd nesaf i greu dull gwell, mwy cynaliadwy o weithredu sy'n gweithio gyda natur gan ein helpu i gynllunio ar gyfer effeithiau tebygol newid hinsawdd a lleihau'r effeithiau ar ein cymunedau.

**Y Cynghorydd Alun Williams,**
**Aelod Cabinet Trafnidiaeth, Gwastraff a Rheoli Carbon**

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae cyflwyniad **Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009** a **Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010** wedi newid y ffordd yr ydym yn edrych ar lifogydd, ac o ganlyniad i hynny rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Wrth i beryglon llifogydd ac erydu arfordirol newid, felly hefyd ein hymateb ninnau.

Ni allwn bellach barhau i adeiladu systemau draenio mwy ac amddiffynfeydd uwch, a dros y blynyddoedd diweddar rydym wedi gweld symudiad tuag at ymateb wedi'i wreiddio mewn egwyddorion rheoli perygl, yn darparu dull holistaidd o weithredu wrth reoli peryglon, eu canlyniadau a'u heffeithiau ehangach.

Dyma'r **Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Ceredigion** gyntaf a'i diben yw ategu'r **Strategaeth Genedlaethol** a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2011, oedd yn cynnwys pedwar amcan cyffredinol i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol:

- lleihau effeithiau llifogydd ac erydu arfordirol
- codi ymwybyddiaeth pobl o berygl llifogydd ac erydu arfordirol a'u cynnwys yn yr ymateb i'r perygl hwnnw
- darparu ymateb effeithiol a chynaliadwy i lifogydd ac erydu arfordirol
- blaenoriaethu buddsoddiad yn y cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf

Bydd gweithredu'r amcanion hyn yn gyfrifoldeb i bawb yr effeithir arnynt, o Gyngor Sir Ceredigion a Chyfoeth Naturiol Cymru (Asiantaeth Amgylchedd Cymru cyn hynny), y cymunedau lleol a pherchnogion eiddo unigol.

I gyflawni hynny mae angen inni weithio gyda'n gilydd i ddarganfod atebion cynaliadwy i broblemau lleol er mwyn cyflenwi swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol mewn dull sydd yn:

- gosod datblygu cynaliadwy yn flaenoriaeth ganolog i'r trefnu
- canolbwyntio ar anghenion unigolion, cymunedau a busnesau
- cefnogi'r rhaglen adnewyddu economaidd ehangach
- hyrwyddo cydraddoldeb heb ddwysáu tlodi
- seiliedig ar ddealltwriaeth holistaidd o'r peryglon a'r canlyniadau
- ystyried yr amrediad llawn o ymatebion i berygl llifogydd
- cyfrannu at reolaeth holistaidd adnoddau dŵr, tir a morwrol
- hwyluso blaenoriaethu buddsoddiad, adnoddau a gweithrediadau yn effeithiol
- cymryd gofyniadau deddfwriaeth berthnasol i ystyriaeth yn cynnwys **Cyfarwyddeb Llifogydd (2007)**, **Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (2000)** a **Chyfarwyddeb Cynefinoedd (1992)**

Mae'r **Strategaeth** hon yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r amrywiol gyrff sy'n cyfrannu tuag at reoli perygl llifogydd yng Ngheredigion ac mae hefyd yn esbonio dyletswyddau'r cyhoedd i amddiffyn eu hunain rhag effeithiau llifogydd.

# CYFLWYNIAD

Nod **Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Cyngor Sir Ceredigion** yw cynorthwyo pawb sy'n cael eu heffeithio gan lifogydd, neu sy'n gyfrifol am reoli perygl llifogydd, i ddeall y perygl llifogydd yn y Sir yn well, a bydd yn canolbwyntio ar ffynonellau 'lleol' llifogydd, fel dŵr wyneb, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin.

Fel rheol mae'r rhain yn cael eu creu gan law trwm ac maent yn dod yn ffurf gynyddol gyffredin o lifogydd fel y gwelwyd yn y llifogydd yng ngogledd Ceredigion ym mis Mehefin 2012 ac yn ardal Aberteifi ym mis Hydref 2012.

Dengys amcangyfrifon cyfredol bod un o bob chwech eiddo yng Nghymru mewn perygl o lifogydd o afonydd, y môr ac/neu ddŵr wyneb, ac mewn rhai cymunedau mae'r holl eiddo mewn perygl. Nid yw nifer yr eiddo sydd mewn perygl o erydu arfordirol wedi'u diffinio cystal â'r rhai sydd mewn perygl o lifogydd, ond mae ail rifyn y **Cynlluniau Rheoli Traethlin** yn awgrymu bod y niferoedd yn sylweddol llai ac na fyddai mwyafrif y rhain yn cael eu heffeithio tan y tymor canolig i hir (20-100 mlynedd).

Mae amcanestyniadau newid hinsawdd yn awgrymu y gall Cymru ddisgwyl gweld patrymau glaw gwahanol yn y dyfodol, ynghyd â lefelau môr uwch. Awgryma'r amcanestyniadau hyn y byddwn yn wynebu llifogydd yn amlach ac y byddant yn fwy difrifol yn y dyfodol, ynghyd â chynnydd mewn erydu arfordirol. Gall cymunedau sydd mewn perygl o lifogydd ac erydu arfordirol felly ddisgwyl gweld y peryglon hynny yn cael eu gwireddu'n amlach.

I'r rhai sydd yn dioddef llifogydd, does dim gwahaniaeth pa fath o lifogydd sy'n creu'r broblem ac felly fe fydd y Strategaeth hefyd yn ceisio darparu gwybodaeth am yr amrywiol ffurfiau o lifogydd a'r cyrff sydd yn ymwneud â phob agwedd ar reoli perygl llifogydd, o amddiffyn rhag llifogydd i ddelio gyda llifogydd difrifol.

Bydd **Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol Ceredigion** felly yn nodi pwy yw'r Awdurdodau Rheoli Risg yn yr ardal a'u swyddogaethau perthnasol.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi bod â chyfrifoldebau neilltuol dros gyrsiau dŵr cyffredin o dan y **Ddeddf Draenio Tir 1991**, ac yn ymarferol y Cyngor oedd yn arwain wrth ddelio gyda llifogydd dŵr wyneb cyn cyflwyno **Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (y Ddeddf).**

O dan delerau'r **Ddeddf**, Ceredigion bellach yw'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol gyda chyfrifoldeb dros y 'perygl llifogydd lleol' yma. Dyma'r tro cyntaf i gyfrifoldeb dros berygl llifogydd o ddŵr wyneb yn llifo gael ei ddyrannu i unrhyw gorff neilltuol mewn cyfraith. '

Ond, nid yw rheoli perygl llifogydd yn rhywbeth y gellir ei adael yn unig yn nwylo rhai cyrff neilltuol. Rhaid i berchnogion eiddo a thirfeddianwyr hefyd fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

Yn union fel ag y mae peryglon yn sgil llifogydd ac erydu arfordirol yn newid, felly hefyd yr ymateb. Ni fydd yn bosibl parhau i adeiladu systemau draenio mwy ac amddiffynfeydd uwch. Dros y blynyddoedd diweddar mae Llywodraeth Cymru wedi symud tuag at ymateb sydd wedi'i wreiddio yn egwyddorion rheoli perygl, gan ddarparu dull holistaidd o weithredu tuag at reoli'r peryglon, eu canlyniadau a'r effeithiau ehangach ar ein cymunedau.

Ni fydd yr arian sydd ar gael ar gyfer rheoli perygl llifogydd fyth yn ddigonol i ddelio gyda'r holl beryglon llifogydd cyfredol a'r perygl cynyddol yn y dyfodol oherwydd newid hinsawdd. Hyd yn oed pe na bai cyfyngiadau ariannol yn broblem, ni fyddai'n bosibl atal yr holl lifogydd na chwaith datrys pob pryder.

Nid yw adeiladu rhagor o amddiffynfeydd ac amddiffynfeydd uwch yn ateb cynaliadwy yn amgylcheddol, yn economaidd nac yn gymdeithasol ac mewn rhai achosion, gall gynyddu'r perygl i fywyd ac anafiadau os byddant yn methu. Gall lleoliad amddiffynfeydd weithiau niweidio'r amgylchedd ehangach ac mae adeiladu a chynnal a chadw amddiffynfeydd yn mynd yn ddrutach sy'n golygu bod llai o arian ar gael  i ddiogelu cymunedau eraill.

Roedd **Foresight: Future Flooding Study** ac **Adolygiad Stern Revie on the Economics of Climate Change** yn argymell defnyddio dull rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, sydd yn mynd y tu hwnt i amddiffyn yn unig.

Gall gweithio gyda phrosesau naturiol lle'n addas gyfrannu at ddull rheoli ecosystem mwy cynaliadwy sy'n cael ei hyrwyddo gan **Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol** Llywodraeth Cymru, a gall hefyd helpu i gyflenwi gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Mae dull rheoli perygl yn ymgorffori amrediad o fesurau i helpu cymunedau yn ogystal â'r amgylchedd ehangach.

## BETH YW NATUR PERYGL LLIFOGYDD YNG NGHEREDIGION?

Mae llifogydd yn ffenomenon naturiol a gall effeithiau niweidiol llifogydd ddwysáu oherwydd rheolaeth gwael y tirwedd a'r amgylchedd adeiledig a naturiol.

Fel y mae cymunedau wedi datblygu felly hefyd y rhwydwaith sylweddol o amddiffynfeydd llifogydd, amddiffyn arfordirol ac isadeiledd systemau draenio i helpu i leihau'r peryglon a wynebir. Er bod y trefniadau hyn wedi gweithio'n dda ar y cyfan yn y gorffennol, bydd y pwysau ar ein hisadeiledd cyfredol yn cynyddu'n sylweddol yn y dyfodol.

Gall y problemau ddwysáu hefyd os na lwyddwn ni i wneud unrhyw beth am y perygl.

Mae glaw, a'r llifogydd a ddaw yn ei sgil, yn ôl ei union natur yn anrhagweladwy o ran lleoliad a dwyster, ac fe fydd delio gyda'r ansicrwydd yma yn heriol, yn enwedig o ran llifogydd dŵr wyneb.

Ond mae perygl llifogydd yn rhywbeth y gellir yn gyffredinol ei ddeall ac mae ei effeithiau fel rheol yn fwy rhagweladwy, ond hyd yn oed wedyn, gall rhwystrau mewn systemau draenio achosi llifogydd anarferol a hyd yn oed llai rhagweladwy.

Mae natur llifogydd yng Ngheredigion yn hynod o amrywiol ac eang ar draws y sir. Mae gan Geredigion arfordir helaeth, rhwydwaith o afonydd, tir uchel ac isel a nifer o ddyffrynnoedd afonydd, sydd, wrth eu cyfyngu gydag ychydig o ardaloedd trefol, yn golygu ei bod mewn perygl o lifogydd o amrywiol o wahanol ffynonellau.

Mae'r prif ffynonellau llifogydd yn cynnwys:

**Llifogydd dŵr wyneb** (a enwir hefyd yn llifogydd plwfial) – pan fo glaw trwm yn llifo dros yr wyneb mewn ardaloedd isel. Fel rheol mae'n gysylltiedig gyda glaw trwm a gall waethygu pan fo'r tir naill ai yn wlyb iawn neu yn rhy sych i dderbyn y dŵr, neu pan nad oes gan y rhwydwaith draenio ddigon o gapasiti i ymdopi gyda'r llif ychwanegol.



**Llifogydd dŵr daear** – pan fo lefelau dŵr yn y tir yn codi uwchben wyneb y ddaear. Mae llifogydd o'r math yma'n tueddu i ddigwydd ar ôl cyfnodau hir o law trwm cyson a gall barhau am wythnosau neu hyd yn oed misoedd.

**Llifogydd afonydd** (a enwir hefyd yn llifogydd afonol) – pan nad yw cwrs dŵr yn gallu ymdopi gyda'r dŵr sy'n llifo iddo. Mae afonydd wedi'u categoreiddio yn 'Brif Afonydd' a 'Chyrsiau Dŵr Cyffredin'. Fel rheol mae prif afonydd yn fwy na chyrsiau dŵr mawr ond gall hefyd gynnwys cyrsiau dŵr llai o bwysigrwydd draenio strategol.



**Llifogydd arfordirol –** yn digwydd fel rheol yn ystod hyrddiadau stormydd pan fo cynnydd yn y perygl o lefelau môr uchel lle mae'r amddifynfeydd llifogydd arfordirol yn cael eu torri. Mae'r perygl mwyaf o lifogydd arfordirol yn digwydd pan welir cyfuniad o lanw uchel a hyrddiad storm.

**Erydu arfordirol –** y tir yn cael ei erydu a gwaddodion y traeth yn cael ei symud gan y tonnau neu gan gerrynt y llanw. Nid yw'r perygl yma yn gyfrifoldeb i'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ac felly y mae y tu allan i gwmpas y Strategaeth hon. Ond gall fod ardaloedd lle y bydd erydu yn arwain at gynnydd mewn perygl llifogydd.



**Llifogydd carthffosydd –** llifogydd sy'n digwydd pan nad yw'r rhwydwaith carthffosydd yn gallu ymdopi gyda'r dŵr sydd yn dod i mewn neu pan fo pibelli'r rhwydwaith yn blocio. Yn aml mae'r math yma o lifogydd yn digwydd yn ystod cyfnodau o law trwm pan fo dŵr wyneb yn mynd i mewn i'r rhwydwaith carthffosiaeth ac yn creu llifogydd.



**Llifogydd priffyrdd** – llifogydd oherwydd glaw trwm neu ddŵr yn gorlifo o ddraeniau wedi blocio neu gorlawn, ffosydd cerrig a gylïau yn gwneud i ddŵr gronni yn y rhwydwaith priffyrdd.



Yn aml mae'n anodd sefydlu un achos penodol dros lifogydd a dyna pam y mae angen mabwysiadu dull holistaidd o weithredu tuag at ymchwilio i lifogydd.

## FFACTORAU SY'N CYNYDDU PERYGL LLIFOGYDD

Mae perygl llifogydd yn gyfuniad o debygolrwydd a chanlyniad ac mae nifer o ffactorau a fydd yn arwain ar debygolrwydd uwch o lifogydd yn y dyfodol a chanlyniadau potensial mwy difrifiol.

Mae'r ffactorau sy'n arwain at gynnydd mewn perygl llifogydd yn cynnwys:

- bydd newid hinsawd yn arwain at dywydd eithafol amlach a dwysach, lefelau'r môr yn codi ac felly llifogydd mwy eithafol gyda chanlyniadau mwy difrifol

- dirywiad yng nghyflwr a pherfformiad isadeiledd draenio cyfredol a strwythurau amddiffyn rhag llifogydd dros amser
- datblygu a newidiadau mewn defnydd tir yn arwain at gynnydd mewn wynebau anhydraidd a cholli gorchudd llysdyfiant yn gyffredinol gan greu lefelau cynyddol o ddŵr llifo yn ystod cyfnodau o law trwm.

**DEDDFWRIAETH**

Yn dilyn nifer o lifogydd eithafol yn ystod 2007, cafodd **Adolygiad Pitt** y gwaith o nodi gwell deddfwriaeth ar gyfer rheoli llifogydd yn effeithiol.

Wedi'i gyhoeddi ym mis Mehefin 2008, roedd **Adolygiad Pitt (Learning Lessons from the 2007 Floods)** yn cynnwys 92 o argymhellion yn cynnwys 15 o argymhellion brys i wella gwasanaeth i'r cyhoedd. Yr argymhellion hyn oedd y prif yrrwr i'r mesurau yn y **Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010** ac felly'r **Strategaeth Genedlaethol**.

Roedd hyn, ynghyd â'r **Rheoliadau Rheoli Llifogydd (2009)** a ddaeth i rym ym mis Rhagfyr 2009, yn gosod mwy o gyfrifoldeb ar Awdurdodau Lleol i ddelio gyda pheryglon llifogydd.

**Rheoliadau Rheoli Risg 2009**

Yn ôl y **Rheoliadau Rheoli Risg 2009** mae'n ofynnol i bob Cyngor (yn cynnwys Cyngor Sir Ceredigion) gynhyrchu **Asesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol (PFRA)**, yn nodi ardaloedd lle mae pobl mewn perygl o lifogydd dŵr wyneb, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin.

Mae'r **Asesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol** yn ymarferiad sgrinio lefel uchel sy'n dwyn ynghyd yr wybodaeth sydd ar gael yn hawdd o nifer o ffynonellau ar lifogydd yn y gorffennol a llifogydd potensial fel bod Cyngor Sir Ceredigion yn gallu gwneud arfarniadau gwybodus mewn perthynas â pherygl llifogydd lleol**.**

Cwblhawyd yr **Asesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol** ym mis Mehefin 2011 a chaiff ei adolygu yn 2017. Ymysg yr wybodaeth a ddefnyddiwyd i lywio'r **Asesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol** oedd setiau data cenedlaethol a gynhyrchywd gan Asiantaeth yr Amgylchedd, cofnodion llifogydd gan Dŵr Cymru Welsh Water, gwybodaeth hanesyddol am lifogydd gan Gyngor Sir Ceredigion a gwybodaeth gan Gynghorau Tref a Chymuned yn dilyn cais penodol gan Gyngor Sir Ceredigion am wybodaeth.

Defnyddiwyd yr wybodaeth hon i roi sylfaen dystiolaeth i'r **Asesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol** a hefyd i lywio'r **Strategaeth** hon. Lle roedd yr **Asesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol** yn nodi ardaloedd o berygl sylweddol, mae'n ofynnol hefyd yn ôl y Rheoliadau i'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol gynhyrchu mapiau perygl a risg a chynlluniau rheoli llifogydd.

Nid oes yr un ardal yng Ngheredigion yn bodloni'r meini prawf cenedlaethol i ddiffinio ardaloedd mewn perygl sylweddol. Nid oherwydd nad oes perygl wedi'i nodi, ond oherwydd natur wledig gyffredinol y sir sy'n golygu nad yw'r meini prawf cenedlaethol sy'n diffinio perygl sylweddol wedi'u ddiwallu.

## Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

Mae nifer o argymhellion Adolygiad Pitt wedi'u gweithredu trwy'r **Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010**. Derbyniodd y ddeddf Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2010 ac mae'n darparu deddfwriaeth i reoli'r perygl sy'n gysylltiedig gyda llifogydd ac erydu arfordirol.

Mae'n rhoi mwy o gyfrifoldeb ar Gynghorau Sir mewn perthynas â rheoli dŵr wyneb ac mae'n diffinio eu rolau fel Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yn glir.

Un o'r nifer o ddyletswyddau statudol a osodwyd ar y Cyngor Sir o dan y Ddeddf yw paratoi'r **Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol** hon**,** ac mae'r gweddill yn ddyletswyddau i:

- cydymffurfio gyda'r **Strategaeth Genedlaethol**
- cydweithredu gydag awdurdodau eraill (yn cynnwys rhannu data)
- ymchwilio i'r holl lifogydd yn ei ardal (cyn belled ag y mae'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn ystyried hynny'n briodol)
- cynnal cofrestr o strwythurau a nodweddion sy'n debygol o effeithio ar berygl llifogydd
- cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy

Yn ychwanegol at y dyletswyddau hyn mae gan pob Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol bwerau caniataol.
Mae'r rhain yn bwerau caniataol sydd yn eu galluogi i wneud rhywbeth ond nid yn eu gorfodi, ac maent yn cynnwys:

- pwerau i ofyn am wybodaeth yn berthynol i lifogydd a systemau draenio
- pwerau i ddynodi rhai strwythurau sydd yn effeithio ar berygl llifogydd/erydu arfordirol
- pwerau i wneud gwaith i gynnwys camau rheoli perygl ehangach
- y gallu i greu llifogydd neu erydu arfordirol o dan amodau neilltuol

Mae'r Strategaethau Leol i'w cwblhau yn ystod 2013 i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo. Mae **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (NFCERM)** wedi'i chynhyrchu gan Lywodraeth Cymru ac mae'n nodi'r egwyddorion a fydd yn arwain strategaethau lleol a gweithgaredd yr holl awdurdodau llifogydd.

**STRATEGAETH RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD LLEOL CEREDIGION**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu dogfen ganllaw o'r enw ***'Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol'*** sy'n darparu gwybodaeth i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol am faterion rheoli perygl llifogydd lleol y dylid eu hystyried wrth ddatblygu eu strategaethau eu hunain i reoli perygl llifogydd lleol.

Yn unol â'r canllaw hwn, rhaid i'r **Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol** felly bennu:

a) yr awdurdodau rheoli risg yn ardal yr awdurdod
b) y swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol y gall yr awdurdodau hynny eu hymarfer mewn perthynas â'r ardal
c) yr amcanion i reoli perygl llifogydd lleol (yn cynnwys unrhyw amcanion yn gynwysiedig yng nghynllun rheoli perygl llifogydd yr awdurdod a baratowyd yn unol â **Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009**)
d) y mesurau sy'n cael eu cynnig i gyflawni'r amcanion hynny
e) sut a phryd y mae disgwyl i'r mesurau gael eu gweithredu
f) costau a manteision y mesurau hynny, a sut y telir amdanynt
g) asesiad o berygl llifogydd lleol at ddibenion y Strategaeth
h) sut a phryd y bydd y Strategaeth yn cael ei hadolygu
i) sut y mae'r Strategaeth yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion amgylcheddol ehangach

Felly, prif nod y Strategaeth yw lleihau'r perygl o lifogydd a'r diflastod a'r difrod economaidd a ddaw yn sgil llifogydd mewn dull cynaliadwy. Hefyd, dylai unrhyw weithgareddau rheoli llifogydd a gyflawnir anelu at wella'r amgylchedd adeiledig a naturiol.

Rhaid i'r Strategaeth Leol hefyd fod yn gyson â **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru,** a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2011, a rhaid inni ymgynghori gyda'r canlynol ynghylch ein strategaeth rheoli perygl llifogydd lleol:

- awdurdodau rheoli risg eraill all gael eu heffeithio gan y Strategaeth
- y cyhoedd

Rhaid inni hefyd gyhoeddi crynodeb o'n strategaeth rheoli perygl llifogydd lleol (yn cynnwys canllaw am argaeledd gwybodaeth berthnasol) a chyflwyno drafft o'r strategaeth ac unrhyw ganllawiau i Weinidogion Cymru ar gyfer eu hadolygu.

**ASESIADAU O REOLIADAU AMGYLCHEDDOL/CYNEFINOEDD STRATEGOL**

Mae gan Geredigion nifer o safleoedd amgylcheddol dynodedig cenedlaethol a rhyngwladol yn ogystal ag ardaloedd ecolegol a rhywogaethau a warchodir pwysig lleol.

Mae gan rheoli perygl llifogydd ac arfordirol y potensial i effeithio ar y safleoedd hyn mewn dull cadarnhaol neu negyddol, neu mewn gwirionedd, cymysgedd o'r ddau, ac mae angen i bob gweithgaredd felly gymryd ystyriaeth ddyledus o'r amgylchedd naturiol gan anelu at wella bioamrywiaeth ac ansawdd dŵr.

Mae'n ofyniad cyfreithiol yn y DU i rai cynlluniau a rhaglenni neilltuol a nodir gan y **Gyfarwyddeb SEA (2001/42/EC),** fod yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA). Gweithredir y Gyfarwyddeb yng Nghymru gan **Reoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004**.

Mae strategaethau lleol yn cael eu hystyried yn gynlluniau statudol ac felly penderfynwyd bod **Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol** angen Asesiad Amgylcheddol Strategol trwy ddiwallu'r meini prawf a grybwyllwyd eisoes

Diben yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yw *'darparu ar gyfer lefel uchel o amddiffyniad o'r amgylchedd a chyfrannu at integreiddio ystyriaethau amgylcheddol wrth baratoi a mabwysiadu cynlluniau a rhaglenni gyda golwg ar hyrwyddo datblygu cynaliadwy'*. Mae'r Asesiad yn:

- nodi, disgrifio a gwerthuso effeithiau amgylcheddol sylweddol gweithredu'r Cynllun ac unrhyw ddewisiadau amgen
- nodi camau i atal, lleihau neu wneud iawn mor llawn ag sy'n bosibl am unrhyw effeithiau niweidiol
- darparu cyfle cynnar ac effeithiol i ymgysylltu gyda pharatoi'r cynllun – trwy ymgynghori
- monitro gweithrediad y cynllun i nodi unrhyw effeithiau amgylcheddol nas rhagwelwyd a chymryd camau i gywiro hynny lle mae angen
- adrodd ar bob un o'r uchod mewn adroddiad amgylcheddol

Yng Nghymru, mae **Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (OS 490, 2010)**, a elwir yn aml yn **Rheoliadau Cynefinoedd**, yn gweithredu **Cyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC)** ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a phlanhigion ac anifeiliaid ac elfennau neilltuol o'r **Gyfarwyddeb Adar (2009/147/EC)**. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn darparu'r fframwaith gyfreithiol i ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau o bwysigrwydd Ewropeaidd yng Nghymru a Lloegr.

Oherwydd bod gan y **Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol** y potensial i esgor ar effeithiau sylweddol ar safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth natur rhyngwladol (sef **Ardaloedd Cadwraeth Arbennig** (**SACs)**, **Ardaloedd Gwarchod Arbennig (SPAs)** a safleoedd **Ramsar** mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi'i gynnal ar y cyd ag Asesiad Amgylcheddol Strategol.

## AWDURDODAU RHEOLI RISG

Mae'r **Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010** yn darparu diffiniad o awdurdodau rheoli perygl llifogydd fel **'cyrff sydd â'r cyfrifoldeb statudol dros reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol'**. Yng Ngheredigion, y cyrff hynny yw:

- Cyngor Sir Ceredigion (fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol)
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Dŵr Cymru Welsh Water
- Cyngor Sir Ceredigion (fel yr Awdurdod Priffyrdd)
- Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

**Cyngor Sir Ceredigion (fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol)**

Cyngor Sir Ceredigion
Neuadd Cyngor Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
SA46 0PA

Ffôn. 01545 570881
E-bost: reception@ceredigion.gov.uk
www.ceredigion.gov.uk

**Cyfoeth Naturiol Cymru**

Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdyddf
CF24 0TP

Ffôn. 0300 065 3000
E-bost: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.naturalresourceswales.gov.uk

**Dŵr Cymru Welsh Water**

Dŵr Cymru - Welsh Water
Pentwyn Road
Nelson
Treharris
CF46 6LY

Ffôn. 01443 452 300
www.dwrcymru.co.uk

**Cyngor Sir Ceredigion (fel yr Awdurdod Priffyrdd)**

Cyngor Sir Ceredigion
Neuadd Cyngor Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
SA46 0PA

Ffôn. bost: hpw@ceredigion.gov.uk
www.ceredigion.gov.uk


**Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru**

Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
Uned 7
Llys Onnen
Parc Menai
Bangor
LL57 4DF

Ffôn. 01286 685 186
www.northwales-tra.gov.uk

## CYFRIFOLDEBAU AWDURDODAU RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD

Mae **Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010** wedi nodi cyrff neilltuol fel 'awdurdodau rheoli risg' sydd â chyfrifoldebau'n gysylltiedig gyda llifogydd, rhai newydd o'r **Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr** a rhai o ddeddfwriaeth blaenorol.




Gall llifogydd ddod o nifer o wahanol ffynonellau ac o dan deddfwriaeth ddiweddar mae'r cyfrifoldeb dros reoli'r perygl o'r gwahanol ffynonellau hyn yn syrthio ar wahanol Awdurdodau Rheoli Risg .

Mae **Cyngor Sir Ceredigion**, fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, yn gyfrifol am arwain wrth reoli perygl llifogydd o ffynonellau lleol. Mae hyn yn cynnwys dŵr wyneb, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin a hefyd lle mae rhyngweithio rhwng y ffynonellau llifogydd hyn a llifogydd o brif afonydd neu'r môr.

| **Dŵr Wyneb** | **Dŵr Daear** | **Cyrsiau Dŵr Cyffredin** |
|---|---|---|
|  |  |  |

Mae ganddo hefyd rolau perthynol mewn perthynas ag erydu arfordirol, cynllunio, cynllunio brys, amddiffyn yr amgylchedd a systemau draenio ffyrdd ac mae manylion am y rhain yn yr adrannau isod.

Mae nifer o gyrff eraill yn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghereigion gyda Chyngor Sir Ceredigion:

**Cyfoeth Naturiol Cymru** sydd yn gyfrifol am reoli perygl llifogydd o'r prif afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr, ac mae ganddo hefyd rôl trosolwg strategol  dros yr holl reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Mae hefyd yn chwarae rôl allweddol mewn darparu rhybuddion am lifogydd i'r cyhoedd ac am ddiogelu a gwella'r amgylchedd..

**Llifogydd Arfordirol**



**Llifogydd Cronfeydd Dŵr**



**Prif Afonydd**



**Dŵr Cymru Welsh Water** sydd â'r cyfrifoldeb dros ddarparu dŵr a rheoli dŵr brwnt a dŵr wyneb carthffosiaeth yng Ngheredigion.

**Llifogydd Carthffosiaeth**



**Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru** sydd â'r cyfrifoldeb dros reoli perygl llifogydd ar yr A44 a'r A487 – cyfrifoldeb Cyngor Sir Ceredigion yw'r holl ffyrdd mabwysiedig eraill.

**Llifogydd Priffyrdd**



Mae gan yr holl awdurdodau hyn y dyletswyddau a'r pwerau 'cyffredinol' canlynol:

- Dyletswydd i gydweithredu gydag awdurdodau rheoli risg eraill wrth ymarfer ei swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, yn cynnwys rhannu data rheoli perygl llifogydd.
- Pŵer (trwy gytundeb) i gymryd swyddgaethau llifogydd ac erydu arfordirol oddi wrth awdurdod rheoli risg arall

Ond nid yw rheoli perygl llifogydd yn rhywbeth y gellir ei adael yn nwylo'r cyrff hyn yn unig a'u hanghofio gan bawb arall.

<u>Rhaid nodi, er bod y cyrff hyn yn gyfrifol am reoli perygl llifogydd o'r ffynonellau hyn, nid ydynt yn atebol am unrhyw ddifrod a achosir gan lifogydd. Cyfrifoldeb perchnogion eiddo yw diogelu eu heiddo rhag llifogydd ochr yn ochr â'u hawliau a'u cyfrifoldebau fel perchnogion glannau'r afon.</u>

Hyd yn oed gyda chyllidebau diddiwedd, ni fyddai'r Awdurdodau Rheoli Risg yn gallau atal pob achos o lifogydd na datrys pob pryder. Mae gan breswylwyr, busnesau a pherchnogion tir eu rhan i'w chwarae hefyd.

## PWERAU A DYLETSWYDDAU CYNGOR SIR CEREDIGION

Prif ddyletswyddau Cyngor Sir Ceredigion yw:

1) Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol
2) Awdurdod Draenio Tir
3) Awdurdod Rheoli Perygl Erydu Arfordirol
4) Awdurdod Cynllunio Rhag Argyfyngau
5) Awdurdod Priffyrdd
6) Awdurdod Cynllunio
7) Perchennog Tir

### 1) Fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol

Cyngor Sir Ceredigion yw Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol y sir ac mae ganddo rôl strategol mewn goruchwylio rheoli perygl llifogydd lleol.

Mae hyn yn cynnwys datblygu strategaeth leol, sicrhau bod yr holl gyrff sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau, monitro cynnydd a gweithgaredd pob parti sy'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd a chydgysylltu cyfathrebu gyda'r cyhoedd a rhwng cyrff.

Mae **Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010** yn rhoi dyletswyddau a phwerau pellach i Gyngor Sir Ceredigion.

a) Datblygu strategaeth ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol

b) Pwerau i ofyn am wybodaeth gan unrhyw berson mewn cysylltiad â swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yr awdurdod
c) Dyletswydd i ymchwilio a chyhoeddi adroddiadau ar lifogydd fel bo'n briodol, nodi pa awdurdodau sydd â swyddogaethau rheoli perygl llifogydd mewn perthynas â'r digwyddiad o lifogydd
d) Dyletswydd i gadw cofrestr o strwythurau neu nodweddion(cofrestr asedau) sydd ag effaith sylweddol ar berygl llifogydd yn eu hardaloedd
e) Cyfrifoldebau fel Corff Cymeradwyo SDC (CCS) gyda chyfrifoldeb dros gymeradwyo, mabwysiadu a chynnal datblygiadau SDC (dyddiad gweithredu i'w gadarnhau)
f) Caniatáu gwaith ar gyrsiau dŵr cyffredin allai effeithio ar lif dŵr
g) Pwerau i wneud gwaith i reoli perygl llifogydd o ddŵr wyneb yn llifo neu ddŵr daear
h) Pŵer i ddynodi strwythurau a nodweddion sy'n effeithio ar lifogydd

Ynghyd â dyletswydd i:

- gweithredu'n gyson â'r 'strategaeth genedlaethol'
- anelu at gyfrannu tuag at gyflawni datblygu cynaliadwy

### a) Paratoi Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol ddatblygu, cynnal, defnyddio a monitro strategaeth leol ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn eu hardaloedd.

Fe fydd y strategaeth leol yn adeiladu ar wybodaeth fel asesiadau perygl cenedlaethol ac fe fydd yn defnyddio dulliau gweithredu cyson yn seiliedig ar berygl ar draws gwahanol ardaloedd a dalgylchoedd awdurdodau lleol.

### b) Pwerau i Ofyn am Wybodaeth

Gall Cyngor Sir Ceredigion ofyn i berson ddarparu gwybodaeth mewn cysylltiad â swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yr awdurdod, ac os bydd y person hwnnw yn methu neu yn gwrthod darparu'r wybodaeth honno yna mae yna sancsiynau sifil ar gael i'r Cyngor ar ffurf rhybuddion gorfodi a chosbau ariannol.

### c) Ymchwilio a Chofnodi Achosion o Lifogydd

Mae'n ddyletswydd ar Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol i gydgysylltu ymchwiliadau a chofnodi achosion o lifogydd sylweddol yn eu hardaloedd.

Mater i'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yw penderfynu ymchwilio i lifogydd ai peidio a chaiff maint yr ymchwiliad ei addasu i adlewyrchu arwyddocâd y digwyddiad a'r adnoddau sydd ar gael.

Fel rheol cynhelir ymchwiliad lle mae unrhyw un o'r meini prawf canlynol yn cael eu diwallu, neu os yw er budd y cyhoedd i wneud hynny:-

- lle mae perygl i fywyd o ganlyniad i lifogydd
- lle mae amwysedd ynghylch ffynhonnell neu gyfrifoldeb dros achos o lifogydd
- lle mae un eiddo (domestig neu fusnes) wedi dioddef llifogydd ar fwy nag un achlysur
- lle mae pum eiddo wedi dioddef llifogydd mewnol yn ystod un achos o lifogydd
- lle mae cysylltiad trafnidiaeth wedi'i rwystro'n llwyr am gyfnod sylweddol o ganlyniad i lifogydd
- lle mae isadeiledd hanfodol wedi'i effeithio gan lifogydd

Pan fo llifogydd sylweddol yn effeithio ar ardaloedd mawr, mae'r gallu i ymchwilio i bob achos yn fanwl yn debygol o fod yn gyfyngedig.

Y nod yw dwyn yr holl wybodaeth ddefnyddiol ynghyd mewn un lle er mwyn darparu dealltwriaeth gliriach o'r sefyllfaoedd, amlinellu achosion posibl dros y llifogydd a'r atebion hir dymor posibl.

Nid yw'r dyletswydd i ymchwilio yn gwarantu y bydd problemau'n cael eu datrys ac ni ellir eu defnyddio fel dull i orfodi awdurdodau eraill i weithredu.

### d) Paratoi Cofrestr Asedau

Strwythurau neu nodweddion yw Asedau Perygl Llifogydd sy'n debygol o gael effaith ar berygl llifogydd.

Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion, fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, gadw cofrestr o strwythurau neu nodweddion a ystyrir fel rhai sy'n cael effaith ar berygl llifogydd.

Fe fydd y gofrestr ar gael i'w defnyddio gan yr awdurdodau rheoli perygl llifogydd perthnasol ac i'w harchwilio gan y cyhoedd.
Fe fydd yn cymryd amser i'r gofrestr fod yn ddigon cynhwysfawr i fod o werth gwirioneddol mewn rheoli perygl llifogydd ond mae camau ar y gweill i ddatblygu cofrestr yn y cyngor ac i'w chysylltu gyda chofrestri sydd eisoes ar gael gan awdurdodau eraill.

e) **Corff Cymeradwyo SDC (CCS)**

Fe fydd Cyngor Sir Ceredigion County yn derbyn rôl **Corff Cymeradwyo SDC (CCS)** o dan y **Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010** a rhaid iddo:


- Asesu a chymeradwyo pob gwaith adeiladu sydd ag oblygiadau draenio i sicrhau cydymffurfiaeth gyda safonau cenedlaethol
- Mabwysiadu pob cynllun SDC yn gysylltiedig gyda dŵr wyneb yn dod o fwy nag un eiddo
- Sicrhau bod pob cynllun SDC mabwysiedig yn cael eu cynnal yn gywir

Pan gaiff yr atodlen hon o'r Ddeddf ei deddfu cytunir ar y manylion llawn o sut y caiff hyn ei weithredu gyda'r partneriaid a rhoddir cyhoeddusrwydd eang i hynny.

**Llwybr Triniaeth SDC**

Mae Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) yn darparu mecanwaith i sicrhau bod unrhyw ddatblygiad yn digwydd heb greu problemau draenio neu gynyddu perygl o lifogydd.

Trwy gadw llif dŵr wyneb o fewn y datblygiad a'i reoli cyn agosed at y ffynhonnell â phosibl, mae SDC yn ddull o reoli llif dŵr wyneb gan geisio dynwared y system ddraenio naturiol a lleihau llifogydd yn y dalgylch trwy hyrwyddo adlenwi dŵr daear. Mae SDC hefyd yn gallu chwarae rhan bwysig mewn cynorthwyo i wella ansawdd ac amwynder dŵr.




**Llwybr Triniaeth SDC**

## f) Caniatáu Gwaith ar Gyrsiau Dŵr Cyffredin

Ers 6 Ebrill 2012 mae Cyngor Sir Ceredigion wedi bod yn gyfrifol am reoliad cyrsiau dŵr cyffredin yn y Sir i sicrhau bod perygl llifogydd yn cael ei reoli'n briodol ac i asesu unrhyw waith arfaethedig am eu heffeithiau i fyny ac i lawr yr afon ac i'r amgylchedd.

Mae dwy elfen i'r **Rheoliadau Cyrsiau Dŵr Cyffredin**:-

- cyhoeddi caniatadau am unrhyw newidiaau arfaethedig i sianel cwrs dŵr a ystyrir sy'n atal neu yn newid llif cwrs dŵr cyffredin
- camau gorfodi i gywiro unrhyw waith sianelu neu niweidiol anghyfreithlon i gwrs dŵr cyffredin

Os yw perchnogion glannau'r afon neu gyrff eraill eisiau gwneud gwaith oddi mewn i gwrs dŵr cyffredin fe ddylent wneud cais i'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol am ganiatâd.

Y rheswm dros hynny yw sicrhau nad oes unrhyw rwystrau a gwaith arall allai gynyddu perygl llifogydd yn cael eu hadeiladu. Fe fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i gyflawni'r un rôl ar y Prif Afonydd.

## g) Dynodi Asedau

Mae Cyngor Sir Ceredigion a Chyfoeth Naturiol Cymru yn 'awdurdodau dynodi'.

Mae ganddynt y pwerau i ddynodi strwythurau a nodweddion sy'n effeithio ar lifogydd neu erydu arfordirol er mwyn diogelu asedau y dibynnir arnynt ar gyfer rheoli perygl llifogydd neu erydu arfordirol.

Pan gaiff ased ei 'ddynodi' ni ellir ei newid na'i symud heb ganiatâd yr awdurdod rheoli risg sy'n dynodi. Ond, nid yw dynodi yn golygu nad oes dyletswydd i'w gynnal yn ei gyflwr cyfredol.

## h) Pwerau i wneud Gwaith

Mae'r **Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr** wedi newid rhai pwerau oedd gan Gyngor Sir Ceredigion o dan y **Ddeddf Draenio Tir 1991**, ac o ganlyniad gall y Cyngor nawr wneud gwaith i osod neu wella system draenio tir neu orfodi perchnogion eraill i gyflawni eu rhwymedigaethau – ond nid oes ganddo ddyletswydd i wneud hynny.

## 2) Fel Awdurdod Draenio Tir

Nid oes gan Gyngor Sir Ceredigion unrhyw gyfrifoldebau (ac eithrio lle mae'n berchennog tir) o dan y **Ddeddf Draenio Tir 1991** ond mae ganddo nifer o bwerau caniataol y gall eu defnyddio, ond nid oes unrhyw rwymedigaeth arno i'w defnyddio. Mae'r rhain yn cynnwys

- Pwerau caniataol i gynnal neu i wella gwaith sydd eisoes yn bodoli neu i adeiladu gwaith newydd er mwyn helpu i liniaru llifogydd
- Pwerau caniataol i gyflwyno rhybudd ar berchnogion tir yn ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud gwaith y tybir sydd yn angenrheidiol i helpu i liniaru llifogydd. Gall methu â chydymffurfio gyda rhybudd o'r fath olygu bod y Cyngor yn gwneud y gwaith ac yn codi tâl ar y perchennog am gostau gwneud y gwaith
- Pwer i wneud gwaith i gynnal llif y cwrs dŵr

## 3) Fel Awdurdod Rheoli Perygl Erydu Arfordirol

Mae'r cyfrifoldebau'n cynnwys:

- Datblygu **Cynllun Rheoli'r Traethlin**
- Cyflenwi gweithgareddau rheoli perygl erydu arfordirol
- Gweithio ochr yn ochr â Chyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu a chynnal gwybodaeth perygl llifogydd ac erydu arfordirol
- Cadw cofrestr o asedau a nodweddion sy'n helpu i reoli perygl arfordirol

## 4) Fel yr Awdurdod Cynllunio rhag Argyfyngau

Mae Uned Argyfyngau Sifil Posibl Cyngor Sir Ceredigion yn cefnogi cyflenwad gwasanaethau parodrwydd sifil a pharhad busnes effeithiol. Mae'r uned yn darparu arbenigedd i alluogi'r Cyngor i ddiwallu ei gyfrifoldebau statudol:

- Asesu risgiau yn unol â'r Gofrestr Risgiau Cymunedol
- Datblygu Cynlluniau Argyfwng Ceredigion
- Cynnal system i rybuddio, hysbysu a chynghori'r cyhoedd mewn argyfwng
- Rhannu gwybodaeth a chydweithredu gydag ymatebwyr eraill

Yn ystod ac ar ôl argyfwng, mae Cyngor Sir Ceredigion yn gwneud y canlynol:

- Cydgysylltu cefnogaeth argyfwng
- Delio gyda llifogydd dŵr wyneb, dŵr daear a chwrs dŵr cyffredin

- Gweithio gydag ymatebwyr eraill fel rhan o'r ymateb aml asiantaeth i lifogydd
- Cydgysylltu cefnogaeth argyfwng gan gyrff gwirfoddol
- Cydlynu gyda Llywodraeth Cymru
- Cydlynu gyda darparwyr gwasanaethau hanfodol
- Agor canolfannau seibiant
- Rheoli rhwydweithiau trafnidiaeth a thraffig lleol
- Darparu cymorth brys.
- Delio gyda phroblemau iechyd amgylcheddol
- Cydgysylltu'r broses adfer
- Rheoli problemau iechyd cyhoeddus
- Darparu cefnogaeth a chyngor i unigolion a busnesau

**5) Fel yr Awdurdod Priffyrdd**

Mae pob Awdurdod Priffyrdd yn Awdurdodau Rheoli Risg o dan y **Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr**. Cyngor Sir Ceredigion yw'r Awdurdod Priffyrdd ar gyfer y rhan fwyaf o ffyrdd y Sir a gynhelir yn gyhoeddus a'r unig eithriadau yw

- A44
- A487

Mae'r rhain yn gyfrifoldeb i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Mae gan Awdurdodau Priffyrdd gyfrifoldebau pellach hefyd:

<u>Cyfrifoldeb i gynnal y Priffyrdd</u>

O dan y **Ddeddf Priffyrdd** mae gan yr Awdurdod Priffyrdd ddyletswydd i gynnal y briffordd. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod systemau draenio priffyrdd yn glir a bod rhwystrau ar y priffyrdd yn cael eu clirio. Fel rhan o'r ddyletswydd hon, caiff ffyrdd eu harolygu a'u cynnal yn rheolaidd.

Lle mae llifogydd ar briffyrdd yn digwydd oherwydd person arall (e.e. perchennog tir cyfagos), mi fydd Cyngor Sir Ceredigion yn ceisio cynghori ac addysgu perchnogion mewn ynghylch gwaith i atal llifogydd rhag digwydd, ond gall yr Awdurdod Priffyrdd yn y pen draw gymeryd camau yn erbyn y person sy'n gyfrifol.

<u>Pwerau i Gyflenwi Gwaith</u>

Mae gan yr Awdurdod Priffyrdd y pwerau (nid dyletswydd) i gyflenwi gwaith y mae'n ei ystyried sy'n angenrheidiol i amddiffyn y briffordd rhag llifogydd. Gellir gwneud y gwaith ar y briffordd neu ar dir y mae'r Awdurdod Priffyrdd wedi ei gaffael wrth ymarfer y pwerau caffael tir priffyrdd i'r diben hwnnw.

Unwaith eto, lle mae llifogydd ar briffordd yn digwydd oherwydd person arall, gall yr Awdurdod Priffyrdd gymryd camau yn erbyn y person sy'n gyfrifol.

Ymateb mewn Digwyddiad Llifogydd Argyfwng

Mewn argyfwng neu ddigwyddiad mawr fe fydd yr Awdurdod Priffyrdd yn ceisio darparu:

- Modd i bobl deithio gartref neu i fan diogel
- Adfer llif traffig i'r rhwydwaith cludiant
- Defnyddio cysylltiadau cyfryngau sefydledig i hysbysu'r cyhoedd am faterion teithio
- Dull i arolygu, trwsio neu glirio'r rhwydwaith priffyrdd

### 6) Fel Awdurdod Cynllunio

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn Awdurdod Cynllunio gyda chyfrifoldebau dros swyddogaethau cynllunio, ac mae'r rhain yn effeithio ar Reoli Perygl Llifogydd mewn tri dull allweddol:

- Ystyried pryderon llifogydd wrth ddatblygu cynlluniau lleol
- Gweithio ochr yn ochr â datblygwyr a gyda'r **Corff Cymeradwyo SDC** sydd ar fin ei sefydlu i sicrhau bod ceisiadau cynllunio a cheisiadau draenio yn ategu ei gilydd
- Ystyried asesiadau perygl llifogydd a gyflwynir i gefnogi ceisiadau

Mae Adran 13 o **Bolisi Cynllunio Cymru** yn nodi egwyddorion mewn perthynas â pherygl llifogydd ac mae'n ceisio sicrhau bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ystyried perygl llifogydd fel ystyriaeth berthnasol. Mae'r egwyddorion cyffredinol yn ceisio sicrhau bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gweithio tuag at:-

- Osgoi datblygu amhriodol mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd, yn hytrach na cheisio defnyddio amddiffynfeydd llifogydd a thechnegau lliniaru
- Sicrhau na fydd datblygiad yn cynyddu perygl llifogydd yn rhywle arall a pheidio ag amharu ar lif dŵr
- Isadeiledd yn gallu ymdopi gyda'r perygl cynyddol o lifogydd
- Dylai datblygiad adeiledig ar orlifdiroedd heb eu rhwystro ar hyn o bryd fod yn eithriadau ac yn gyfyngedig i isadeiledd trafnidiaeth a chyfleustodau hanfodol.

**Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd**

Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd yn darparu fframwaith manylach sy'n galluogi asesiad mwy gwybodus o berygl llifogydd all godi o lif dŵr afon, arfordirol neu ddŵr wyneb. Mae TAN 15 yn hyrwyddo dull rhagofalus o weithredu tuag at leoliad datblygiadau mewn ardaloedd mewn perygl o lifogydd, mae'r dull hwn o weithredu yn cynnwys:-

- Cyfeirio datblygiadau o ardaloedd sy'n wynebu perygl mwyaf o lifogydd
- Mae'r angen i gynnal profion cyfiawnhau mewn ardal sydd wedi'i dosbarthu fel un sy'n wynebu perygl uchel o lifogydd o bwysigrwydd strategol a bod canlyniadau llifogydd wedi eu hystyried

Mae dwy nodwedd o TAN 15 sy'n helpu i lywodraethu'r dull rhagofalus o weithredu:

- Mae Mapiau Cyngor Datblygu (DAMS) yn nodi tri pharth cyngor datblygu gwahanol sy'n creu camau cynllunio gwahanol yn dibynnu ar lefel y risg sy'n gysylltiedig gyda'r parth
- Mae TAN15 yn nodi rhai mathau o ddatblygu nad ydynt yn dderbyniol mewn rhai ardaloedd gyda chanlyniadau llifogydd neilltuol. I helpu i adnabod perygl llifogydd mewn datblygiad, mae TAN 15 wedi categoreiddio rhai mathau o ddatblygiadau i dri chategori:
    - Gwasanaethau Argyfwng – yn cynnwys cyfleusterau sydd angen bod yn hygyrch bob amser e.e. gwasanaethau brys
    - Datblygu Perygl Uchel – yn cynnwys datblygiadau lle y gall y meddianwyr fod yn gyfyngedig o ran rheoli perygl llifogydd i fywyd ac eiddo (e.e. preswyl/ysgolion)
    - Datblygu Llai Peryglus – yn cynnwys datblygiadau lle mae gan y meddianwyr fwy o gyfle i benderfynu os ydynt yn dymuno derbyn perygl llifogydd o'r fath (e.e. masnachol, cyflogaeth, diwydiannol a manwerthu)

**Polisi Cynllunio – Cynllun Datblygu Lleol**

Yn ôl y **Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004** mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)

Fe fydd y **Cynllun Datblygu Lleol** yn gymorth i swyddogion cynllunio wrth reoli perygl llifogydd a datblygu amhriodol yn y gorlifdir. Dylai Polisïau a Chanllaw Cynllunio Atodol alluogi datblygwyr i fod yn fwy gwybyddus am

ofynion perygl llifogydd o'r cychwyn, a gallai hynny dynnu'r pwysau oddi ar randdeiliaid i gyflenwi sylwadau'n berthynol i gynllunio ar geisiadau cynllunio.

Mae cydweithrediad rhwng yr Awdurdod Cynllunio ac unrhyw Gorff Cymeradwyo SDC yn y dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio:

- Ymgynghori gyda'r Corff Cymeradwyo SDC am faterion draenio ar y safle
- Sicrhau bod ceisiadau am ganiatâd cynllunio amlinellol yn cael eu trafod gyda'r Corff Cymeradwyo SDC

## 7) Cyfrifoldebau fel Perchennog Tir

Fel perchennog tir wrth ymyl cwrs dŵr, mae gan Gyngor Sir Ceredigion rai hawliau a chyfrifoldebau. Mewn cyfraith gelwir y rhain yn Hawliau a Chyfrifoldebau Glannau'r Afon a lle mae'r rhain yn digwydd mae'r cyngor yn gyfrifol am:

- Cynnal gwelyau, glannau , strwythurau cwrs dŵr
- Galluogi llif dŵr i lifo heb rwystr
- Rheoli rhywogaethau dieithr goresgynnol fel y clymog Japan

**CYFOETH NATURIOL CYMRU (CNC)**

***D.S..*** *Ers 1 Ebrill 2013 Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sydd yn gyfrifol am swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru*

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn Gorff Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth Cymru, a'i brif nod yw diogelu a gwella'r amgylchedd a hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Yn hanesyddol, roedd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru rôl strategol genedlaethol a rolau gweithredol lleol o ran rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, ond gyda chyflwyniad **Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010** roedd ganddo gyfrifoldebau gweithredol hefyd mewn perthynas ag erydu arfordirol a rôl oruchwylio ehangach dros reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Mae hyn yn golygu bod gan Gyfoeth Naturiol Cymru rôl ddeuol bellach yng Nghymru:-

- cyfrifoldebau gweithredol dros lifogydd o'r prif afonydd, y môr ac erydu arfordirol
- cyfrifoldebau goruchwylio mewn perthynas â'r holl reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru

Mae'r newid gweithredol wedi'i wneud mewn cydnabyddiaeth o'r cysylltiadau rhwng llifogydd arfordirol ac erydu arfordirol, yn enwedig o ran canlyniadau.

Wrth i Lywodraeth Cymru symud tuag at gyflwyno polisi cenedlaethol mewn perthynas â newid arfordirol, yn cynnwys erydu, ailgronni, gwasgfa ac adlinio rheoledig, diben dyrannu'r cyfrifoldeb gweithredol i Gyfoeth Naturiol Cymru yw gwella'r trefniadau partneriaeth sydd eisoes yn bodoli fel y rhai a welir ymysg grwpiau arfordirol a thrwy sefydlu ail rifyn y **Cynlluniau Rheoli Traethlin**.

Mae'r newid goruchwylio yn annatod i gyflenwad y polisi cenedlaethol ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ac fel rhan o'r rôl honno bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain ar ddarparu cyngor a chymorth technegol i Awdurdodau Rheoli Risg eraill. Byddant hefyd yn arwain ar fentrau cenedlaethol fel Ymwybyddiaeth o Lifogydd Cymru, y rhaglen codi ymwybyddiaeth genedlaethol, a'r pwynt cyswllt sengl ar gyfer ymholiadau a gwybodaeth am berygl llifogydd sydd ar hyn o byd yn cael ei dreialu trwy eu Gwasanaeth Llinell Rybuddion Llifogydd.

Cyfoeth Naturiol Cymru fydd yr unig Awdurdod Rheoli Risg gyda'r dasg o fonitro ac adrodd ar weithrediad y **Strategaeth Genedlaethol.** Wrth ymgymryd â'r rôl byddant yn:

- casglu data ar gynnydd oddi wrth Awdurdodau Rheoli Risg
- adrodd ar wybodaeth ffeithiol i Lywodraeth Cymru
- darparu cyngor deongliadol i Lywodraeth Cymru

Yn ogystal â'u dyletswyddau statudol mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru nifer o bwerau caniataol. Pwerau yw'r rhain sy'n eu galluogi, ond nid eu gorfodi i wneud rhywbeth, ac maent yn cynnwys:

- pwerau i ofyn am wybodaeth;
- y gallu i godi tâl am waith rheoli perygl llifogydd lleol
- pwerau i ddynodi rhai strwythurau/nodweddion sy'n effeithio ar berygl llifogydd neu erydu arfordirol
- ehangu pwerau i wneud gwaith i gynnwys camau rheoli perygl ehangach
- y gallu i greu llifogydd neu erydu arfordirol o dan rhai amodau neilltuol

Mae'r dyraniad newydd hwn o gyfrifoldebau hefyd yn gyson gyda rôl Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â **Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009,** sy'n dyrannu cyfrifoldeb penodol dros gynnal asesiadau mewn perthynas â mapio a chynllunio perygl llifogydd o'r prif afonydd, y môr a chronfeydd dŵr i Gyfoeth Naturiol Cymru yn ogystal â darparu canllaw i Awdurdodau Lleol ar y materion hyn ar gyfer llifogydd o ffynonellau eraill.

O dan y **Rheoliadau** mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru rôl asesu a chydgysylltu ar lefel genedlaethol gan sicrhau bod yr wybodaeth gywir yn cael ei throsglwyddo yn ôl i'r Comisiwn Ewropeaidd.

Nid oes unrhyw Fyrddau Draenio Mewnol yng Ngheredigion, ond mae un Dosbarth Draenio Mewnol (DDM) yn y Sir (DDM Borth) a weinyddir yn uniongyrchol gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac felly nhw sydd yn gyfrifol am reoli perygl llifogydd o bob ffynhonnell oddi mewn i'r Dosbarth Draenio Mewnol.

<u>Rôl Weithredol Leol</u>

Mae Rôl Weithredol Leol Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys cynllunio at argyfwng a rheoli llifogydd o'r prif afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr.

<u>Prif Afonydd</u>

Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru y pwerau i wneud gwaith cynnal a chadw a gwelliannau ar y Prif Afonydd, Gall hefyd gynnig amddiffynfa llifogydd a bydd yn gweithio gydag awdurdodau llifogydd lleol arweiniol a chymunedau lleol i lunio cynlluniau sy'n ymateb i flaenoriaethau lleol. Ond perchennog glannau'r afon sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros gynnal y Prif Afonydd.

<u>Cronfeydd Dŵr</u>

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gorfodi **Deddf Cronfeydd Dŵr 1975**, sef y ddeddfwriaeth diogelwch i gronfeydd dŵr yn y DU. Cyfoeth Naturiol Cymru, fel yr

Awdurdod Gorfodi yng Nghymru, sy’n gyfrifol am gronfeydd dŵr sydd yn fwy na 10,000$m^3$.

Perchennog/gweithredwr y gronfa ddŵr sydd yn gyfrifol am gyflawni gwaith i reoli diogelwch y gronfa ddŵr

Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd sydd yn gyfrifol am sefydlu a chynnal cofrestr o gronfeydd dŵr a darparu’r wybodaeth hon i’r cyhoedd.

.Awdurdod Rheoli Perygl Erydu Arfordirol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn awdurdod rheoli perygl erydu arfordirol gyda’r pŵer i amddiffyn tir rhag erydu arfordirol a rheoli gweithgareddau trydydd partïon ar yr arfordir.

Cynllunio at Argyfwng

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad cynlluniau llifogydd aml asiantaethau a ddatblygir gan fforymau cydnerthu lleol i helpu’r cyrff sy’n ymateb i lifogydd i weithio’n well gyda’i gilydd.

Mae’n gweithio i ddarparu rhagolygon a rhybuddion am lifogydd o afonydd a’r môr.

Mae ganddo rôl hefyd mewn rheoli gweithredol asedau a systemau perygl llifogydd i leihau perygl yn ystod llifogydd.

Y Broses Gynllunio

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu cyngor i awdurdodau cynllunio mewn perthynas â datblygu a pherygl llifogydd cysylltiedig. Mae hefyd yn darparu rhybuddion llifogydd ac yn cefnogi ymatebwyr brys pan fo llifogydd yn digwydd.

**DŴR CYMRU WELSH WATER (DCWW)**

Dŵr Cymru Welsh Water sydd yn gyfrifol am ddarparu dŵr ac am wneud trefniadau priodol i ddraenio dŵr brwnt, trin gwastraff, carthffosydd dŵr wyneb a charthffosydd cyfun.

Dŵr Cymru Welsh Water sydd yn bennaf gyfrifol am lifogydd o systemau dŵr a charthffosiaeth, all gynnwys llifogydd o garthffosydd, pibellau wedi byrstio neu dŵr o'r prif gyflenwad neu lifogydd wedi'u hachosi gan fethiannau yn y system.

Er nad oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i drefniadau gweithredol Dŵr Cymru Welsh Water o ran rheoli dŵr a charthffosiaeth, mae **Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010** yn gosod nifer o ddyletswyddau statudol arno mewn perthynas â rheoli perygl llifogydd, yn cynnwys:

- Ymateb i lifogydd yn cynnwys asedau Dŵr Cymru
- Darparu adroddiadau ar lifogydd
- Cadw cofrestr o eiddo mewn perygl o ddioddef llifogydd oherwydd gorlwytho hydrolig
- Gwneud gwelliannau i liniaru problemau llifogydd carthffosydd
- Dyletswydd i gydweithio gydag awdurdodau perthnasol eraill wrth ymarfer eu swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol
- Talu sylw i strategaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol lleol a chenedlaethol

Yn aml mae gan gwmnïau dŵr a charthffosiaeth wybodaeth werthfawr sydd yn gallu bod o gymorth i ddeall peryglon llifogydd y mae cymunedau ar draws Cymru yn eu wynebu. Mae'n ofynnol iddynt gadw cofrestr o eiddo ac ardaloedd sydd wedi dioddef llifogydd mewnol, y gofrestr DG5, ond gallant gael mynediad i ragor o wybodaeth o adroddiadau digwyddiadau, ymchwiliadau blaenorol a modelu hydrolig.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water yn cydnabod bod ganddo rôl ar y cyd gydag awdurdodau rheoli perygl llifogydd erall i ddiwallu cyfrifoldebau'r **Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr** a bod y dull hwn o weithredu yn cynnig manteision ehangach wrth gael cyd ddealltwriaeth o broblemau a dealltwriaeth ehangach o fanteision gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r atebion rheoli perygl llifogydd mwyaf effeithiol a chynaliadwy.

Dŵr Cymru Welsh Water sydd yn gyfrifol am lifogydd o garthffosydd cyhoeddus brwnt, cyfun neu ddŵr wyneb ac o brif gyflenwadau dŵr sydd wedi byrstio neu am lifogydd sy'n digwydd oherwydd methiannau yn y system.

Adroddir am y mwyafrif o lifogydd carthffosydd a phrif gyflenwadau dŵr i ganolfannau galw gweithredol 24 awr ac os oes unrhyw ddigwyddiad yn ymwneud â'i asedau yna caiff tîm maes ei anfon allan.

Lle mae presenoldeb (neu dystiolaeth) o lifogydd, cofnodir y manylion a. chynhelir ymchwiliad, allai arwain at gofnodi ar y gofrestr DG5. Cofrestr yw'r gofrestr DG5 o eiddo ac ardaloedd sydd wedi dioddef neu sy'n debygol o ddioddef llifogydd o garthffosydd brwnt cyhoeddus, cyfun neu ddŵr wyneb oherwydd gorlwytho'r system garthffosiaeth. Mae buddsoddi mewn lliniaru llifogydd carthffosydd yn gysylltiedig yn agos i'r gofrestr DG5. Rhoddir blaenoriaeth i broblemau llifogydd mewnol sy'n digwydd yn aml lle mae ateb cost fanteisiol a chynaliadwy ar gael.

Mae problemau dros dro fel rhwystrau, siltio, cwympiadau a methiannau cyfarpar neu weithredol wedi'u heithrio o'r gofrestr DG5.

**DARPARWYR CYFLEUSTODAU AC ISADEILEDD**

Nid yw darparwyr cyfleustodau ac isadeiledd yn awdurdodau rheoli risg.

Ond efallai bod ganddynt asedau fel cwlfertau, y mae angen rhannu gwybodaeth amdanynt gydag awdurdodau rheoli perygl llifogydd.

Maent eisoes yn cadw cynlluniau am ddatblygiad a gwaith cynnal y gwasanaethau y maent yn eu darparu i'r dyfodol ac mae'n bwysig eu bod yn cynnwys materion rheoli perygl llifogydd yn y broses gynllunio hon.

**PRESWYLWYR, TIRFEDDIANWYR A BUSNESAU**

Cyfrifoldeb perchnogion tai a busnesau yw gofalu am eu heiddo ac mae hynny'n cynnwys eu hamddiffyn rhag llifogydd. Er y gall cyrff neu berchnogion eiddo eraill fod yn atebol mewn rhai amgylchiadau oherwydd eu bod wedi esgeuluso eu cyfrifoldebau eu hunain, bydd sawl achlysur lle mae llifogydd yn digwydd hyd yn oed pan fo pob parti wedi cyflawni eu cyfrifoldebau. Mae'n bwysig felly bod perchnogion tai yn cymryd camau i sicrhau bod eu tai wedi eu hamddiffyn.

Dylai'r rhain gynnwys:

- Gwirio os yw eu heiddo mewn perygl o lifogydd o afonydd, cyrsiau dŵr, y môr neu ffynonellau eraill
- Sicrhau bod paratoadau wedi eu gwneud os yw llifogydd yn digwydd
- Cymryd camau i sicrhau bod eu heiddo wedi'i amddiffyn rhag llifogydd
- Cymryd camau i sicrhau bod eu heiddo yn gallu gwrthsefyll llifogydd
- Cael yswiriant rhag llifogydd lle mae hynny'n bosibl

Gall Cyfoeth Naturiol Cymru (trwy wefan Asiantaeth yr Amgylchedd) neu Gyngor Sir Ceredigion ddarparu gwybodaeth am berygl llifogydd i eiddo.

**www.environment-agency.gov.uk/homeandleisure/floods/31650.aspx**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (trwy wefan Asiantaeth yr Amgylchedd) hefyd yn darparu gwybodaeth am beth i'w wneud i baratoi ar gyfer argyfyngau llifogydd a sut i wneud eich eiddo yn ddiogelach rhag llifogydd:

**www.environment-agency.gov.uk/homeandleisure/floods/38329.aspx**
**www.environment-agency.gov.uk/homeandleisure/floods/106769.aspx**

**PERCHNOGAETH 'GLANNAU'R AFON'**

Mae perchnogion tir, deiliaid tai a busnesau y mae eu heiddo gerllaw afon, ffrwd neu ffos yn debygol o fod yn Berchnogion Glannau'r Afon, gyda chyfrifoldebau'n gysylltiedig â hynny.

Os yw eiddo yn cefnu ar afon neu ffrwd yna mae perchennog yr eiddo yn debygol o fod yn berchennog glannau'r afon, yn berchen ar y tir hyd at ganol y cwrs dŵr.

Mae rhagor o wybodaeth am hawliau a chyfrifoldebau Perchnogion Glannau'r Afon ar gael yn nogfen Asiantaeth yr Amgylchedd 'Living on the Edge'.

**CYNGHORAU TREF A CHYMUNED**

Mae llifogydd yn effeithio ar gymunedau yn ogystal ag ar unigolion ac mae'r Gymuned, cymaint ag unrhyw un yn gwybod am y perygl y mae'n yn ei wynebu gan fod ganddynt yr wybodaeth hanfodol am hanes llifogydd yn eu hardaloedd neilltuol.

Efallai nad yw preswylwyr newydd yn ymwybodol o'r perygl llifogydd yn yr ardal, yn enwedig os na fu hanes o lifogydd yn ddiweddar.

Mae gan Gynghorau Tref a Chymuned rôl bwysig i'w chwarae felly mewn cyfathrebu perygl llifogydd i'r rhai nad ydynt efallai yn ymwybodol o'r perygl a chyfeirio'r unigolion hynny at Gyngor Sir Ceredigion a Chyfoeth Naturiol Cymru.

## ASESU PERYGL LLIFOGYDD LLEOL

Mae llifogydd yn berygl gwirioneddol i fywyd ac rydym wedi gweld marwolaethau ar draws y DU ac Ewrop yn ystod llifogydd y gorffennol agos.

Y tu hwnt i berygl i fywydau, ac fel y gwelsom yng Nghaerloyw yn 2007, Cumbria yn 2009 ac yng Ngheredigion a Gogledd Cymru yn 2012, gall llifogydd ddinistrio cartrefi a busnesau mewn munudau. Mae economïau lleol yn gallu cael eu difetha, preswylwyr yn cael eu gwneud yn ddigartref a chymunedau'n cael eu dinistrio.

Er bod llifogydd hanesyddol lleol mewn ardaloedd yng Ngheredigion roedd graddfa'r llifogydd ym mis Mehefin 2012 yn rhywbeth nas gwelwyd o'r blaen pan syrthiodd dros 200mm o law ar nos Wener yr 8fed ac yn oriau cynnar Sadwrn y 9fed dros y rhan fwyaf o ogledd Ceredigion.

Yn ystod y llifogydd effeithiwyd ar nifer o eiddo preswyl a masnachol wrth i nifer o afonydd a chyrsiau dŵr fethu ag ymdopi gyda lefel y glaw a syrthiodd yn ystod yr wythnosau blaenorol ac a oedd yn golygu nad oedd y tir yn gallu derbyn rhagor o law, yn enwedig y glaw a syrthiodd yn y 24 awr cyn hyn.

Gall yr effeithiau, yn enwedig yr effeithiau ar iechyd barhau am fisoedd, blynyddoedd neu ddegawdau, yn dibynnu ar gyflymdra ac effaith y llifogydd.

Mae tebygolrwydd a pherygl llifogydd yn dibynnu ar sawl ffactor, yn cynnwys patrymau tywydd, daeareg, topograffi a defnydd tir.

Yn union fel ag y mae cyfnod o law parhaus yn debygol o godi lefelau afonydd, gan gynyddu'r tebygolrwydd y bydd yr afonydd yn gorlifo, yna gall glaw trwm iawn gynyddu'r tebygolrwydd o lifogydd cyflym o afonydd a llifogydd dŵr wyneb wrth i'r tir geisio amsugno'r dŵr neu os nad yw'r system ddraenio yn gallu ymdopi gyda'r holl ddŵr.

Mae tebygolrwydd cynyddol o lifogydd mewn ardaloedd arfordirol isel neu orlifdiroedd oherwydd eu hagosatrwydd at ffynonellau dŵr.

Gydag erydu arfordirol mae'r effeithiau yn aml yn digwydd dros gyfnod hirach o amser, ond mae'r un mor ddinistriol i'r rhai sy'n cael eu heffeithio ganddo.

Wrth i berygl erydu arfordirol gynyddu yn y dyfodol rydym yn wynebu'r posibilrwydd gwirioneddol lle bydd rhaid i rai cymunedau arfordirol adleoli ymhellach i mewn i'r tir, neu ddiflannu.

Mae pob achos o lifogydd yn berygl i fywyd, i'r rhai sydd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol ac i'r rhai sydd yn ceisio helpu'r rhai sydd wedi'u heffeithio'n uniongyrchol ac ni ellir gorddatgan peryglon dŵr llifogydd.

| Mathau o lifogydd | Disgrifiadau | Awdurdod Cyfrifol |
|---|---|---|
| **Llifogydd arfordirol/llanwol** | Fel rheol mae llifogydd arfordirol/llanwol yn digwydd trwy gyfuniad o erydu arfordirol, llanw uchel, tonnau a thywydd garw. | Cyngor Sir Ceredigion<br>Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **Cyrsiau dŵr cyffredin**<br>**e.e. ffrydiau a ffosydd** | Cyrsiau dŵr lleol, fel rheol llai | Perchnogion glannau'r afon<br>Cyngor Sir Ceredigion<br>Cyfoeth Naturiol Cymru (oddi mewn i Ddosbarth Draenio Menwol Borth) |
| **Prif Afonydd** | Prif gyrsiau dŵr a chyrsiau dŵr strategol llai. | Perchnogion Glannau'r Afon<br>Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **Cronfeydd Dŵr** | Mae powndiau dŵr mawr gyda chloddiau yn berygl llifogydd potensial. | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **Llifogydd dŵr wyneb** | Glaw trwm iawn yn creu llif dŵr wyneb sy'n gallu cronni mewn ardaloedd tir isel gan greu llifogydd (fe'i gelwir hefyd yn llifogydd plwfaidd) | Cyngor Sir Ceredigion |
| **Llifogydd Carthffosydd/draenio** | Capasiti cyfyngedig sydd gan y system garthffosiaeth gyhoeddus ac ar adegau o law trwm mae dŵr wyneb sydd yn mynd i mewn i garthffosydd dŵr wyneb, carthffosydd cyfun a charthffosydd brwnt yn gallu cael eu gorlwytho gan greu llifogydd wyneb. | Dŵr Cymru Welsh Water<br>Perchnogion tir (systemau draenio dŵr wyneb a brwnt heb eu mabwysiadu) |
| **Llifogydd dŵr daear** | Gall amodau daearegol greu dŵr wyneb sydd wedi treiddio i'r ddaear ymddangos mewn rhai lleoliadau ar ffurf ffynhonnau etc. Gall tablau dŵr uchel hefyd fod yn bresennol mewn lleoliadau lle mae yna amodau daear neilltuol. Fel rheol mae'r math yma o lifogydd yn digwydd ar ôl cyfnodau hir o law wrth i ddŵr gronni mewn dyfrhaenau tanddaearol | Cyngor Sir Ceredigion |
| **Llifogydd Priffyrdd** | Mae gan briffyrdd systemau draenio helaeth ac yn ystod glaw trwm gall gorlwytho hydrolig wneud i ddŵr gronni a gall hynny yn ei dro effeithio ar eiddo. Gall dŵr ar ffyrdd hefyd greu problemau i ddefnyddwyr ffyrdd a chau ffyrdd ar rai adegau. | Llywodraeth Cymru (Cefnffyrdd) trwy Asiantaeth Rheoli Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru)<br>Cyngor Sir Ceredigion (am bob priffordd arall) |
| **Llifogydd Rheilffyrdd** | Digwyddiad prin ond ar adegau o law trwm mae potensial i anallu hydrolig achosi llifogydd sydd yn gallu effeithio ar weithrediad y rheilffyrdd | Network Rail |

Mae yna ganlyniadau eraill yn gysylltiedig â llifogydd sydd yn rhaid eu hystyried hefyd.

Mae effaith economaidd llifogydd ar lefel bersonol, rhanbarthol a chenedlaethol yn sylweddol, ond efallai mai'r effaith hir dymor amlycaf yw'r effaith ar les y rhai sy'n dioddef llifogydd.

Gall yr effeithiau hyn fod yn fwyaf amlwg mewn rhai adrannau mwyaf agored i niwed mewn cymuned. Nid yw llifogydd yn gwahaniaethu, ac mae'n effeithio ar bob adran o'r gymuned ac mae rhai grwpiau yn llai galluog i ymdopi gydag effeithiau llifogydd. Gall preswylwyr oedrannus ac anabl fod angen cymorth ychwanegol yn ystod llifogydd ac efallai na fydd llety dros dro yn addas i'w hanghenion iechyd gan wneud effeithiau llifogydd hyd yn oed yn fwy amlwg.

O ran erydu arfordirol gall yr effeithiau a'r canlyniadau gymryd hirach i ddod i'r amlwg, ond nid yw'n llai dinistriol.

Yn hanesyddol mae erydu arfordirol wedi bod yn isel yng Nghymru ac amcangyfrifwyd mai dim ond 1.4 $km^2$ o dir a thri eiddo sydd wedi eu colli i erydu arfordirol dros y 100 mlynedd diwethaf. Gyda'r disgwyliad y bydd lefelau'r môr yn codi o tua metr dros y 100 mlynedd nesaf mae erydu arfordirol ac effeithiau hynny ar gymunedau arfordirol yn mynd i gynyddu'n sylweddol.

**Llifogydd Hanesyddol**

Mae data manwl am lifogydd dŵr wyneb yn y gorffennol yn gyfyngedig. Defnyddiwyd yr hyn oedd ar gael cyn paratoi'r strategaeth hon i lywio ein **Hasesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol.**

Yn dilyn deddfu'r amrywiol gymalau yn y **Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr**, mae system yn bodoli bellach i gofnodi pob achos o lifogydd ac fe fydd yr wybodaeth hon yn rhoi gwell syniad inni o ble mae'r prif ardaloedd o broblem yn y Sir. Caiff yr wybodaeth hon, a'r wybodaeth a geir o unrhyw ymchwiliadau i lifogydd a gynhelir, eu hadolygu'n rheolaidd i lywio gwaith yn y dyfodol.

Mae llifogydd lleol wedi digwydd, ac fe fydd yn parhau i ddigwydd, mewn sawl ardal yn y sir pan fydd amodau tywydd yn ddifrifol a gyda newid hinsawdd mae'n debygol y bydd yn digwydd yn amlach ac yn fwy difrifol. Y nod yw ceisio darogan a lleihau'r perygl lle mae'n bosibl a sicrhau bod gennym gynlluniau rhag argyfyngau i ddelio gyda digwyddiadau eithriadol o ddifrifol.

Yn wahanol i lifogydd prif afonydd, mae llifogydd oherwydd glaw trwm yn llawer anos i'w darogan a hyd yn hyn nid oes rhybuddion digonol ar gael i'n galluogi i glirio ardal sydd mewn perygl o ddioddef y math yma o ddigwyddiad.

**Perygl Potensial o Lifogydd**

Roedd yr **Asesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol (PFRA)** a gwblhawyd gan Gyngor Ceredigion ym mis Mehefin 2011 i fodloni ei rwymedigaethau o dan y **Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009** yn amlinellu lle mae'r perygl potensial o lifogydd dŵr wyneb yn debygol o fod fwyaf.

Gan nad oes unrhyw wybodaeth leol ar lifogydd wedi'u darogan yn y dyfodol ar gael, mae'r *'wybodaeth dŵr wyneb cytun lleol'* mewn perthynas â llifogydd yn y dyfodol yn cael ei ystyried i fod yn *'Fap Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb, 1 mewn 200 siawns blynyddol'* o set data a gynhyrchwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac fe'i hadolygwyd wrth baratoi'r **Asesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol**, sy'n rhoi trosolwg o berygl llifogydd yn y dyfodol o ddŵr wyneb.

Cytunwyd mai dyma'r wybodaeth orau oedd ar gael i'r Awdurdod  ac mae'n rhoi manylion am yr ardaloedd hynny yn yr Awdurdod all fod ar lefel leol sylweddol o berygl llifogydd yn y dyfodol.

Dylid pwysleisio, er mai dyma'r wybodaeth orau oedd ar gael mewn perthynas â risg llifogydd rhagweledig yn y dyfodol, gall llifogydd o ddŵr wyneb ac/neu gyrsiau dŵr cyffredin ddigwydd bron yn unrhyw le.

Ond, nid yw'n bosibl edrych ar bob lleoliad sydd â'r potensial o ddioddef llifogydd ar unwaith, ac ni fydd yn bosibl chwaith i leihau pob perygl llifogydd ac mae'n angenrheidiol felly nodi lleoedd a fydd yn cael y mantais gorau, a blaenoriaethu yn unol â hynny.

Defnyddiwyd yr wybodaeth a gasglwyd ynghylch perygl llifogydd yn y dyfodol i nodi'n ffurfiol yr 'Ardaloedd Perygl Llifogydd' yn seiliedig ar *ddangosyddion perygl llifogydd* .i benderfynu ar effeithiau llifogydd ar iechyd dynol, gweithgaredd economaidd, treftadaeth diwylliannol a'r amgylchedd.

Y prif ddangosyddion perygl llifogydd allweddol yw:

- **Iechyd Dynol** – nifer o eiddo preswyl.
- **Gwasanaethau Hanfodol** – Ysbytai, gorsafoedd Heddlu/Tân/Ambiwlans, Ysgolion etc
- **Gweithgaredd Economaidd** – nifer yr eiddo heb fod yn eiddo preswyl
- **Hyd ffyrdd neu reilffyrdd**
- **Ardaloedd o dir amaethyddol**
- **Treftadaeth diwylliannol** – safleoedd treftadaeth diwylliannol/Safleoedd Treftadaeth y Byd
- **Safleoedd Amgylcheddol Dynodedig** - SSSI, SAC, SPA etc

Mae'r tri dangosydd uchod wedi'u dethol gan Lywodraeth Cymru er mwyn nodi ardaloedd lle mae perygl llifogydd a'r canlyniadau potensial yn mynd y tu hwnt i drothwy cenedlaethol rhagderfynedig.

Y dangosyddion a ddefnyddiwyd i nodi lleoedd uwchben y trothwyon perygl llifogydd, yn seiliedig ar y Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb (dyfnder – ar gyfer tebygolrwydd glaw blynyddol 1 mewn 200) yw:

- dros 2200 o bobl yn cael eu heffeithio
  (yn seiliedig ar nifer yr eiddo preswyl x 2.34)
- o leiaf 1 gwasaaneth hanfodolyn cael ei effeithio
- dros 20 o eiddo heb fod yn eiddo preswyl yn cael eu heffeithio

o fewn pob 1km$^2$ sqwâr fel ag sy'n seiliedig ar y Grid Arolwg Ordnans Cenedlaethol.

Y lleoliadau cytun o'r sgwariau unigol (neu glystyrau o sgwariau) yng Ngheredigion sy'n diwallu unrhyw un o'r meini prawf uchod yw:


- Talybont
- Aberystwyth
- Llanbadarn Fawr
- Tregaron
- Llanbedr-pont-Steffanr
- Llandysul
- Cei Newydd
- Aberteifi
- Llangrannog
- Aberporth
- Llechryd
- Aberaeron
- Felinfach (Dyffryn Aeron)
- Gilfachreda
- Drefach
- Talgarreg

Nodir y rhain ar y map ar y dudalen nesaf

Mae nodi'r clystyrau hyn a'r 'sgwariau glas' sengl, ynghyd â'r wybodaeth ar lifogydd wedi'u cofnodi, yn darparu man cychwyn defnyddiol iawn ynghylch lle y dylid canolbwyntio ymdrech neilltuol mewn perthynas ag ymchwiliadau a mesurau lleihau perygl llifogydd posibl yn y dyfodol.

Fel rhan o'r dilyniant i'r **Asesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol**, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cynhyrchu mapiau Perygl Llifogydd a Risg Llifogydd ar ran Llywodraeth Cymru, i'r ardaloedd hynny a nodwyd fel rhai mewn perygl.

Pan ddaw'r rhain ar gael fe fyddant yn darparu gwybodaeth bellach am lifogydd dŵr daear y gellir ei defnyddio i flaenoriaethu buddsoddiad yn yr ardaloedd hynny a fydd yn elwa fwyaf yn gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.




**Map 1 – Ardaloedd mewn perygl Llifogydd yn diwallu'r meini prawf trothwy cenedlaethol yn seiliedig ar debygolrwydd o law blynyddol 1 mewn 200**

**Blaenoriaethu**

Ni fydd yn bosibl edrych ar bob lleoliad sydd â'r potensial i ddioddef llifogydd ar unwaith. Mae'r adnoddau sydd ar gael i reoli perygl llifogydd yn gyfyngedig, ac mae angen blaenoriaethu lleoliadau felly lle bydd ffocws yr ymdrech yn esgor ar y mantais fwyaf o ran lleihau perygl llifogydd.

Rhai o'r ffactorau y bydd angen eu hystyried wrth ddyrannu adnoddau yw:

- Poblogaeth mewn Perygl
- Gwasanaethau Hanfodol mewn Perygl
- Isadeiledd mewn Perygl
- Unedau Masnachol mewn Perygl
- Potensial datblygu arfaethedig
- Safleoedd Carafannau Sefydlog a Theithiol
- Ardaloedd hanesyddol dŵr wyneb, prif afonydd a llifogydd llanwol
- Safleodd wedi'u diogelu'n amgylcheddol, adeiladau hanesyddol a henebion
- Lliniariadau newid hinsawdd

**Rhyngweithio rhwng y gwahanol ffynonellau llifogydd**

Tra bod prif ffocws y Strategaeth hon ar berygl llifogydd o ffynonellau 'lleol' fel dŵr wyneb, cyrsiau dŵr cyffredin a dŵr daear, gall llifogydd ddigwydd o sawl gwahanol ffynhonnell gyda'i gilydd, ac am bob ffynhonnell efallai bod yna awdurdod rheoli perygl llifogydd gwahanol.

Yn y rhan fwyaf o achosion mae ffynhonnell y llifogydd yn amlwg a'r awdurdod rheoli perygl llifogydd perthnasol fydd y pwynt cyswllt. Ond, mewn achosion eraill nid yw mor hawdd nodi ffynhonnell y llifogydd ac mae'n bosibl bod y llifogydd yn digwydd o sawl ffynhonnell. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd Cyngor Sir Ceredigion fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn arwain ac yn gweithio gyda'i bartneriaid i ymchwilio i achosion y llifogydd.

**Effaith Newid Hinsawdd**

Ychydig sy'n cael ei ddeall am effaith newid hinsawdd ar berygl llifogydd lleol. Defnyddiwyd sawl map llifogydd cenedlaethol i baratoi'r adroddiad asesu rhagarweiniol – yn benodol y Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb (llif dŵr wyneb), Ardaloedd yn Agored i Lifogydd Dŵr Wyneb (llif dŵr wyneb), a Map Llifogydd (cyrsiau dŵr cyffredin), ond nid ydynt yn cynnwys amcanestyniadau am effaith newid hinsawdd ar berygl llifogydd lleol.

Mae amcanestyniadau enghreifftiol hinsawdd yn gytun yn gyffredinol bod eithafion uchel dyddodiad yn y gaeaf yn debygol iawn o gynyddu mewn maint ac amlder.

Mae’r modelau hyn yn rhagweld hafau sychach a chynnydd yn y siawns o ddyddodiad dwys – glaw trwm iawn gyda chyfnodau hirach cymharol sych.

Mae amcanestyniadau newid hinsawdd yn awgrymu felly y byddwn yn gweld cynnydd yn nwyster glaw a chynnydd yn amlder stormydd sydyn ac wrth ystyried y ffactorau hyn ar y cyd gyda’r cynnydd disgwyliedig yn lefelau’r môr, rydym yn debygol o weld cynnydd yn amlder a chanlyniadau llifogydd ac erydu arfordirol.

Mae’r dystiolaeth am berygl cynyddol llifogydd ac erydu arfordirol wedi’i ategu gan gyfres o adroddiadau a gynhyrchwyd yn y blynyddoedd diwethaf yn cynnwys **UK Climate Projections, 2009, Foresight: Future Flooding Study**, **Stern Review on the Economics of Climate Change** a **Pitt Review into the Summer 2007 Floods**.

Mae **United Kingdom Climate Projections 2009 (UKCP09)** yn darparu’r rhaogolygon diweddaraf am newid hinsawdd yn y dyfodol yn y DU ac mae’r canfyddiadau allweddol am Gymru yn awgrymu, erbyn 2050 (http://ukclimateprojections.defra.gov.uk/):

- rhagwelir y bydd tymheredd blynyddol cyfartalog yn cynyddu o 2.3°C
- rhagwelir y bydd uchafswm tymheredd dyddiol yr haf yn cynyddu o 3.4°C
- rhagwelir y bydd uchafswm tymheredd dyddiol y gaeaf yn cynyddu o 2.5°C
- rhagwelir y bydd glaw yn:
    - yn cynyddu ar gyfartaledd yn y gaeaf o 14%
    - yn gostwng ar gyfartaledd yn yr haf o 16%
- rhagwelir y bydd lefelau’r môr o amgylch Cymru yn codi o tua 20cm
- fe fydd dwyster stormydd yn yr haf a’r gaeaf yn cynyddu, gan arwain at stormydd dwysach a thonnau mwy o faint yn dryllio ein traethau

Os bydd graddfa newid hinsawdd yn gyflymach na’r hyn a awgrymwyd, yna mae’r effeithiau yn debygol o fod yn ddwysach. Er enghraifft, gallai lefelau môr uwch na’r hyn a awgrymwyd esgor ar gyfraddau hyd yn oed yn fwy o erydu ar ein harfordiroedd. Yn yr un modd, os yw’r raddfa yn arafach yna mae disgwyl i’r effeithiau fod yn llai dwys.

Mae’r amcanestyniadau yn seiliedig ar yr wybodaeth orau sydd ar gael ond mae ansicrwydd o hyd. Mae’n bwysig felly ein bod yn ystyried amrediad o newidiadau hinsawdd posibl yn y dyfodol wrth ymchwilio i ffyrdd o reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynhyrchu **Asesiad Perygl Newid Hinsawdd** a a **Strategaeth Newid Hinsawdd i Gymru**. Mae’r dogfennau hyn yn cyflwyno’r peryglon a’r cyfleodd o newid hinsawdd sy’n wynebu’r wlad a sut y maent yn bwriadu paratoi Cymru ar gyfer effeithiau newid hinsawdd

http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/climatechange/publications/strategy/?lang=en
http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/climatechange/publications/riskassess/?lang=en

## AMCANION I REOLI PERYGL LLIFOGYDD LLEOL

Mae'r symudiad tuag at reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol dros y blynyddoedd diwethaf wedi'i wneud mewn cydnabyddiaeth o gyfyngiadau amddiffynfeydd llifogydd ac arfordirol.

Nid yw'n bosibl atal pob achos o lifogydd ond trwy weithio gyda'n gilydd a defnyddio amrediad ehangach o fesurau rheoli perygl gellir gwneud gwelliannau i'r modd y mae effeithiau a chanlyniadau llifogydd yn cael eu rheoli.

Y nod gyffredinol yw lleihau'r perygl i breswylwyr a busnesau sy'n dioddef diflastod a difrod economaidd sy'n dod yn sgil llifogydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Awdurdodau Rheoli Risg perthnasol gyflenwi eu swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol mewn dull sydd yn:

- gosod datblygu cynaliadwy fel yr egwyddor drefnu ganolog
- cyflawni bywyd o ansawdd gwell i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol
- canolbwyntio ar anghenion unigolion, cymunedau a busnesau
- cefnogi'r rhaglen adnewyddu economaidd ehangach
- hyrwyddo cydraddoldeb heb ddwysáu tlodi
- seiliedig ar ddealltwriaeth holistaidd o'r peryglon a'r canlyniadau
- ystyried yr amrediad llawn o ymatebion rheoli perygl
- cyfrannu at reolaeth holistaidd ein dŵr, tir ac adnoddau morwrol
- hwyluso cynllunio adnoddau a buddsoddi hir dymor
- galluogi blaenoriaethu buddsoddi, adnoddau a gweithrediadau yn effeithiol
- gwneud y mwyaf o'r cyfloedd i addasu i newid hinsawdd
- cymryd i ystyriaeth gofyniadau deddfwriaeth Ewropeaidd a domestig perthnasol

Mae'r **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol** a baratowyd gan Lywodraeth Cymru o dan y **Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010** yn gosod pedwar amcan cyffredinol i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru:

- lleihau effeithiau llifogydd ac erydu arfordirol
- codi ymwybyddiaeth pobl o berygl llifogydd ac erydu arfordirol a'u cynnwys yn yr ymateb i'r perygl hwnnw
- darparu ymateb effeithlon a pharhaus i lifogydd ac erydu arfordirol
- blaenoriaethu buddsoddiad yn y cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf

Ategir a chefnogir y rhain gan 11 is-amcan a 53 mesur.

Mater i'r Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yw cyflenwi rhai o'r is-amcanion a'r mesurau hyn i gefnogi'r Amcanion ehangach fel a nodir gan Lywodraeth Cymru.

Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn cynorthwyo i gyflenwi tri o'r amcanion hyn, trwy gyflenwi'r is-amcanion a amlinellir isod:

| YR AMCANION | IS-AMCANION |
|---|---|
| **Lleihau effeithiau llifogydd ac erydu arfordirol ar unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd** | Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol ar lefel leol |
| | Datblygu polisïau ar gyfer rheoli defnydd tir yn effeithiol a gwell gweithdrefnau rheoli datblygiadau lle mae'n briodol. |
| | Sefydlu amserlenni cynnal a chadw rheolaidd i asedau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. |
| **Codi ymwybyddiaeth pobl o berygl llifogydd ac erydu arfordirol a'u cynnwys yn yr ymateb i'r perygl hwnnw** | Erbyn 2026, sicrhau bod pawb sy'n byw mewn ardal o berygl llifogydd yn deall y perygl o lifogydd y maent yn ei wynebu, canlyniadau'r perygl hwn a sut i fyw gyda'r perygl hwnnw |
| **Darparu ymateb effeithiol a pharhaus i lifogydd ac erydu arfordirol** | Sicrhau paratoi a phrofi Cynlluniau Argyfwng |
| | Ymateb i ddigwyddiadau yn brydlon ac yn briodol |
| | Hwyluso adfer o lifogydd yn yr amser byrraf posibl |

Ar y lefel rheoli llifogydd uchaf, mae tri dewis strategol yn ei hanfod:-

- **Gwneud Dim** – cydnabod y bydd perygl llifogydd yn cynyddu gyda newid hinsawdd, cynyddu'r perygl o ddifrod cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol
- **Cynnal** – cadw'i fyny gyda newid hinsawdd fel nad oes unrhyw gynnydd net mewn perygl llifogydd; fe fydd angen gwella'r seilwaith rheoli perygl llifogydd cyfredol dros amser a bydd angen i bob datblygiad newydd gymryd newid hinsawdd i ystyriaeth
- **Lleihau Perygl Llifogydd** – cymryd camau i leihau effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd oherwydd llifogydd

Er mwyn cydymffurfio gyda'r amcanion lefel uchel a amlinellir yn y **Strategaeth Genedlaethol**, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi gosod ei strategaeth lefel uchel fel **Lleihau Perygl Llifogydd** er mwyn lleihau'r perygl llifogydd cyfredol lle bynnag mae'n bosibl.

**AMCAN 1**
**LLEIHAU EFFEITHIAU LLIFOGYDD AC ERYDU ARFORDIROL AR UNIGOLION, CYMUNEDAU, BUSNESAU A'R AMGYLCHEDD**

IS-AMCAN
DARPARU ARWEINYDDIAETH A CHYFEIRIAD STRATEGOL AR LEFEL LEOL

Mesurau i Gyflenwi'r Is-Amcan:

**CYFLENWI AIL GYLCH Y CYNLLUNIAU RHEOLI TRAETHLIN ERBYN 2012 GYDA GWEITHREDIAD CYMESUR YN YSTOD OES Y STRATEGAETH**

Mae **Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru** (SMP2) a ddatblygwyd gan Gyngor Sir Ceredigion fel aelod o Grŵp Arfodirol Bae Ceredigion yn cynnwys hyd yr arfordir rhwng St Anne's Head yn Sir Benfro a Phen y Gogarth yng Nghonwy.

Fe'i cynhyrchwyd ar y cyd gyda'r Grŵp Arfordirol Ynys Enlli i Ben y Gogarth, a Chyngor Sir Benfro yn awdurdod arweiniol.

Mae'r **Cynllun Rheoli Traethlin** yn darparu asesiad ar raddfa fawr o'r peryglon yn gysylltiedig gydag erydu arfordirol ac mae'n cyflwyno fframwaith polisi i ddelio gyda'r peryglon hyn i bobl a'r amgylchedd ddatblygedig, hanesyddol a naturiol mewn dull cynaliadwy. Wrth wneud hynny mae'r **Cynllun Rheoli Traethlin** yn ddogfen lefel uchel a fydd yn rhan bwysig o'r strategaeth ar gyfer amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn yr arfordir i Gyngor Sir Ceredigion.

Mae'r **Cynllun Rheoli Traethlin** yn ddogfen bolisi anstatudol ar gyfer cynllunio rheoli amddiffyn yr arfordir a'i diben yw llywio cynllunio strategol ehangach o fewn mentrau cynllunio a gofynion deddfwriaethol cyfredol.

Ei nod yw darparu cyd-destun i bednerfyniadau rheoli a chanlyniadau penderfyniadau rheoli mewn sectorau eraill o reoli arfordir ac felly fe ddylai lywio pob agwedd o reoli perygl llifogydd.

Cymeradwywyd **Cynllun Rheoli Traethlin 2** gan y Cabinet ar 31 Gorffennaf 2012, ac fe'i dychwelir i'r Cabinet i'w fabwysiadu'n llawn unwaith y bydd y prosesau cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru wedi eu cwblhau.

**Mesur i gyflawni'r Amcan**
Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn gweithredu Cynllun Gweithredu y CRhT2 wedi eu gymerawdwyo gan Llywodraeth Cymru, a'u fabwysiadu gan y Cyngor

## DATBLYGU STRATEGAETH RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD LLEOL

Mae **Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010** yn rhoi cyfrifoldeb ar yr Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol i ddatblygu, cynnal, defnyddio a monitro strategaeth ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol.

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi i ddiwallu gofynion y mesur penodol hwn.

Bydd yn gwneud hyn trwy weithredu fel y sylfaen tystiolaeth i'r penderfyniadau a'r camau angenrheidiol i reoli perygl llifogydd, a dylai gydbwso anghenion cymunedau, yr economi a'r amgylchedd.

Gyda'r **Strategaeth Genedlaethol**, fe fydd y **Strategaeth Leol** yn annog rhagor o reoli perygl llifogydd effeithiol trwy alluogi pobl, cymunedau, busnesau a'r sector cyhoeddus i weithio gyda'i gilydd i:

- sicrhau dealltwriaeth glir o beryglon llifogydd ac erydu arfordirol
- nodi cynlluniau clir a chyson ar gyfer rheoli perygl
- annog rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol mewn modd arloesol
- ffurfio cysylltiadau rhwng y Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol a chynllunio gofodol lleol
- sicrhau bod cynlluniau argyfyngau ac ymatebion i lifogydd yn effeithiol
- helpu cymunedau i adfer yn gyflymach ac yn effeithiol ar ôl digwyddiadau

Mae'n ddyletswydd ar bob awdurdod rheoli risg i weithredu mewn modd sydd yn gyson â'r strategaeth hon wrth ymarfer eu swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

| **Mesur i gyflawni'r Amcan**<br>Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi datblygu strategaeth ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol, ac fydd yn parahu i gynnal, defnyddio a monitro'r strategaeth hwnnw |
|---|

## GWEITHREDU'R CYFRIFOLDEBAU STATUDOL A NODIR YN NEDDF RHEOLI LLIFOGYDD A DŴR 2010 A RHEOLIADAU PERYGL LLIFOGYDD 2009

Wrth i amrywiol adrannau o'r **Ddeddf** a'r **Rheoliadau** gael eu deddfu mae mwy o ddyletswyddau a chyfrifoldebau yn cael eu gosod ar Gyngor Sir Ceredigion fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol.

Hyd yn hyn mae'r Adrannau/Atodlenni canlynol o **Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010** wedi'u deddfu:

> Mae **Adran 13** o'r **Ddeddf** yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gydweithredu gydag awdurdodau rheoli perygl eraill.

Mae **Adrannau 14 a 15** o'r **Ddeddf** yn delio gyda'r pwerau a ddarperir i'r Cyngor i ofyn am wybodaeth gan berson, cwmni neu gorff cyhoeddus a'r gallu i orfodi'r cais hwnnw.

Mae **Adran 19** o'r **Ddeddf** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnal ymchwiliadau llifogydd, yn amlinellu pwy sydd yn goruchwylio problem neilltuol ac a ydyn nhw'n cyflawni eu dyletswyddau .

Mae **Adran 21** o'r **Ddeddf** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor greu cofrestr o asedau a chofnodi'r holl strwythurau neu nodweddion sydd ym marn y Cyngor yn debygol o fod ag effaith sylweddol ar berygl llifogydd.

Mae **Atodlen 1** o'r **Ddeddf** yn rhoi pwerau caniataol i'r Cyngor i ddynodi strwythur neu nodwedd (yn cynnwys asedau trydydd parti) sy'n effeithio ar berygl llifogydd, sy'n golygu na ellir ei newid na'i symud heb ganiatâd.

Mae **Atodlen 2** o'r **Ddeddf** yn delio gyda rôl y Cyngor mewn perthynas â chaniatáu gwaith mewn cyrsiau dŵr cyffredin.

Caiff Adrannau ac Atodlenni pellach o'r **Ddeddf** eu deddfu yn y dyfodol ac o ganlyniad i hynny bydd gan Cyngor Sir Ceredigion yn y pen draw:

- dyletswydd i weinyddu system o gymeradwyo a mabwysiadu systemau draenio cynaliadwy newydd a fydd yn angenrheidiol i bob datblygiad newydd ac i gynnal systemau o'r fath ar ôl eu mabwysiadu

O dan **Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009**, mae Cyngor Sir Ceredigion hefyd wedi cwblhau **Asesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol**, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2011 yn unol â gofynion y **Rheoliadau** hynny.

Gan na chafodd unrhyw *'ardaloedd perygl llifogydd dangosol'* fel y'u diffinnir gan Lywodraeth Cymru eu nodi yn ystod y broses honno, nid oes angen i'r Cyngor wneud unrhyw waith pellach ar hyn o bryd.

Ond, mae Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn cynhyrchu mapiau perygl llifogydd a risg llifogydd i'w cyhoeddi ym mis Mehefin 2013 a fydd yn gymorth i unrhyw adolygiad o'r **Asesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol**, a hefyd yn cynyddu ein dealltwriaeth o berygl llifogydd lleol yn y Sir.

Mae'r **Asesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol** i'w adolygu yn 2017 yn unol â'r **Rheoliadau**.

| **Mesur i gyflawni'r Amcan** |
| --- |
| Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn gweithredu holl ddarpariaethau Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr fel maent yn dod i rym |

**AMCAN1**
**LLEIHAU EFFEITHIAU LLIFOGYDD AC ERYDU ARFORDIROL AR UNIGOLION, CYMUNEDAU, BUSNESAU A'R AMGYLCHEDD**

IS-AMCAN
DATBLYGU POLISÏAU AR GYFER RHEOLI DEFNYDD TIR YN EFFEITHIOL A GWELL GWEITHDREFNAU RHEOLI DATBLYGU LLE MAE'N BRIODOL

Mesurau ar gyfer Cyflenwi'r Is-amcan:

**DATBLYGU CYNLLUNIAU DATBLYGU LLEOL SY'N CYNNWYS DARPARIAETHAU DIGONOL MEWN PERTHYNAS Â PHERYGL LLIFOGYDD AC ERYDU ARFORDIROL**

Ar 25 Ebrill 2013 mabwysiadodd Cyngor Sir Ceredigion **Gynllun Datblygu Lleol** (CDLl) i Sir Ceredigion. Fe fydd y **Gynllun Datblygu Lleol** yn gynllun datblygu i Sir Ceredigion ac fe fydd yn sail i benderfyniadau ar ddefnydd tir yn y Sir.

Mae'n nodi polisïau a gweithdrefnau ar gyfer datblygu yn y dyfodol a'r defnydd o dir yn y Sir hyd at 2022 ac mae'n disodli'r cynlluniau yr oedd y Cyngor yn eu defnyddio'n flaenorol, gan helpu i benderfynu a fydd ceisiadau cynllunio yn cael eu caniatáu neu beidio yn y dyfodol.

Mae'r **Cynllun Datblygu Lleol** yn nodi amrediad o faterion sy'n effeithio ar y Sir y bydd angen eu hystyried wrth benderfynu ar gynigion datblygu, ac fe'u paratowyd mewn ymgynghoriad llawn gyda swyddogion draenio arfordirol a thir y Cyngor sydd wedi bod yn darparu cyngor priodol mewn perthynas â pherygl llifogydd ac erydu arfordirol, ac yn cynorthwyo gyda nodi ardaloedd datblygu addas.

**Mesur i gyflawni'r Amcan**
Bydd Cyngor Sir Ceredigion wedi datblygu Cynllun Datblygu Lleol sydd yn edrych i leihau'r risg o lifogydd ac erydiad arfordirol

**CYDYMFFURFIAETH GYDA GOFYNION POLISI CYNLLUNIO CYMRU A NODIADAU CYNGOR TECHNEGOL PERTHNASOL**

Mae gofynion **Polisi Cynllunio Cymru** a **TAN 14 & 15** wedi'u hystyried yn ystod llunio'r **Cynllun Datblygu Lleol** ac wedi eu hymgorffori ynddo.

O ganlyniad i hynny mae tybiaeth gyffredinol yn erbyn adeiladu mewn ardaloedd lle mae perygl o lifogydd oni bai bod mesurau lliniaru digonol yn bodoli.

**Mesur i gyflawni'r Amcan**
Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i gymhwyso gofynnion TAN14 a TAN15 pan yn ystyried datblygiadau newydd

## DARPARU CYNGOR PRIODOL AR LIFOGYDD AC ERYDU ARFORDIROL

Ymgynghorir ag Adran Arfordir ac Afonydd Cyngor Sir Ceredigion ar bob cais cynllunio perthnasol ac mae'n darparu cyngor ar beryglon draenio, llifogydd ac erydu arfordirol mewn perthynas â cheisiadau cynllunio.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn ymgynghorai statudol ar bob cais cynllunio perthnasol a bydd yn cynnig cyngor ar ganllawiau mewn perthynas â materion draenio, yn enwedig lle mae datblygu wedi'i gynnig mewn ardaloedd sy'n wybyddus o fod mewn perygl o ddioddef llifogydd.

Lle caiff datblygu ei gynnig mewn ardaloedd sy'n wybyddus o fod mewn perygl o ddioddef llifogydd ac erydu arfordirol, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd ddarparu Asesiad Canlyniad Llifogydd priodol a gaiff ei asesu fel rhan o'r broses cymeradwyo cynllunio.

**Mesur i gyflawni'r Amcan**
Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i gynghori am effaith tebygol datblygiadau newydd ar beryg llifogydd ac erydiad arfordirol

## CYNNAL ASESIADAU CANLYNIAD LLIFOGYDD STRATEGOL PRIODOL A'U DEFNYDD WRTH LYWIO CYNLLUNIAU DATBLYGU LLEOL

Mae'r Cyngor wedi paratoi Asesiadau Canlyniadau Llifogydd Strategol (SFCA) ar gyfer ardaloedd Aberystwyth ac Aberteifi.

Mae'r Asesiadau Canlyniadau Llifogydd Strategol yn asesu'r perygl llifogydd ar safleoedd ymgeisydd sy'n cael eu hystyried ar gyfer datblygu o fewn y **Cynllun Datblygu Lleol** a darparu cyngor o ran rheoli perygl er mwyn diwallu'r gofynion a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig y rhai yn **Nodyn Cyngor Technegol 15** (TAN15).

**Mesur i gyflawni'r Amcan**
Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi paratoi SFCA ar gyfer Aberystwyth ac Aberteifi yn ystod datblygiad y CDLl

## CYMERADWYO A MABWYSIADU SYSTEMAU DRAENIO SDC GAN Y CORFF CYMERADWYO A MABWYSIADU SDC

Fel y cyfeiriwyd ato uchod, fe fydd Cyngor Sir Ceredigion yn dod yn Gorff Cymeradwyo SDC (CCS) pan gaiff Atodlen 3 o'r **Ddeddf** ei gweithredu a disgwylir i hynny ddigwydd yn 2014.

Gan weithio yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru (yr ymgynghorir arnynt ac a gyhoeddir cyn hir) bydd y Cyngor yn gweithio ar y cyd gydag Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd eraill i ddatblygu a chynhyrchu canllaw manwl i gynllunwyr, adeiladwyr a datblygwyr.

Bydd nifer o nodweddion SDC gwahanol ar gael yn addas i amrywiol safleoedd. Gall nodweddion gynnwys nodweddion naturiol fel pyllau, gwlybtiroedd, ffosydd a phantiau, a nodweddion caletach fel palmentydd athraidd, storfeydd gwanháu a ffosydd cerrig.

Bydd dyluniad SDC yn ceisio dynwared draeniad naturiol y safle cyn datblygu lle bynnag mae hynny'n bosibl, ac fel rheol bydd yn disodli systemau pibelli traddodiadol.

**Mesur i gyflawni'r Amcan**
Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn ymgymryd â'r rôl fel Corff Cymeradwyo SDC pan fo darparieathau perthnasol y Ddeddf wedi eu cychwyn gan Llywodraeth Cymru

**AMCAN 1**
**LLEIHAU EFFEITHIAU LLIFOGYDD AC ERYDU ARFORDIOL AR UNIGOLION, CYMUNEDAU, BUSNESAU A'R AMGYLCHEDD**

IS-AMCAN
CREU AMSERLENNI CYNNAL A CHADW RHEOLAIDD AR GYFER ASEDAU RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD AC ERYDU ARFORDIROL

Mesurau i Gyflenwi'r Is-Amcan:

## DATBLYGU COFRESTR O STRWYTHURAU NEU NODWEDDION NATURIOL NEU ARTIFFISIAL SY'N DEBYGOL O GAEL EFFAITH AR BERYGL LLIFOGYDD

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cynhyrchu cofrestr o'r holl asedau rheoli perygl llifogydd a draenio gwybyddus ac fe fydd yn parhau i'w ddiweddaru.

Bydd y gofrestr hon yn cynnwys manylion am strwythurau a gynhelir yn gyhoeddus a'r rhai sy'n eiddo preifat ac fe gaiff ei diweddaru yn rheolaidd wrth i ragor o wybodaeth ddod ar gael yng ngoleuni llifogydd a gofnodir. Dyhead y Cyngor yw cadw pob cofnod o'r holl asedau draenio (a gynhelir yn gyhoeddus a phreifat) ar y gofrest hon, ond mae'n derbyn mai dyhead tymor hirach fydd hyn ac fe fydd yn dibynnu ar y cyllid a'r adnoddau sydd ar gael.

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion gofrestr hefyd o asedau Amddiffyn Arfordirol hefyd a gynhelir gan y Cyngor a chaiff ei ddiweddaru wrth i asedau newydd gael eu hadeiladu neu pan gaiff rhai sydd eisoes yn bodoli eu hadnewyddu.

**Mesur i gyflawni'r Amcan**
Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi datblygu, ac fydd yn diweddaru cofrestr o strwythyrau ag asedau sy'n debygol o gael effaith ar berygl llifogydd

## SEFYDLU RHAGLEN O WAITH CYNNAL RHEOLAIDD A PHRIODOL AR GYFER ASEDAU RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD AC ERYDU ARFORDIROL

Mae gan y Cyngor drefn arolygu ar gyfer holl asedau'r Cyngor ac fe'u cynhelir mewn perthynas â gofynion amrywiol flaenoriaethu a gwaith cynnal a chadw. Fel rheol ni chaiff asedau preifat eu harolygu ond pan gaiff problemau eu hamlygu mae gan y Cyngor bwerau o dan y **Ddeddf Draenio Tir 1991** y gall eu defnyddio os ystyrir ei bod yn angenrheidiol i'r perchennog gynnal a chadw eu strwythurau a'u cyrsiau dŵr.

**Mesur i gyflawni'r Amcan**
Mi fydd Cyngor Sir Ceredigion yn parhau ei raglen archwilio ar sail risg parthed holl asedau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol

## DYNODI STRWYTHURAU NEU NODWEDDION NATURIOL AC ARTIFFISIAL SY'N DEBYGOL O GAEL EFFAITH AR BERYGL LLIFOGYDD AC ERDYU ARFORDIROL YN YSTOD OES Y STRATEGAETH

Mae'r **Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr** wedi rhoi pwerau caniataol i Gyngor Sir Ceredigion a Chyfoeth Naturiol Cymru i ddynodi strwythurau naturiol ac artiffisial allai yn eu barn nhw gael effaith ar berygl llifogydd.

Rhagwelir mai dim ond pan fo ymchwiliad llifogydd yn amlygu bod gan strwythur preifat effaith sylweddol ar liniaru perygl llifogydd y caiff y pwerau caniataol eu defnyddio.

Ond, nid oes unrhyw ofyniad ar berchennog unrhyw strwythur/nodwedd dynodedig i'w gynnal gan mai dim ond i wahardd ei symud ac/neu ei newid y mae'r dynodiad yn berthynol.

**Mesur i gyflawni'r Amcan**
Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn defnyddio'r pwerau caniataol i ddynodi strwythyrau neu nodweddion sy'n debygol o gael effaith ar berygl llifogydd pan yn briodol

**AMCAN 2**
**CODI YMWYBYDDIAETH POBL O BERYGL LLIFOGYDD AC ERYDU ARFORDIROL, A'U CYNNWYS YN YR YMATEB I'R PERYGL HWNNW**

IS-AMCAN
ERBYN 2026 SICRHAU BOD PAWB SY'N BYW MEWN ARDAL LLE MAE PERYGL LLIFOGYDD YN YMWYBODOL O'R PERYGL A WYNEBIR, CANLYNIADAU'R PERYGL HWN A SUT I FYW GYDA'R PERYGL HWNNW

Mesurau i Gyflenwi'r Is-Amcan:

**RHAGLEN YMWYBYDDIAETH GYMUNEDOL A GWEITHGARDDAU CYNNWYS Y GYMUNED GAN DDEFNYDDIO'R PECYN CYMORTH CYNNWYS Y GYMUNED RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD**

Wrth i gymunedau ac eiddo mewn perygl o lifogydd ac erydu arfordirol gael eu nodi, mae Cyngor Sir Ceredigion, yn gweithio ochr yn ochr â Chyfoeth Naturiol Cymru, wedi ymrwymo i ymgysylltu gyda'r cymunedau a'r perchnogion eiddo hynny, a gweithio gyda nhw i ddatblygu Cynlluniau Llifogydd Cymunedol, a nodi a mabwysiadu mesurau gwrthsefyll a chryfhau priodol.

Mae modd datblygu **Cynlluniau Llifogydd Cymunedol** gyda chymorth gan Gyngor Sir Ceredigion a Chyfoeth Naturiol Cymru a bydd yn helpu aelodau a grwpiau cymunedol i gynllunio sut y gallant weithio gyda'i gilydd i ymateb yn gyflym pan fo llifogydd yn digwydd.

Mae **mesurau gwrthsefyll**, neu Diogelu Eiddo Unigol (IPP) yn fesurau sydd yn atal dŵr rhag dod i mewn i eiddo. Gallai'r rhain fod yn osodiadau fel clwydi/byrddau llifogydd i amddiffyn drysau, gorchuddion ar friciau aer.

Mae **mesurau cryfhau** yn fesurau sydd yn ei gwneud yn haws ac yn gyflymach i lanhau ar ôl llifogydd, er enghraifft codi socedi trydan 1.5m uwchben lefel y llawr a defnyddio sment sy'n gwrthsefyll dŵr yn hytrach na phlastr ar y waliau.

**Mesur i gyflawni'r Amcan**
Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn datblygu rhaglen o ymwybyddiaeth a gweithgareddau cymunedol er mwyn sicrhau fod pob cymuned wedi eu hysbysu o'r risg a'r effaith o lifogydd erbyn 2026

**NODI GRWPIAU MEWN CYMUNEDAU SYDD MEWN PERYGL, YN CYNNWYS UNIGOLION SY'N AGORED I NIWED**

Mae Swyddfa'r Cabinet wedi cynhyrchu canllaw i gynllunwyr ac ymatebwyr i argyfyngau o dan y teitl **Identifying People Who Are Vulnerable in a Crisis (Chwefror 2008),** ac mae gan Gyngor Sir Ceredigion gofnodion am amrywiol grwpiau sy'n agored i niwed yng nghymunedau'r Sir, ac o dan **Cynllun Argyfwng Ymateb i Lifogydd** fe fyddai'n cynnig cymorth i'r grwpiau hynny, yn ogystal ag i unigolion sy'n agored i niwed yn y cymunedau hynny.

Mae'r Cyngor hefyd yn rheoli rhai cartrefi gofal preswyl a chanolfannau dydd.

| **Mesur i gyflawni'r Amcan** |
| --- |
| Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i adolygu a diweddaru'r gwybodaeth ynghylch grwpau ac unigolion sy'n agored i niwed yn ein cymunedau |

| <u>**AMCAN 3**</u> |
| --- |

**DARPARU YMATEB EFFEITHIOL I LIFOGYDD AC ERYDU ARFORDIROL**

IS-AMCAN
SICRHAU BOD CYNLLUNIAU ARGYFWNG YN CAEL EU PARATOI A'U PROFI

Mesurau i Gyflenwi'r Is-Amcan:

## CWBLHAU CYNLLUNIAU ARGYFWNG AR GYFER POB FFYNHONNELLO BERYGL LLIFOGYDD

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn ymatebwr Categori 1 o dan y **Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004**, yn ogystal â'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol.

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion **Gynllun Argyfwng Ymateb i Lifogydd** sy'n nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn a'r personau i gysylltu â nhw os oes llifogydd yn ardal Cyngor Sir Ceredigion. Mae ganddo hefyd **Gynllun Digwyddiad Mawr** a **Chynllun Parhad Busnes** i gyfeirio atyn nhw mewn digwyddiadau o'r fath.

Caiff y **Cynllun Argyfwng Ymateb i Lifogydd** ei adolygu wrth i ragor o wybodaeth gael ei chasglu a'i datblygu am ffynonellau llifogydd lleol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n ateb y gofyn.

Mae Fforwm Gydnerth Leol Dyfed Powys hefyd wedi datblygu'r dogfennau **Canllaw ar Adfer o Ddigwyddiad Mawr, Llawlyfr ar y Cyd ar Weithdrefnau Digwyddiadau Mawr** a **Chynllun Trefniadau Llifogydd** y cyfeirir atynt wrth ymateb i unrhyw ddigwyddiad mawr.

**Mesur i gyflawni'r Amcan**
Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn adolygu a diweddaru ei chynlluniau argyfwng os a pham yn briodol

## YMARFER ARGYFWNG LLEOL I BROFI TREFNIADAU YMATEB AC ADFER YN YSTOD OES Y STRATEGAETH

Cynhelir ymarferion cyfnodol eisoes ac fe'u hwylusir trwy gydweithrediad aml asiantaeth i brofi trefniadau ymateb ac adfer, a bydd y rhain yn parhau i gael eu gweithredu fel a phryd y mae'n briodol yn ystod oes y Strategaeth.

**Mesur i gyflawni'r Amcan**
Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn parahu i gynnal ymarferion argyfwng mewn cydweithrediad â'n parneriaid er mwyn galluogi adolygiad o'r cynlluniau argyfwng

**AMCAN 3**
**DARPARU YMATEB EFFEITHIOL A PHARHAUS I LIFOGYDD AC ERYDU ARFORDIROL**

IS-AMCAN
YMATEB YN FUAN AC YN BRIODOL I DDIGWYDDIADAU

Mesurau i Gyflenwi'r Is-Amcan:

**YMATEB YN FUAN AC YN BRIODOL I ARGYFYNGAU**

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion rifau ffôn yn ystod a thu allan i oriau swyddfa y gall y cyhoedd eu defnyddio pan fo llifogydd.

Yn ystod oriau swyddfa staff canolfan gyswllt hyfforddedig yr Awdurdod sy'n trafod y galwadau hyn tra bod y galwadau allan o oriau swyddfa yn cael eu trafod gan swyddogion hyfforddedig sy'n gallu cydgysylltu ymateb yr Awdurdod a galw ar adnoddau priodol fel y tybir sy'n angenrheidiol.

Mae'n ddyletswydd cyfreithiol ar y Cyngor i sicrhau bod y rhwydwaith ffyrdd yn parhau yn agored. Gellir darparu bagiau tywod mewn sefyllfa o argyfwng i gynorthwyo i amddiffyn eiddo rhag llifogydd, ond gwasanaeth gwirfoddol yw cyflenwi'r bagiau tywod ac mewn llifogydd mawr ni all Cyngor Sir Ceredigion warantu ei fod yn ateb pob cais am fagiau tywod i roi cymorth i bobl i amddiffyn eu heiddo.

Caiff pob cais a wneir i Gyngor Sir Ceredigion ei ystyried a'i flaenoriaethu mewn perthynas â'r amgylchiadau ar y pryd, waeth beth fo ffynhonnell y llifogydd.

Mae copi o Bolisi Bagiau Tywod y Cyngor ar gael yn Atodiad B

Mae Fforwm Gydnerth Leol Dyfed Powys hefyd wedi datblygu dogfen o'r enw **Canllaw ar Adfer o Ddigwyddiadau Mawr** y cyfeirir ati wrth ymateb i lifogydd.

Mae adran Cynllunio Argyfyngau Cyngor Sir Ceredigion hefyd yn cymryd rhan mewn rota ar ddyletswydd allan o oriau swyddfa gan wasanaethu Sir Benfro, Powys a Cheredigion.

**Mesur i gyflawni'r Amcan**
Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i ddarparu cymorth i'r cyhoedd pan yn bosib yn ystod argyfwng

**DATBLYGU PROTOCOLAU GWACÁU EFFEITHIOL AR GYFER**

## ARGYFYNGAU

Mae **Cynllun Argyfwng Ymateb i Lifogydd** Ceredigion yn amlinellu'r cyrff sy'n rhan o'r broses wacáu, ac mae'n amlinellu'r gweithdrefnau i'w dilyn mewn argyfyngau o'r fath yn ogystal â manylion am y prif lwybrau gwacáu.

| **Mesur i gyflawni'r Amcan** |
| --- |
| Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn adolygu a diweddaru ei gynlluniau gwacau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas |

## DATBLYGU PROTOCOLAU CYMORTH AR Y CYD AR GYFER ADNODDAU, CYFARPAR A SEIBIANT AR GYFER ARGYFYNGAU

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn Ymatebwr Categori 1 ac mae ganddo drefniadau i ddarparu cymorth ac i dderbyn cymorth fel bo angen ac yn ôl y gofyn mewn unrhyw argyfwng difrifol ac fe fydd yn sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu diweddaru'n rheolaidd, yn ateb y galw ac yn barod i'w gweithredu.

| **Mesur i gyflawni'r Amcan** |
| --- |
| Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn parhau I weithio gyda'r holl gyrff perthnasol i sicrhau fod cymorth yn cael ei ddarparu yn ôl y gofyn |

## NODI A DARPARU LLETY SEIBIANT ADDAS FEL Y BO'N BRIODOL YN YSTOD OES Y STRATEGAETH

Mae **Cynllun Ymateb i Argyfwng Llifogydd** Ceredigion yn sicrhau darpariaeth llety seibiant addas mewn argyfwng ac amrediad eang o staff arbenigol sy'n brofiadol gyda phob agwedd o les cymdeithasol sy'n gallu darparu cymorth i'r rhai sydd wedi gorfod gadael eu heiddo.

| **Mesur i gyflawni'r Amcan** |
| --- |
| Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i adolygu a diweddaru ei cynlluniau llety seibiant pan fo gwybodaeth newydd ynghylch peryglon llifogydd ar gael |

**AMCAN 3**
**DARPARU YMATEB EFFEITHIOL A PHARHAUS I LIFOGYDD AC ERYDU ARFORDIROL**

IS-AMCAN
HWYLUSO'R BROSES ADFER YN SGIL LLIFOGYDD O FEWN YR AMSERLENNI BYRRAF POSIBL

Mesurau i Gyflenwi'r Is-Amcan:

**DATBLYGU GWEITHDREFNAU AR GYFER CLIRIO MALURION YN EFFEITHIOL**

Mae Fforwm Gydnerth Lleol Dyfed Powys wedi datblygu dogfen o'r enw **Canllaw ar Adfer o Ddigwyddiadau Mawr**.

Mae **Cynllun Argyfwng Ymateb i Lifogydd** Ceredigion hefyd yn cyfeirio at rolau penodol ar gyfer rhoi cymorth yn y gwaith o glirio.

Yn dilyn llifogydd bydd Cyngor Sir Ceredigion fel yr Awdurdod Priffyrdd yn gweithredu rhaglen waith wedi'i blaenoriaethu i glirio ffyrdd o falurion a sicrhau bod cwlfertau a systemau draenio priffyrdd yn glir ac yn gweithio'n iawn.

**Mesur i gyflawni'r Amcan**
Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i sicrhau fod systemau mewn lle ar gyfer clirio malurion cyn gynted a phosib wedi digwyddiadau argyfwng llifogydd

**DATBLYGU AMSERLENNI TRWSIO YN CYNNWYS DARPARIAETH AR GYFER GOSOD MESURAU GWRTHSEFYLL LLIFOGYDD ERBYN 2015**

Mae Adran 40 o'r **Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr** yn galluogi Llywodraeth Cymru i wneud newidiadau i Reoliadau Adeiladu i sicrhau bod unrhyw waith adeiladu yn cynnwys mesurau atal a gwrthsefyll llifogydd.

Cyngor Sir Ceredigion fydd yn gyfrifol am eu gweithredu a'u gorfodi unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r newidiadau.

**Mesur i gyflawni'r Amcan**
Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn gweithredu unrhyw newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu pan fyddant yn dod i rym

**YMCHWILIO I ACHOSION O LIFOGYDD LLE BO ANGEN O**

## FEWN UN MIS

Roedd y **Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr** yn gosod dyletswydd newydd ar Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol i ymchwilio i lifogydd i'r graddau y mae'n ystyried sy'n angenrheidiol neu yn briodol a phenderfynu pa awdurdodau rheoli risg sydd â swyddogaethau rheoli perygl llifogydd perthnasol ac a ydynt yn cyflawni neu yn bwriadu cyflawni'r swyddogaethau hynny.

Mae'r **Adroddiad Ymchwilio i Lifogydd** yn darparu crynodeb o'r camau y mae pob un o'r awdurdodau rheoli risg yn eu cymryd wrth ymateb i lifogydd, ynghyd ag arwydd o'r camau y maent yn eu hawgrymu i'r dyfodol.

Mae'n amlwg y bydd angen i'r holl awdurdodau rheoli risg perthnasol gynnal ymchwiliadau manylach i benderfynu ar union natur y llifogydd ym mhob lleoliad, a bydd hynny'n cynnwys archwilio'r mesurau atal a lliniaru llifogydd, ond diben yr Adroddiad Ymchwilio i Lifogydd yw casglu'r holl wybodaeth ddefnyddiol mewn un lle.

Fe fydd yr **Adroddiadau Ymchwilio i Lifogydd**, ynghyd â Mapiau Perygl a Mapiau Risg Llifogydd y mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn eu paratoi ar ran Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth werthfawr i Gyngor Sir Ceredigion wrth iddo adolygu'r **Adroddiad Asesu Risg Rhagarweiniol** sydd i'w gyhoeddi yn 2017.

| **Mesur i gyflawni'r Amcan**<br>Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn parhau i baratoi adroddiadau ar unrhyw ymchwiliad i lifogydd sylweddol o fewn amserlen priodol |
|---|

## MESURAU PELLACH AR GYFER RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD LLEOL

Yn ogystal â'r amcanion a'r is-amcanion manwl a amlinellwyd uchod, mae'r canllaw Strategaeth Leol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn datgan y dylid ystyried amrediad eang o fesurau i wella cyflenwad rheoli perygl llifogydd lleol ymhellach, a dylai'r rhain gynnwys mesurau strwythurol ac anstrwythurol fel:

### MESURAU STRWYTHUROL

**Waliau Llifogydd**



**Cloddiau Llifogydd**



**Sgriniau Sbwriel**



**Atalfeydd Llifogydd Dros Dro**



### MESURAU ANSTRWYTHUROL

- Systemau Rhybuddion Llifogydd
- Gweithdai Ymwybyddiaeth Cyhoeddus
- Ymgysylltu â Chymunedau
- Cynlluniau Rheoli Dŵr Wyneb

Caiff mesurau sydd yn cyflawni nifer o fanteision, fel ansawdd dŵr, bioamrywiaeth a manteision amwynderau eu hannog a'u hyrwyddo lle bynnag mae hynny'n bosibl.

Isod ceir mesurau ychwanegol, ynghyd â rhai gweithgareddau a ragwelir ar gyfer eu cyflenwi, y bydd y Cyngor yn ceisio eu cyflenwi ar y cyd gydag Awdurdodau Rheoli Risg eraill, gan ei fod yn credu y byddant yn gwella cyflenwad rheoli risg llifogydd lleol (fe fydd cyflenwi rhai o'r gweithgareddau hyn yn dibynnu ar gyllid gan Lywodraeth Cymru).

1. **Gwella dealltwriaeth am berygl llifogydd ac erydu arfordirol lleol a sicrhau bod pawb wedi'u hysbysu o'u rolau a'u cyfrifoldebau i leihau'r peryglon hynny**

   - Cofnodi pob achos o lifogydd yr adroddwyd amdanynt a chynnal ymchwiliadau llifogydd lle mae'n briodol (cyfredol)
   - Defnyddio mapiau perygl a risg llifogydd i ardaloedd y mae'n wybyddus eu bod mewn perygl o lifogydd sylweddol (erbyn 2015)
   - Datblygu cofnod ar ffurf map o asedau perygl llifogydd, llifogydd hanesyddol ac ardaloedd mewn perygl o lifogydd(erbyn 2015)

2. **Lleihau effaith llifogydd ac erydu arfordirol ar unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd**

   - Nodi grwpiau sy'n agored i niwed yn y gymuned a pharatoi cynlluniau gweithredu pan fo llifogydd (cyfredol)
   - Addysgu'r cyhoedd am y dewisiadau i amddiffyn eu heiddo trwy fesurau atal a gwrthsefyll llifogydd (cyfredol)
   - Cynorthwyo a darparu cymorth yn dilyn llifogydd (cyfredol)

3. **Gweithio mewn partneriaeth gyda'r holl gyrff i leihau perygl llifogydd lleol**

   - Nodi cyfrifoldebau perchnogion glannau'r afon i reoli eu hasedau trwy ymgysylltiad cyhoeddus ac i'w haddysgu ynghylch gwaith i leihau y risg o lifogydd (cyfredol)
   - Datblygu systemau cyfathrebu effeithiol i sicrhau cydweithredu a rhannu data (cyfredol)
   - Parhau i gyfarfod gydag Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol De Orllewin Cymru i rannu gwybodaeth, data a gwersi a ddysgwyd (cyfredol)

4. **Sicrhau bod penderfyniadau cynllunio yn parhau i fod wedi'u llywio'n gywir gan broblemau llifogydd a'r effaith y gall datblygu yn y dyfodol ei gael ar reoli perygl llifogydd a datblygiadau hir dymor**

   - Parhau i ddarparu canllawiau clir i'r Adran Gynllunio wrth asesu ceisiadau cynllunio (cyfredol)
   - Sefydlu Corff Cymeradwyo SuDS (CCS) (disgwyl canllawiau LlC)
   - Datblygu polisïau ar gyfer rheoli defnydd tir yn effeithiol a gwella gweithdrefnau rheoli datblygu lle mae'n briodol (cyfredol)

5. **Mabwysiadu dull cynaliadwy a holistaidd o weithredu tuag at reoli llifogydd ac erydu arfordirol, cyflenwi manteision amgylcheddol a chymdeithasol ehangach, lliniaru newid hinsawdd a gwelliannau o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr**

    - Sicrhau bod effeithiau amgylcheddol gweithredu'r **Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol** yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r manteision technegol, economaidd a chymdeithasol (cyfredol)
    - Ystyried y defnydd o wanhau trwy wlybtiroedd i gynyddu pellter hyd llif, storio dŵr a darparu manteision amwynder ac ecolegol (cyfredol)
    - Ystyried y defnydd o ardaloedd bio-gadw i gael gwared ar waddodion a llygryddion (cyfredol)

6. **Gweithio'n gydymdeimladol gyda phrosesau naturiol lle'n addas**

    - Mabwysiadu technegau rheoli perygl llifogydd naturiol, gan gynnwys SDC lle mae'n bosibl (cyfredol)
    - Archwilio technegau newydd ac arloesol ar gyfer amddiffyn rhag llifogydd, rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol (cyfredol)
    - Datblygu a gweithredu polisi dim sianelu (cyfredol)

7. **Annog cynnal a chadw amddiffynfeydd a chyrsiau dŵr cyffredin preifat a lleihau cyfyngiadau diangen mewn cyrsiau dŵr**

    - Sicrhau bod perchnogion glannau'r afon yn ymwybodol o'u dyletswyddau i sicrhau bod cyrsiau dŵr yn llifo'n rhydd (cyfredol – disgwyl canllawiau LlC)
    - Gweinyddu proses i ganiatáu strwythurau newydd a chynnal; a chadw strwythurau sydd eisoes yn bodoli ar gyrsiau dŵr (cyfredol)
    - Darparu arweiniad i bobl sy'n dymuno cynnal neu wella cwrs dŵr ac/neu amddiffynfeydd llifogydd ar dir preifat (cyfredol)

8. **Sicrhau bod gan swyddogion y sgiliau priodol a'r hyfforddiant parhaus i reoli perygl llifogydd yn effeithiol**

    - Darparu lefelau staffio priodol a datblygu arbenigedd staff i gyflenwi gofynion y **Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr** (erbyn 2014)
    - Buddsoddi mewn meddalwedd a chaledwedd priodol (cyfredol)
    - Cydweithredu a darparu cymorth, hyfforddiant a rhwydwaith o staff ar draws y rhanbarth (cyfredol)

## AMCANION AMGYLCHEDDOL

Prif ddiben yr adroddiad hwn yw nodi'r strategaeth ar gyfer gweithredu mesurau rheoli perygl llifogydd ar draws Ceredigion.

Ond mae yma gyfle i gael cryn fantais mewn perthynas â dyheadau gwlad a sir gyfan yng nghyd-destun gwelliant cynaliadwy, amgylcheddol a chymdeithasol. Y nod yw darparu gwell amgylcheddau i breswylwyr a busnesau yn ogystal â gwella bioamrywiaeth a chynefinoedd lleol i fywyd gwyllt.

Bydd cyflenwi'r manteision lluosog yn golygu gweithio gyda phartneriaid i nodi blaenoriaethau a chyfleoedd lleol. Lle mae'n briodol ac yn unol ag egwyddorion y **Strategaeth Genedlaethol** gellid gofyn am gyfraniadau sydd yn helpu i gyflenwi'r gwelliannau ychwanegol gan y partneriaid hynny fydd yn elwa .

**Asesiadau Amgylcheddol Strategol**

Mae'n ofyniad cyfreithiol yn y DU i rai cynlluniau a rhaglenni a bennir gan y **Gyfarwyddeb SEA (2001/42/EC)**, gael Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA). Gweithredir y Gyfarwyddeb SEA yng Nghymru gan **Reoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.**

Gan fod y **Strategaeth Leol** yn 'gynllun statudol', mae angen Asesiad Amgylcheddol Strategol a fydd yn gwerthuso effeithiau amgylcheddol potensial y **Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol** a'i amcanion cyn ei chymeradwyo a'i mabwysiadu'n ffurfiol.

Diben yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yw darparu lefel uwch o ddiogelu'r amgylchedd trwy sicrhau bod ystyriaethau amgylcheddol yn cael eu hintegreiddio i'r.**Strategaeth Leol** ac yn cyfrannu at hyrwyddo datblygu cynaliadwy a diogelu'r amgylchedd.

Fe fydd yr adroddiad amgylcheddol a gynhyrchir felly yn:

- rhoi manylion am ganfyddiadau SEA
- darparu disgrifiad o'r broses SEA a ddilynwyd
- darparu disgrifiad o'r penderfyniadau a wnaethpwyd
- manylu'r ystyriaeth a roddwyd i bolisïau a deddfwriaeth eraill
- nodi materion a thueddiadau amgylcheddol allweddol

Dylai nodi'n glir yr asesiad o effeithiau'r **Strategaeth Leol** ynghyd â mesurau lliniaru a gwella perthnasol a dylai ddarparu cynigion i fonitro a defnyddio'r wybodaeth a gafwyd i ddatblygu strategaethau lleol a dylanwadu ar adolygiadau yn y dyfodol.

**Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)**

Oherwydd potensial y strategaeth hon i effeithio'n sylweddol ar safleoedd o gadwraeth natur rhyngwladol, sef Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC), Ardaloedd Amddiffyn Arbennig (SPA) a safleoedd Ramsar, mae angen cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Strategol (HRA) yn gyfochrog gyda'r Asesiad Amgylcheddol Strategol. Caiff yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ei integreiddio yn y broses Asesiad Amgylcheddol Strategol a darperir casgliadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd fel crynodeb i'r Adroddiad Amgylcheddol Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Yng Nghymru mae **Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (OS 490, 2010)**, a elwir yn aml yn Rheoliadau Cynefinoedd, yn gweithredu **Cyfarwyddeb Cynefinoedd** yr UE **(Cyfarwyddeb (92/43/EEC)** ar Gadwraeth cynefinoedd naturiol a phlanhigion ac anifeiliaid gwyllt) a rhai elfennau o'r **Gyfarwyddeb Adar (2009/147/EC).**

Mae'r ddeddfwriaeth hon yn darparu'r fframwaith gyfreithiol i ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau o bwysigrwydd Ewropeaidd yng Nghymru a Lloegr.

Yn ôl Rheoliad 9(5) o'r **Rheoliadau Cynefinoedd** mae'n ofynnol i awdurdod cymwys ystyried gofynion y **Gyfarwyddeb Cynefinoedd** wrth ymarfer unrhyw un o'i swyddogaethau.

Mae Erthygl 6(3) o'r **Gyfarwyddeb Cynefinoedd** yn diffinio'r gofynion ar gyfer asesu cynlluniau a phrosiectau sydd â'r potensial o effeithio ar safleoedd Ewropeaidd.

Efallai y bydd mesurau i ddelio gyda pherygl llifogydd penodol a nodwyd wrth weithredu'r **Strategaeth** hon yn galw am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar wahân, yn dibynnu ar y mesur a gynnigir. Os oes angen asesiad ar wahân, fe fydd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dilyn y camau canlynol:-

- **Cam 1 – Sgrinio**
  I asesu effeithiau tebygol y mesur a gynigir
- **Cam 2 – Asesiad Priodol**
  I ystyried effaith y mesur ar unrhyw safleoedd gwarchodedig, ac os nodir effeithiau niweidiol, unrhyw fesurau lliniaru a ystyrir
- **Cam 3 – Asesu Atebion Amgen**
  Penderfynu a fyddai mesurau amgen yn bosibl, a fyddai'n cael llai o effaith ar y safleoedd gwarchodedig
- **Cam 4 – Rhesymau hanfodol o fudd cyhoeddus tra phwysig (IROPI)**
  Ystyried a ddylai'r prosiect arfaethedig barhau ac a fydd angen gwneud gwaith cydbwyso.

**Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr**

Y **Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr** (WFD) yw'r darn mwyaf sylweddol o ddeddfwriaeth dŵr Ewropeaidd sydd wedi'i chynhyrchu. Mae'n ofynnol bod holl ddyfroedd mewndirol ac arfordirol yn cyrraedd statws ecolegol 'da' erbyn 2015 a bydd yn cyflawni hyn trwy sefydlu strwythur basn afon lle y nodir amcanion amgylcheddol heriol ynddo, yn cynnwys targedau ecolegol ar gyfer dŵr wyneb.

Mae'r **Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr** wedi'i dylunio i wella ac integreiddio'r modd y mae cyrff dŵr yn cael eu rheoli ar draws Ewrop. Daeth i rym ar 22 Rhagfyr 2000 ac fe'i trosglwyddwyd i gyfraith y DU yn 2003. Rhaid i aelod wladwriaethau anelu at gyrraedd statws cemegol ac ecolegol da mewn dyfroedd mewndirol ac arfordirol erbyn 2015 yn amodol i rai eithriadau cyfyngedig. Mae wedi ei dylunio i:

- gwella statws ac atal dirywiad pellach yr ecosystemau dyfrol a gwlybtiroedd cysylltiedig sy'n dibynnu ar yr ecosystemau dyfrol
- hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy o ddŵr
- lleihau llygredd dŵr, yn enwedig gan sylweddau 'blaenoriaeth; a 'pheryglus â blaenoriaeth'
- sicrhau gostyngiad cynyddol mewn llygredd dŵr daear
- cadwraeth cynefinoedd a rhywogaethau sy'n dibynnu'n uniongyrchol ar ddŵr
- cyfrannu at liniaru effeithiau llifogydd a sychder

Gall mesurau rheoli perygl fod o fudd sylweddol i fioamrywiaeth wrth ddiogelu safleoedd dynodedig a chyfrannu at wella a chynnal y rhain mewn cyflwr ffafriol. Mae'r **Strategaeth Genedlaethol** yn annog darpariaeth gwelliannau bioamrywiaeth a lleihau unrhyw effeithiau niweidiol ac felly dylid eu hystyried hefyd mewn strategaethau lleol.

Mae'r **Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr** yn sefydlu fframwaith strategol i reoli'r amgylchedd dŵr. Mae angen datblygu cynllun rheoli ar gyfer pob basn afon bob chwe mlynedd. Mae'r cynlluniau yn seiliedig ar ddadansoddiad manwl o effeithiau gweithgaredd dynol ar yr amgylchedd dŵr ac ymgorffori rhaglen o fesurau i wella cyrff dŵr lle mae angen.

Y **Cynlluniau Rheoli Basn Afon** ar waith yng Ngheredigion yw:

- Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru
- Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren

Er nad yw'r mesurau yn y strategaeth ddrafft hon ar gyfer ystyriaeth yn safle-benodol, mae gan rai gweithgareddau rheoli perygl llifogydd y potensial i gynorthwyo i ddiwallu'r amcanion a restrir uchod, fel:

- **Atal llygredd** – gall y defnydd o SDC a rheoliad cyrsiau dŵr gynorthwyo i atal llygredd o ffynonellau diwydiannol/domestig
- **Lleihau gwaddod mewn cyrsiau dŵr** – cyflawnir trwy weithredu technegau rheoli tir/SDC lle mae pridd yn tueddu i erydu
- **Diogelu a gwella bywyd gwyllt** – gellir cynnwys mesurau i ddiogelu a gwella bywyd gwyllt a'u cynefinoedd mewn cynlluniau rheoli perygl llifogydd
- **Cadwraeth adnoddau dŵr** – trwy edrych ar y 'cylch dŵr cyflawn' fel elfen allweddol o werthusiad cynllun




**Datblygu Cynaliadwy**

Mae **Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010** yn cynnwys dyletswydd ar awdurdodau lleol, awdurdodau priffyrdd a byrddau draenio mewnol i gyfrannu tuag at ddatblygu cynaliadwy wrth gyflawni eu swyddogaethau **Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol**.

Nid yw'n pennu unrhyw un dull sengl o weithredu ond mae'n darparu nifer o awgrymiadau sydd yn cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy.

Mae hyn yn debyg i'r dyletswydd sydd eisoes gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r **Ddeddf** hefyd yn darparu pwerau amgylcheddol i weithfeydd sydd:

- ag effaith net manteisiol
- yn gyson â'r **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol**
- a ystyrir yn:
  - dymunol i'r amgylchedd naturiol
  - dymunol i'r amgylchedd hanesyddol
  - dymunol i'r tirwedd
  - manteision amwynder neu hamdden

Mae datblygu cynaliadwy oddi mewn i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn galw am ddull o werithredu sy'n cyflawni pedwar canlyniad:-

- Gwneud y mwyaf o les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hir dymor pobl a chymunedau yng Nghymru, tra'n byw oddi mewn i gyfyngiadau amgylcheddol
- Diogelu darpariaeth barhaus gwasanaethau ecosystem o'n hamgylchedd naturiol
- Osgoi rhoi cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol mewn perygl cynyddol
- Gwella cydnerth cymunedau, yr economi a'r amgylchedd naturiol, hanesyddol a chymdeithasol i berygl yn y presennol ac yn y dyfodol

Wrth ymarfer ei swyddogaeth rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol bydd Cyngor Sir Ceredigion yn ceisio gwneud cyfraniad tuag at gyflawni datblygu cynaliadwy.

**Cynlluniau Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd**

Mae **Cynllun Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd** (CFMP) yn gynllun strategol, lefel uchel sy'n darparu trosolwg o'r perygl llifogydd ar draws dalgylch afon neilltuol ac mae'n nodi'r polisïau i'w mabwysiadu i reoli perygl llifogydd nawr ac am y 50 i 100 mlynedd nesaf trwy nodi pwy sydd angen gwneud beth, ble a phryd.

Mae **Cynlluniau Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd** yn ystyried pob math o lifogydd, boed o afonydd, dŵr daear, dŵr wyneb neu garthffosydd ac maent yn seiliedig ar ddull safonol o weithredu i sicrhau eu bod yn darparu asesiad cyson o berygl llifogydd a dewisiadau polisi. Maent hefyd yn cynnwys llifogydd llanwol o afonydd ac aberoedd ond nid llifogydd yn uniongyrchol o'r môr, sy'n gynwysiedig yn y **Cynlluniau Rheoli Traethlin**.

Mae **Cynlluniau Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd** yn cymryd i ystyriaeth effeithiau tebygol newid hinsawdd, sut yr ydym yn defnyddio a rheoli'r tir, a pha ardaloedd y gellid eu datblygu i ddiwallu ein hanghenion cyfredol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

## CYLLIDO

Mae perygl a chanlyniadau llifogydd ac erydu arfordirol yn arwain at gost ariannol sylweddol i'r unigolion yr effeithir arnynt ac i economi Cymru yn gyffredinol.

Mae gweithrediad effeithiol y polisïau a nodir yn y **Strategaethau Cenedlaethol a Lleol** yn galw am adnoddau digonol ar gyfer gweithgareddau rheoli a phrosiectau cyfalaf.

Wrth i'r hinsawdd newid, mae disgwyl i lefel costau ac adnoddau angenrheidiol i gadw'i fyny gyda pheryglon a chanlyniadau llifogydd ac erydu arfordirol gynyddu.

Hyd yn oed pe bai'r Strategaeth hon yn cael ei datblygu ar adeg o adnoddau ariannol sylweddol ni fyddai'n bosibl dileu perygl llifogydd na datrys pryderon y cyhoedd.

Daw mwyafrif y cyllid ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru yn uniongyrchol oddi wrth Lywodraeth Cymru, naill ai trwy'r Grantiau Diogelu'r Arfordir neu trwy Grantiau Lliniaru Llifogydd.

Wrth i lefel a natur y perygl newid yn y dyfodol, bydd angen i Awdurdodau Risg Cymru ddarganfod ffynonellau ariannu eraill i sicrhau bod cymunedau ar draws Cymru yn derbyn y lefelau o gyllid sydd eu hangen arnynt i reoli'r peryglon y maent yn eu wynebu.

Mae angen i'r Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol darparu gwybodaeth ar gostau a fuddion unrhyw fesuaru bwriedig. Ar hyn o bryd mae'n annodd mesur y costau a'r buddion heb wybod yn union natur y gwaith, nap ha fesurau fydd yn gallu lleihau'r perygl llifogydd.

Mi fydd the costau a'r buddion felly yn cael eu asesu yn ystod datblygiad y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd fydd Cyngor Sir Ceredigion yn bwriadu eu gwblhau erbyn Rhagfyr 2015.

Mae Cyngor Sir Ceredigion eisoes yn darparu elfen o ariannu o'i Gyllidebau Refeniw a Chyfalaf i gyllido astudiaethau dichonolrwydd, adroddiadau gwerthuso prosiectau, dylunio amlinellol a dylunio manwl o gynlluniau lliniaru llifogydd ac erydu arfordirol, yn ogystal â chyfrannu tuag at gostau adeiladu cynlluniau o'r fath, a bydd yn parhau i geisio gwneud hynny yn y dyfodol.

Ond, bydd angen archwilio i ffynonellau ariannu posibl eraill a gallai'r rhain gynnwys:

- **Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**, sy'n galluogi Awdurdodau Lleol i lunio cytundeb gyda datblygwyr i ddelio gyda

materion angenrheidiol i wneud datblygiad yn dderbyniol a gallai hyn gynnwys gwaith rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

- Yr **'Ardoll Seilwaith Cymunedol'** sy'n galluogi Awdurdodau Lleol i godi cyllid o ddatblygiadau newydd, yn seiliedig ar y cysyniad bod gan pob datblygiad rhyw effaith ar seilwaith a gwasanaethau lleol. Gellid defnyddio'r mecanwaith hwn i godi arian ar gyfer gwaith rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

- **Gweithio mewn Partneriaeth** i ddarparu gwaith rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol a fyddai'n cynnwys Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd, y sector preifat a chymunedau lleol yn dod at ei gilydd i ddarparu'r cyllid angenrheidiol.

Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Ceredigion yn derbyn cyllid i ddibenion Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol mewn dau wahanol ffordd:

- Trwy'r Grant Cmorth Refeniw (RSG) sef y cyllid refeniw heb ei neilltuo a roddir i lywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru, wedi'i rannu rhwng awdurdodau ar sail fformiwla dosbarthu'n seiliedig ar boblogaeth. Caiff canran ohono ei ddyrannu wedyn gan Gyngor Sir Ceredigion ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol

- Trwy wneud cais am Grantiau Lliniaru Llifogydd yn benodol i gynlluniau

Yn ychwanegol at y ffynonellau ariannu a nodwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru hyd yn hyn wedi darparu £280,000 i bob Awdurdod Lleol, wedi'i rannu dros dair blynedd ariannol o 2011/12 i 2013/14, i gydnabod y dyletswyddau ychwanegol a roddwyd iddynt fel yr Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol o dan **Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009** a **Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010**.

Roedd y dyletswyddau ychwanegol hyn yn cynnwys:

- paratoi **Asesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol**
- sefydlu cofrestr o strwythurau
- ymchwilio i lifogydd ac achosion o lifogydd
- cynnal gwaith caniataol ar 'Gyrsiau Dŵr Cyffredin'
- paratoi ar gyfer ei rôl fel Corff Cymeradwyo SDC (CCS)
- paratoi **Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol**

Ond ni chaiff cyllid ar gyfer dyletswyddau o'r fath ei neilltuo tan 2014/15 ymlaen, ac felly bydd angen eu cyllido o adnoddau'r Cyngor ei hun.

**Adolygu'r Methodoleg Blaenoriaethu Ariannu**

Mae'r modd y mae Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn cael ei ariannu yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru ac mae grŵp wedi'i sefydlu i gynhyrchu **Rhaglen Fuddsoddi Sengl** gyda golwg ar ymgynghori gydag Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol a Chyfoeth Naturiol Cymru yn ystod 2013.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu mwyafrif ei chyllideb ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol i Gyfoeth Naturiol Cymru, gan gadw rhywfaint o arian i grantiau i awdurdodau lleol ac i gyllido ymchwil a datblygu, ac i ddiwallu costau gweithredu deddfwriaeth newydd.
Wrth wneud hynny, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gosod canran o'r gyllideb sydd i'w defnyddio i ddibenion cyfalaf (i adeiladu amddiffynfeydd newydd) a dibenion refeniw (i gynnal amddiffynfeydd cyfredol).

Yn y blynyddoedd i ddod, mae disgwyl I fuddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol gael ei flaenoriaethu'n llymach. Wrth benderfynu ar y math o ymyrraeth rheoli perygl sydd ei angen, bydd angen ystyried graddfa'r buddsoddiad a'r gyfran i'w diwallu gan y Llywodraeth ac amrediad o ffactorau, fel y rhestrir isod,:-

- perygl i fywyd
- cynaliadwyaeth tymor hirach y gymuned, y dull gweithredu a'r amgylchedd ehangach
- effeithiau, costau a manteision economaidd
- effeithiau llifogydd ar gapasiti gweithredol seilwaith hanfodol;
- effeithiau, costau a manteision cymdeithasol
- amlder llifogydd
- costau a manteision amgylcheddol yn deillio o'r gwaith
- argaeledd safleoedd digolledu priodol lle mae gwaith yn effeithio ar gynefinoedd dynodedig
- effeithiau ar y dreftadaeth ddiwylliannol ehangach
- manteision lluosog mewn perthynas â iechyd a lles dynol

Fel rhan o'r **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru**, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sefydlu methodoleg blaenoriaethu ariannu cliriach i Gymru sy'n nodi:

- pa brosiectau y byddant yn eu hystyried ar gyfer eu hariannu
- sut y byddent yn eu hystyried
- sut y byddent yn cymharu dewisiadau peirianneg caled traddodiadol yn erbyn dewisiadau rheoli perygl meddalach
- sut y byddent yn cymryd i ystyriaeth y defnydd o ffynonellau amgen o gyllido neu gyfraniadau uniongyrchol
- gyda phwy yr ymgynghorir wrth wneud penderfyniadau buddsoddi

Y bwriad yw y bydd hyn yn esgor ar sefydlu un cynllun cyllido sengl gan Lywodraeth Cymru i'r holl brosiectau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

# ADOLYGIAD

Bydd y modd y mae rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn cael ei gyflenwi yn parhau i esblygu dros y blynyddoedd i ddod.

Tra bod y **Strategaeth** hon wedi ceisio dal y newidiadau hynny o flaen llaw, ac yn ceisio bod yn ddigon hyblyg i ymgorffori'r newidiadau hynny wrth fynd ymlaen, yn y pen draw bydd y cynnydd mewn cofnodi, manylu ac asesu lifogydd a'r cynnydd canlynol yn ein dealltwriaeth o lifogydd ac erydu arfordirol yn golygu y bydd angen adolygu'r **Strategaeth** hon, ac felly fydd y Strategaeth yn cael ei adolygu pan fo gwybodaeth newydd, perthnasol ar gael.

Mae **Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009** eisoes yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol fel Cyngor Sir Ceredigion i adolygu eu **Hasesiadau Perygl Llifogydd Rhagarweiniol** mewn cylch chwe blynedd, ac mae'r adolygiad cyntaf i'w gynnal yn 2017.

Yn yr un modd mae **Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009** hefyd yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdodau Perygl Llifogydd Arweiniol hynny sydd â dyletswydd i baratoi Mapiau Perygl a Risg Llifogydd (erbyn Mehefin 2013) a Chynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd (erbyn Mehefin 2015) i adolygu'r dogfennau hynny hefyd bob chwe mlynedd.

Fe fydd y Strategaeth felly yn cael ei adolygu yn 2015, a gyda Llywodraeth Cymru'n bwriadu cynnal adolygiad o'r ddogfen **Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol** yn 2016, fe fydd adolygiad pellach ar gyfer y Strategaeth Leol hon yn 2017.

Fe fydd adolygiad o'r Strategaeth hefyd yn cymeryd lle pan fydd yr Asesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol, Mapiau Perygl a Risg Llifogydd a Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd yn cael eu adolygu.

Trwy wneud hynny gall Cyngor Sir Ceredigion sicrhau y gall dogfen wedi'i hadolygu adlewyrchu unrhyw newidiadau a nodwyd yn ystod yr adolygiad o'r **Asesiadau Perygl Llifogydd Rhagarweiniol** a chyfeirio at y **Strategaeth Genedlaethol,** a bod yn gyson gyda hi.

# ATODIAD A
# Ffynonellau Llifogydd ac Erydu Arfordirol

**Atodiad A**

## Ffynonellau Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Prif ffynonellau llifogydd yng Nghymru heddiw yw:

- llifogydd o'r môr;
- llifogydd afonydd, yn cynnwys prif afonydd a chyrsiau dŵr cyffredin; a
- llifogydd dŵr wyneb.

### Llifogydd o'r Môr

Mae llifogydd o'r môr fel arfer yn digwydd pan fydd cyfuniad o lanw a thonnau uchel a thywydd garw. Mae'r stormydd mwyaf garw yn digwydd pan fo gwasgedd isel atmosfferig a gwyntoedd cryfion ar y lan yn cyfuno ac yn cyd-daro â llanw astronomaidd uchel, gan achosi codiad yn lefel y llanw a elwir yn ymchwydd llanw. Gall amodau o'r fath ddifrodi amddiffynfeydd, achosi i amddiffynfeydd fethu, neu arwain at donnau uwch sy'n taflu dŵr y môr a chlogfeini i mewn i gymunedau arfordirol.

Y rheswm am y llifogydd a welwyd yn Nhywyn yng Ngogledd Cymru yn 1990, pan effeithiwyd ar tua 2800 o dai, oedd bod y morglawdd wedi methu yn ystod stormydd garw.

### Llifogydd Afonydd

Wrth sôn am afonydd yn gorlifo rydym yn cyfeirio'n gyffredinol at lifogydd o'r prif afonydd mwyaf megis afonydd Hafren, Taf a Dyfrdwy, yn ogystal ag afonydd llai neu nentydd y cyfeirir atynt yn aml fel cyrsiau dŵr cyffredin. Mae'n debyg mai llifogydd o'r naill ffynhonnell neu'r llall yw'r perygl llifogydd a adnabyddir ac a ddeellir orau.

Mae afonydd yn gorlifo fel rheol pan na all sianel yr afon ddal y dŵr sy'n mynd i mewn iddi, ac mae'r afon yn gorlifo'i glannau. Mae hwn yn ddigwyddiad naturiol. Pan fo afon yn gorlifo, gall y llifddwr sy'n dilyn fod yn ddwfn ac yn llifo'n gyflym dros y gorlifdir ar raddfa eang. Gall hefyd gario malurion ac mae hynny'n achosi mwy o ddifrod.

Gall yr effaith fod yn waeth byth os yw amddiffynfa rhag llifogydd, a godwyd i gynnal llifoedd afon uchel, yn methu'n sydyn ac yn torri, gan arwain at berygl i fywyd neu anafiadau heb nemor ddim rhybudd.

### Llifogydd Dŵr Wyneb

Mae llifogydd dŵr wyneb yn gyffredin mewn ardaloedd adeiledig lle y gall datblygiadau, yn cynnwys ffyrdd, adeiladau ac arwynebau caled niferus eraill, arwain at ddiffyg mannau agored ac arwynebau athraidd sy'n gallu amsugno dŵr glaw. Gall fod yn broblem mewn ardaloedd gwledig hefyd. Yn ystod glaw trwm mae'r dŵr yn tueddu i lifo oddi ar gaeau ar lethr serth gan effeithio ar gymunedau gwledig a cholli swm sylweddol o bridd.

Pan na all y glaw gael ei amsugno gan y pridd, cyfeirir y dŵr i mewn i'r systemau draenio yn lle hynny. Mae systemau draenio pibellog nodweddiadol wedi'u cynllunio i ddelio â glawiad mynych, sy'n para am gyfnod cymharol fyr. Ni chânt eu cynllunio i ddelio â stormydd hirach neu lawiad mwy trwm ac mae llifogydd dŵr wyneb yn digwydd pan nad yw'r systemau hynny'n gallu ymdopi â maint y dŵr sy'n mynd i mewn iddynt ac maent yn fwy tebygol o gael eu blocio gan falurion a llaid.

**Ffynonellau Llifogydd Eraill**

Er mai'r tair ffynhonnell llifogydd uchod yw'r rhai a welir amlaf, mae yna ffynonellau eraill o berygl llifogydd yn cynnwys:

- methiant argaeau;
- methiant strwythurau amddiffyn;
- camlesi'n gorlifo;
- dŵr daear a ffynonellau dŵr eraill; a
- llifogydd o garthffosydd.

Mae'r tebygolrwydd y bydd argae yn methu yn isel iawn. Mae trefniadau monitro, cynnal a chadw a diogelwch llym ar waith ac mae newidiadau deddfwriaethol diweddar (o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010) i gryfhau'r trefniadau ymhellach yn cael eu gweithredu. Fodd bynnag, pe bai argae'n torri byddai perygl bod llifeiriant mawr o ddŵr yn cael ei ryddhau o unrhyw gronfa ddŵr gysylltiedig.

Er nad yw'n ffynhonnell draddodiadol o lifogydd yn yr un ffordd ag afon neu argae, gallai methiant strwythur amddiffyn gynyddu effeithiau neu ganlyniadau llifogydd neu erydu arfordirol yn sylweddol. Gallai ardal yr ystyriwyd ei bod wedi'i diogelu wynebu lefel o risg nad yw'r trigolion yn barod amdani.

Mae rhywfaint o beryg o lifogydd o lynnoedd a chyrff dŵr eraill. Gall lefelau dŵr daear effeithio ar ffynonellau llifogydd eraill hefyd, gan leihau'r gallu i amsugno dŵr wyneb, er enghraifft. Nid yw llifogydd dŵr daear yn broblem gyffredin yng Nghymru, ond gallant ddigwydd mewn rhai ardaloedd, gyda goblygiadau o ran defnydd tir a mynediad. Er enghraifft, mae gan Fae Caerdydd orsaf bwmpio i atal lefelau dŵr daear rhag achosi llifogydd yn y lloriau isaf.

O dro i dro ceir peryglon eraill o lifogydd lleol yn ymwneud â dŵr sydd wedi'i ddal yn y ddaear. Un enghraifft yw'r digwyddiad ar Fynydd Parys, lle'r oedd y dŵr yn cael ei ddal yn y mynydd mewn gweithfeydd mwyngloddio; digwyddodd llifogydd pan gododd lefelau'r dŵr yn y gweithfeydd yn dilyn cau'r mwynfeydd lleol. Ceir deddfwriaeth ar wahân ar gyfer rheoli lefelau dŵr mewn mwynfeydd.

**Llifogydd o Garthffosydd**

Nid yw'r strategaeth hon yn delio â pherygl carthffosydd yn gorlifo gan mai'r cwmnïau dŵr a charthffosiaeth sy'n gyfrifol am hyn. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr effeithiau a'r canlyniadau sy'n deillio o lifogydd o garthffosydd.

Ceir tri math o garthffos:

- carthffosydd budr, a gynlluniwyd i gario dŵr budr a ddefnyddiwyd ar gyfer golchi a choginio, yn ogystal â chynnwys toiledau ac elifion masnach;
- carthffosydd dŵr wyneb, a gynlluniwyd i gario dŵr glaw sy’n llifo o doeau, buarthau a ffyrdd; a
- charthffosydd cyfun, sy’n derbyn cymysgedd o garthion budr a dŵr wyneb.

Y rheswm arferol pam bod carthffosydd budr yn gorlifo yw rhwystrau neu systemau pwmpio yn methu ac fel arfer dim ond nifer gyfyngedig o eiddo sy’n cael eu heffeithio.

Mae llifogydd o garthffosydd dŵr wyneb a charthffosydd cyfun yn digwydd pan fo unrhyw un o’r mathau hyn o garthffosydd yn cael ei gorlwytho o ganlyniad i law trwm (neu weithiau eira’n toddi), pan fo rhwystr yn y garthffos neu, yn llai aml, pan fo cyfarpar mecanyddol neu drydanol yn torri. Mae’r tebygolrwydd y ceir llifogydd o garthffos oherwydd gorlwytho, a difrifoldeb y llifogydd hynny, yn dibynnu ar gapasiti system garthffosiaeth y carthffosydd dan sylw. Gall nifer o ffactorau effeithio ar hynny, gan gynnwys maint y beipen a’r tywydd.

Dim ond hyn a hyn y gall pob system garthffos ei ddal ac un ffordd o leihau’r perygl o lifogydd o garthffosydd yn gorlifo yw lleihau faint o ddŵr wyneb sy’n rhedeg i mewn i’r rhwydwaith o garthfosydd ac yn rhoi straen ychwanegol ar y system.

Er bod dyfnder y llifogydd a achosir gan garthffosydd fel arfer yn dipyn llai na’r prif ffynonellau, mae llifogydd sy’n cynnwys carthion budr yn achosi gofid mawr i’r rheini yr effeithir arnynt.

Y cwmnïau dŵr a charthffosiaeth sy’n bennaf gyfrifol am reoli llifogydd o garthffosydd, ac maent yn cymryd camau i fynd i’r afael â’r achosion a’r pryderon. Un o’r rheiny yw’r rhaglen Gwaredu a Lleihau Dŵr Wyneb o dan arweiniad Dŵr Cymru. Fodd bynnag, er mwyn rheoli’r perygl o lifogydd o garthffosydd yn effeithiol, bydd cwmnïau dŵr a charthffosiaeth angen cymorth a chydweithrediad Awdurdodau Rheoli Risg eraill.

Yn 2011 deddfodd Gweinidogion Cymru er mwyn trosglwyddo’r cyfrifoldeb dros bob carthffos breifat a draen ochrol i’r cwmnïau dŵr a charthffosiaeth. Mae hyn yn dileu’r risg y bydd yn rhaid i unigolion dalu costau sylweddol am gynnal a chadw ac atgyweirio carthffosydd preifat, a’i fwriad yw darparu buddiannau ehangach drwy reoli’r system garthffosiaeth yn ei chyfanrwydd.

**Perygl Erydu Arfordirol**
Erydu arfordirol yw’r term a ddefnyddir i ddisgrifio colli tir ar yr arfordir oherwydd effaith y môr. Mae’r draethlin yn newid ei siâp yn gyson oherwydd effaith y tonnau, y llanw a’r cerhyntau. Mae’r prosesau hyn yn achosi newidiadau hirdymor ond yn ystod stormydd arfordirol gellir colli tir yn ddramatig, fel clogwyni’n syrthio.

Gall lefel traethau gael ei ostwng wrth i donnau a cheryntau'r llanw symud tywod a graean bras ar hyd yr arfordir. Gall y broses hon o gludo gwaddod olygu bod yr ehangdir y tu ôl i'r traeth yn fwy agored i donnau mwy o faint, ac i ragor o erydiad.

Yn wir y môr sy'n gyfrifol am siâp Cymru ei hun. Ers i'r Oes Iâ ddiwethaf ddod i ben 10,000 o flynyddoedd yn ôl, mae lefel y môr wedi codi tua 60 metr, gan orlifo dros wastadeddau a dyffrynnoedd isel. Mae erydu arfordirol yn broses gynyddol, ac mae'n achosi difrod parhaol a di-droi'n-ôl i eiddo a seilwaith. Gall colledion o'r fath danseilio hyfywedd cymunedau arfordirol a chael effeithiau sylweddol ar yr economi leol.

Mae'r graddau y caiff yr arfordir ei erydu yn dibynnu ar nifer o ffactorau, yn cynnwys amodau'r ar y môr, amlder a difrifoldeb stormydd arfordirol, faint o dywod a graean bras sydd ar y traeth, yn ogystal â daeareg a thopograffeg yr arfordir a'r ardal ger y lan. Mae creigiau caled yn erydu'n araf, gyda'r effeithiau'n fwy graddol. Ar y llaw arall, bydd creigiau meddalach neu dwyni tywod yn erydu'n gynt, a gall cyflymder yr erydiad hwn achosi perygl i gymunedau arfordirol.

Mewn rhai ardaloedd mae'r perygl o erydiad yn cael ei ddwysáu gan dir arfordirol ansefydlog. Gall erydu arfordirol ar waelod llethr arfordirol ansefydlog arwain at gwymp tir a fydd yn effeithio ar dir ymhellach o'r môr.

Mae'r gyfradd erydu arfordirol yng Nghymru yn gymharol isel o'i gymharu â rhai rhannau o Loegr. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth o'n Cynlluniau Rheoli Traethlin26 ar y cyfan yn awgrymu y gallai nifer cynyddol o'n cymunedau arfordirol fod mewn perygl yn sgil codiad yn lefel y môr yn codi ac erydiad tir dros y 100 mlynedd nesaf.

Bydd lleoliad rhai o'r cymunedau hyn yn mynd yn anghynaliadwy yn y tymor hwy, gan orfodi'r rhai sy'n byw yno i symud.

### Cywasgu arfordirol

Mae cywasgu arfordirol yn disgrifio un o ganlyniadau codiad yn lefel y môr ar ein hardaloedd arfordirol.

Wrth i lefel y môr godi, gan arwain at donnau uwch a mwy dwys, mae'r môr yn symud ymhellach i mewn i'r tir . Mae hynny'n golygu colli cynefinoedd ar dir isel a difrod i nodweddion y cynefin a'r rhywogaethau sy'n byw ynddo. Cyfeirir at golli'r cynefin rhynglanwol hwn fel cywasgu arfordirol, ac er mai mewn perthynas â chynefin y'i defnyddir fel arfer, gall gael effaith hefyd ar berygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Gall lleihau hyd y blaentraeth o flaen amddiffynfa, er enghraifft, greu dŵr dyfnach sy'n arwain at donnau mwy o faint. Gall hyn danseilio amddiffynfeydd neu ei gwneud yn fwy tebygol bod amddiffynfeydd yn cael eu trechu.

O amgylch arfordir Cymru mae sawl ardal arwyddocaol lle ceir safleoedd cadwraeth cynefinoedd iseldir rhwng y môr ac amddiffynfeydd arfordirol, strwythurau o waith dyn a thir uwch. Un enghraifft yw traethlin Casnewydd ar aber yr afon

Hafren. Caiff llawer o'r rhain eu gwarchod gan ddeddfwriaeth Ewropeaidd a domestig sy'n cynnwys y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Adar.

Mae'n bwysig nodi'r rôl y gall nodweddion arfordirol fel traethau a thwyni tywod ei chwarae yn y gwaith ehangach i ddiogelu'r arfordir. Gallant fod yn glustogau naturiol pwysig i lifogydd o'r môr os cânt eu hystyried yn rhan o strategaeth reoli integredig sy'n defnyddio prosesau naturiol a thrwy hyn, gallant leihau costau cynnal a chadw neu gynyddu oes y strwythurau y maent yn eu diogelu.

Mae iddynt hefyd fanteision ecolegol pwysig megis meithrinfeydd pysgod, er enghraifft, yn ogystal â chyfleoedd hamdden a thwristiaeth i gymunedau lleol. Gall y cynefinoedd hyn ddod â buddiannau lluosog i'r gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd.

Wrth i rai rhannau o'r arfordir gael eu golchi i ffwrdd, caiff eraill eu gwella. Croniant arfordirol yw'r enw a roddir ar y broses lle mae gwaddod a gludwyd gan brosesau arfordirol naturiol yn cael ei ddyddodi ar ymyl y traeth. Mae tywod neu raean bras a olchwyd i ffwrdd o un traeth yn debyg o ddrifftio ymhellach ar hyd yr arfordir a chael ei ddyddodi yn rhywle arall, lle gallai ffurfio traeth newydd neu godi lefel traeth presennol.

**Perygl Cyfunol**

Nid yw manylu ar ffynonellau perygl unigol yn awgrymu mai dim ond un rheswm sydd yna dros lifogydd, neu dim ond un canlyniad sydd i erydu arfordirol. Gall unrhyw un a phob un o'r ffynonellau a'r agweddau hyn gyfuno i gynhyrchu'r hyn a elwir yn ddigwyddiadau cyfunol.

Un enghraifft o lifogydd cyfunol yw llifogydd sy'n digwydd yn ystod cyfnod o lawiad dwys neu faith. Bydd y glaw yn codi lefel y dŵr mewn cyrsiau dŵr, yn trwytho'r ddaear, yn cynyddu'r llif drwy'r system ddraenio a gallai fynd i mewn i'r system garthffosiaeth gyhoeddus, gan gynyddu'r pwysau ar y system. Wrth i'r ffactorau hyn i gyd gyfuno, gallai cyrsiau dŵr, draeniau a charthffosydd gyrraedd eu capasiti llawn a, heb unrhyw le arall i fynd, gallai'r dŵr orlifo o bob un ohonynt, gan arwain at gyfuniad o lifogydd o afonydd, o garthffosydd a dŵr wyneb.

Ar yr arfordir, gallai digwyddiad cyfunol gynnwys llifogydd o'r môr pan fo storm yn arwain at law trwm ar y tir ac ymchwydd storm a moroedd stormus, yr un pryd â llanw uchel. Mae hyn yn arwain at gynnydd yn lefel y llanw a'r tonnau ar yr un pryd ag y mae'r llif o afonydd i'r môr yn cynyddu. Os yw'r ddau'n cyd-daro, gallai cymunedau arfordirol brofi cymysgedd o lifogydd o'r môr ac afonydd.

Yn dibynnu ar ddwysedd y glawiad a'r tonnau, gallai digwyddiad o'r fath achosi cynnydd mewn erydu arfordirol hefyd, gan arwain at ddifrod hirdymor i'r arfordir, a fyddai'n dwysáu'r perygl o lifogydd yn y dyfodol.

# Atodiad B
# Polisi Bagiau Tywod

**<u>Atodiad B</u>**

**CYNGOR SIR CEREDIGION – POLISI BAGIAU TYWOD**

**Cyflwyniad**

Mae'n debyg mai bagiau tywod yw'r dulliau mwyaf adnabyddus o gadw dŵr llifogydd allan o eiddo yn ystod llifogydd. Gallant fod yn ddefnyddiol iawn i helpu i atal dŵr rhag llifo dros ffosydd a ffrydiau ac i ddargyfeirio dŵr yn rhedeg. Gellir defnyddio bagiau tywod i flocio drysau, draeniau ac agoriadau eraill i eiddo yn ogystal ag i roi pwysau ar gaeadau manol ac i flocio draeniau sinc, toiled a baddonau i atal dŵr rhag cronni. Maent yn gallu atal dŵr am gyfnodau byr ac maent yn rhad ac yn hawdd i'w cael.

Nid yw bagiau tywod bob amser yn fesur effeithiol mewn llifogydd o'u cymharu â chynnyrch amddiffyn rhag llifogydd sydd wedi'u dylunio i'r pwrpas.

Ond, mae rhai anfanteision i'w defnydd:

- mae eu llenwi yn cymryd amser ac mae angen dau berson i wneud hynny
- gallant fod yn anodd i'w trafod ac efallai y bydd carthffosiaeth ynddynt
- mae'r deunydd sach yn fioddiraddiadwy ac fe fydd yn pydru mewn amser

Anogir pobl felly i ddefnyddio cynnyrch amddiffyn rhag llifogydd sydd wedi'u dylunio i'r pwrpas hwnnw, fel byrddau llifogydd, falfau diddychwelyd ar gyfer caeadau plymio a briciau aer.

<u>Cyfrifoldeb perchnogion eiddo yw cymryd camau priodol i amddiffyn eu heiddo rhag llifogydd.</u>

**Diben**

Cynhyrchwyd y polisi hwn gan Gyngor Sir Ceredigion i sicrhau bod digon o fagiau tywod ar gael wrth gefn i ymateb yn ddigonol i lifogydd er mwyn diogelu asedau cyhoeddus a sicrhau bod bagiau tywod ar gael i'r cyhoedd i amddiffyn eu heiddo rhag llifogydd mewn amgylchiadau eithafol.

Mae'r polisi hwn yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer defnyddio a dosbarthu bagiau tywod a bydd yn sefydlu gweithdrefnau ar gyfer argaeledd bagiau tywod, rheoli'r stoc, eu cyflenwad a'u rhannu.

Mae'r polisi hefyd yn penderfynu ar y dull o weithredu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a busnesau am eu cyfrifoldebau wrth amddiffyn eu heiddo eu hunain.

**Blaenoriaethau**

Mae’r cyhoedd o dan yr argraff y bydd Cyngor Sir Ceredigion yn darparu bagiau tywod pan fydd llifogydd yn digwydd. Nid yw hynny’n wir.

Perchennog yr eiddo sydd â’r cyfrifoldeb pennaf dros amddiffyn eiddo rhag y perygl o lifogydd. Os yw eiddo mewn gorlifdir gwybyddus neu os ystyrir ei fod mewn perygl o ddioddef llifogydd, yna dylai perchnogion eiddo brynu bagiau tywod neu gynnyrch amddiffyn rhag llifogydd eraill o flaen llaw a dilyn y cyngor a ddarperir gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Gwasanaeth gwirfoddol yw cyflenwi bagiau tywod ac ar adeg o lifogydd mawr ni all Cyngor Sir Cereigion warantu y byddant yn gallu ateb pob cais am fagiau tywod i helpu pobl i amddiffyn eu heiddo. Yn ystod tywydd garw a lle mae perygl gwirioneddol o lifogydd gall Cyngor Sir Ceredigion gyflenwi bagiau tywod wedi’u llenwi i eiddo os gofynnir am hynny. Caiff pob cais i Gyngor Sir Ceredigion ei ystyried a’i flaenoriaethu yn ôl yr amgylchiadau ar y pryd, waeth beth fo ffynhonnell y llifogydd.

Mae’r blaenoriaethau canlynol wedi’u sefydlu:

1) Diogelu bywyd
2) Diogelu’r rhai sy’n agored i niwed, yr oedrannus neu’r llesg
3) Diogelu seilwaith allweddol (amddiffynfeydd llifogydd, is-orsafoedd, cyflenwadau dŵr, priffyrdd etc)
4) Diogelu cyfleusterau ac adeiladau allweddol yn y gymuned
5) Diogelu eiddo busnes a masnachol

Lle mae hynny’n bosibl, bydd Cyngor Sir Ceredigion hefyd yn ymateb i geisiadau gan y Gwasanaethau Brys am fagiau tywod i ddiogelu eiddo strategol.

**Stoc**

Pe digwydd llifogydd, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud trefniadau i gadw stoc o fagiau tywod i’w defnyddio lle mae perygl o lifogydd yn wybyddus a bydd, bob amser, yn cadw 500 o fagiau tywod wedi’u llenwi mewn cyflwr da, yn barod i’w defnyddio, yn y lleoliadau canlynol:

- Depo Glanyrafon, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth
- Depo Penrhos, Llandysul

Caiff isafswm o 2,000 o fagiau tywod heb eu llenwi eu cadw ym mhob depo ac o leiaf 20 tunnell o dywod.

**<u>Noder os gwelwch yn dda – ni chaniateir i aelodau o’r cyhoedd o dan unrhyw amgylchiadau gasglu bagiau tywod wedi’u llenwi yn uniongyrchol o unrhyw ddepo’r Cyngor ar unrhyw adeg</u>**

**Cyflenwadau**

Mae gan Gyngor Sir Ceredigion gyflenwad cyfyngedig o fagiau tywod ac felly dim ond i gartrefi sy'n wynebu'r perygl mwyaf y gall eu rhannu. Ar adeg o berygl mawr o lifogydd bydd Cyngor Sir Ceredigion yn ceisio cyflenwi bagiau tywod i eiddo sydd wedi'u meddiannu ac sydd mewn perygl. Ond, ni fydd hyn yn bosibl bob amser oherwydd y galw ac/neu amodau'r tywydd.

Noder y bydd y ceisiadau hyn yn destun asesiad risg  a fydd yn gorfod ystyried mynediad i'r eiddo, blaenoriaeth angen a'r perygl yn gysylltiedig gyda'r llifogydd.

Darperir bagiau tywod am ddim yn ystod argyfyngau llifogydd, yn amodol i argaeledd adnoddau. Rhaid pwysleisio na ddylai preswylwyr Cyngor Sir Ceredigion sydd yn byw mewn ardaloedd perygl llifogydd a nodwyd ddibynnu ar y Cyngor i ymateb i fygythiad llifogydd i'w heiddo a dylent gael eu cynllun amddiffyn rhag llifogydd eu hunain.

Yn yr un modd, mae eiddo masnachol yn gyfrifol am gynnal eu hasesiad risg llifogydd eu hunain ac am archebu eu cyflenwadau eu hunain o fagiau tywod.

Ni fydd Cyngor Sir Ceredigion yn cyflenwi bagiau tywod o flaen llaw yn seiliedig ar ragolygon.

**Dosbarthu**

Yn amodol i asesiad o angen a'r perygl o ddioddef llifogydd, bydd Cyngor Sir Ceredigion yn ystyried anfon bagiau tywod os gofynnir amdanynt.

Ni chaiff bagiau tywod eu darparu i ddiogelu gerddi, adeiladau allanol neu strwythurau eraill. Fel rheol caiff bagiau tywod eu cyflenwi i'r pwynt mynediad agosaf at eiddo o'r briffordd neu ffordd mynediad

Ni fydd Cyngor Sir Ceredigion yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb dros osod bagiau tywod na chwaith eu hail osod wedi hynny.

**Gwaredu**

Pan gaiff bagiau tywod eu darparu, cyfrifoldeb y person sydd yn eu derbyn yw'r bagiau tywod. Ni fydd Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am gasglu na gwaredu bagiau tywod ar ôl llifogydd.

Mae bagiau tywod wedi'u gwneud yn bennaf o bolypropylen y gellir ei ailgylchu. Felly, gellir ailgylchu'r bagiau tywod gwag, os yn lân, yn y bagiau ailgylchu clir a ddarperir gan Gyngor Sir Ceredigion. Os nad yw'r bagiau tywod gwag yn lân, maent yn cael eu hystried yn wastraff domestig a gellir cael gwared o nifer fechan ohonynt mewn bagiau du.

Gellir cael gwared o  nifer mwy o fagiau tywod wedi'u defnyddio am ddim yn y safle gwastraff o gartrefi lleol. Gellir cael gwared ar fagiau tywod o eiddo masnachol yn y bagiau oren neu am dâl os oes nifer fawr ohonynt yn y safle gwastraff o gartrefi lleol.

**Cyngor i'r cyhoedd**

Ni ddylid dibynnu ar y Cyngor Sir i ddarparu bagiau tywod fel y prif ddull o amddiffyn. Mae'n hanfodol bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r polisi hwn ac yn cael eu hannog i wneud eu trefniadau eu hunain i amddiffyn eu heiddo yn ystod cyfnod o lifogydd potensial.

Mae disgwyl i fusnesau wneud eu trefniadau eu hunain ac fel rheol ni fydd hynny'n golygu derbyn bagiau tywod.

Caiff perchnogion eiddo, sydd mewn perygl o lifogydd, eu hannog i gadw, lle mae'n bosibl, eu stoc eu hunain o fagiau tywod gwag gyda digon o dywod i lenwi'r bagiau ar adeg o lifogydd potensial.

Os ydych angen bagiau tywod i amddiffyn eich eiddo, mae modd cael rhai fel rheol o fanwerthwr cyflenwadau adeiladu. Byddwch yn ymwybodol bod rhai masnachwyr adeiladu yn ystyried bagiau tywod fel eitemau tymhorol ac efallai nad ydynt ar gael bob amser.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn annog perchnogion eiddo mewn ardaloedd llifogydd gwybyddus i baratoi o flaen llaw ac ymateb i ragolygon a rhybuddion llifogydd. Anogir aelodau'r cyhoedd sy'n gwneud ymholiadau am fagiau tywod yn gynnar i chwilio am gyflenwyr lleol lle y gallant brynu bagiau tywod neu o bosibl eu cludo. Bydd hyn yn gymorth i gadw'r stoc o fagiau tywod sydd gan Gyngor Sir Ceredigion ar gyfer ymateb i argyfyngau gwirioneddol.

**Dolenni i ganllawiau hunan gymorth**

Mae cyngor ychwanegol am lifogydd ac a yw eich eiddo mewn perygl o lifogydd ar gael o wefan Asiantaeth yr Amgylchedd yn www.environment-agency.gov.uk

Mae gwybodaeth yno hefyd am

- Sut i gofrestru am rybuddion llifogydd trwy'r Floodline (0845 988 1188)
- Sut i amddiffyn eich eiddo rhag llifogydd
- Cynnyrch a gwasanaethau amddiffyn rhag llifogydd
- Sut i ddefnyddio bagiau tywod yn gywir ar gyfer amddiffyn rhag llifogydd
- Sut i leihau'r difrod potensial i'ch eiddo o ganlyniad i lifogydd

**Adolygu Polisi**

Caiff y polisi ei adolygu'n flynyddol a'i newid fel bo angen.

# ATODIAD C
# Polisi Sianelu

**Atodiad C**

**Polisi Sianelu**

Ar y cyfan mae Cyngor Sir Ceredigion yn gwrthwynebu sianelu cyrsiau dŵr oherwydd yr effeithiau ecolegol, perygl llifogydd, diogelwch dynol ac aesthetig niweidiol. Mae cyrsiau dŵr yn nodweddion llinellol pwysig yn y tirwedd a dylid eu cynnal fel coridorau parhaus i wneud y mwyaf o'u manteision i gymdeithas.

Mae'r Awdurdod yn eisio osgoi sianelu oherwydd:

- mae'n debygol y caiff ecoleg y cwrs dŵr ei ddiraddio gan sianelu
- mae sianelu yn creu risg cynyddol o rwystrau (a chynnydd felly mewn perygl llifogydd)
- gall gymhlethu gwaith cynnal oherwydd bod mynediad i'r cwlfert yn cael ei gyfyngu (a ddosberthir weithiau fel gofod cyfyngedig ac mae angen gweithwyr hyfforddedig a chyfarpar arbenigol)

Gall rhwystr mewn cwlfert fod yn anodd iawn i'w symud ac mae'n debygol o esgor ar berygl llifogydd mawr. Oherwydd hynny mae gosod sgrin ar fynedfa'r cwlfert yn aml yn cael ei ystyried. Mae sgrin o'r fath yn lleihau'r perygl o rwystr y tu mewn i gwlfert, ond mae'n golygu gwaith cynnal a chadw sylweddol (i sicrhau bod y sgrin yn lân) ac mae hynny yn llawer mwy na'r gofynion cynnal a chadw nodweddiadol i gwrs dŵr agored.

**Effeithiau Sianelu:**

| | |
|---|---|
| **Ecologeg** | Weithiau ni all anifeiliaid afonol fynd trwy gwlfertau a gallant greu rhwystrau i symudiad pysgod. Mae sianelu yn esgor ar golli cynefinoedd naturiol yn y dŵr ac ar y glannau trwy symud a cholli golau dydd. |
| **Llygredd** | Mewn ardaloedd trefol mae cyrsiau dŵr wedi'u sianelu yn llawn llygredd oherwydd carthffosydd brwnt wedi'u camgysylltu, gorlifo o garthffosydd wedi blocio neu llif dŵr wyneb llygredig. |
| **Morffoleg** | Gall adrannau wedi'u sianelu greu neu waethygu erydu glannau a gwely i lawr neu i fyny'r afon neu hyrwyddo gwaddodi oherwydd newid yng nghyflymdra dŵr ac amharu ar gludiant naturiol gwaddod |
| **Adfer** | Gall cwlfertau lesteirio dewisiadau adfer yn y dyfodol. Mae hyn yn neilltuol o arwyddocaol pan fo datblygu trefol yn esgor ar gladdu cyrsiau dŵr oedd unwaith yn agored o dan dai neu ganolfannau masnachol, neu lle mae datblygiadau newydd yn cael eu gosod ar ben cyrsiau dŵr cyfredol sydd wedi eu sianelu a fyddai fel arall ar gael i'w hadfer |
| **Tirwedd ac amwynder** | Mae sianelu dyfroedd trefol yn arwain at golli a diraddio cydrannau penodol y tirwedd lleol. Mae sianelu yn arwain at golli gofod amwynder gwyrdd ar hyd glannau'r afon a llai o fynediad i gyfleoedd hamdden fel pysgota, cerdded neu ganwïo. |

Er mwyn sianelu cwrs dŵr, mae angen cymeradwyaeth a chaniatâd Cyngor Ceredigion o dan delerau'r Ddedddf Iechyd Cyhoeddus 1936, Deddf Draenio Tir 1991 a Deddf Adnoddau Dŵr 1991.

Byddwn yn ystyried pob cais i sianelu cwrs dŵr yn ôl ei deilyngdod ei hun ac yn unol â'n dull o roi caniatâd yn seiliedig ar risg. Byddwn yn cymeradwyo cwlfert dim ond os nad oes dewis ymarferol rhesymol arall, neu os ydym yn meddwl y byddai'r effeithiau niweidiol mor fach fel na fyddai modd cyfiawnhau dewis mwy costus. Ym mhob achos lle mae'n briodol i wneud hynny, rhaid i ymgeiswyr ddarparu mesurau lliniaru digonol a derbyn unig berchnogaeth a chyfrifoldeb am waith cynnal yn y dyfodol.

Byddwn fel rheol yn gwrthwynebu cynigion i adeiladu dros gwlfertau sydd eisoes yn bodoli oherwydd ystyriaethau iechyd a diogelwch, cynnydd mewn costau cynnal a chadw, ac oherwydd y byddai hyn yn atal dewisiadau yn y dyfodol i adfer y cwrs dŵr.

Lle mae'n briodol byddwn yn annog adfer cyrsiau dŵr sydd wedi eu sianelu i sianeli agored.

# ATODIAD D
# Ffynonellau Pellach o Ddeddfwriaeth

**Atodiad D**

**Ffynonellau Pellach o Ddeddfwriaeth**

**Deddfwriaeth**

Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010
http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/29/contents/

Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009
http://www.legislation.gov.uk/uksi/2009/3042/contents/made

Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr:
http://www.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/waterframework/?lang=en

**Llywodraeth Cymru**

Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru
http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/111114floodingstrategyen.pdf

Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol - Canllaw
http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/111130floodinglocalstrategyen.pdf

Polisi Cynllunio Cymru
http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw/;jsessionid=rnpSPzwBK7GxdPrTzqz1JG0KJfdzL1jRkVkk1tTrPVGyycByHyQT

TAN 14:
http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan14/;jsessionid=M2LVP9tXykhDsF9VNh9cnhxsktGJrNtnQbGrMkc7Qs4GgPzXH6vR

TAN 15:
http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan15/?lang=en

Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Cyhoedd
http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/flooding/communities/toolkit/;jsessionid=qpbMP9nhMqBC6qBL8Z1xPcPpJ5zyYgP7yBm547pVWCqcD16Zykhb!1858592419?lang=en

Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned
http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/onewalesoneplanet/?lang=en

Datblygu Cynaliadwy – Canllaw i Awdurdodau Rheoli Risg
http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/111231floodingsustainableen.pdf

Pecyn Cymorth Rheoli Perygl Llifogydd
http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/flooding/?lang=en

Newid Hinsawdd

United Kingdom Climate Projections 2009 (UKCP09)
http://ukclimateprojections.defra.gov.uk/

The Stern Review on the Economics of Climate Change
http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+/http:/www.hm-treasury.gov.uk/sternreview_index.htm

Learning Lessons from the 2007 Floods (The Pitt Review)
http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100807034701/http://archive.cabinetoffice.gov.uk/pittreview/thepittreview.html

**Cyhoeddiadau Asiantaeth yr Amgylchedd**

Cynlluniau Rheoli Basn Afon
http://www.environment-agency.gov.uk/research/planning/33106.aspx

Cynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylchoedd
http://www.environment-agency.gov.uk/research/planning/33586.aspx

Llifogydd yng Nghymru:
http://www.environment-agency.gov.uk/research/library/publications/108958.aspx

Llifogydd yng Nghymru yn y Dyfodol:Amddiffynfeydd Llifogydd
http://www.environmentagency.gov.uk/research/library/publications/116654.aspx

Map Llifogydd Asiantaeth yr Amgylchedd
www.environment-agency.gov.uk/homeandleisure/floods/31650.aspx

Gweithio gyda phrosesau naturiol i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol
http://www.environment-agency.gov.uk/research/planning/116707.aspx

'Living on the Edge'
http://publications.environment-agency.gov.uk/dispay.php?name=GEHO0407BMFL-E-E

Cynlluniau Llifogydd Cymunedol
www.environment-agency.gov.uk/homeandleisure/floods/38329.aspx

Cynllun Llifogydd Personol
www.environment-agency.gov.uk/homeandleisure/floods/38329.aspx

Paratoi eich eiddo ar gyfer llifogydd – Canllaw i ddeiliaid tai a busnesau bach
http://publications.environment-agency.gov.uk/PDF/GEHO1009BRDL-E-E.pdf

Environment Agency Working at Construction and demolition sites
PPG6 Pollution Prevention Guidelines
http://www.environment-agency.gov.uk/business/topics/pollution/39083.aspx

Mapio erydu arfordirol
http://www.environment-agency.gov.uk/homeandleisure/134808.aspx

**Fforwm Llifogydd Genedlaethol:** Gwefan 'blue pages' – cyfeirlyfr o gynnyrch a gwasanaethau amddiffyn rhag llifogydd services
http://www.bluepages.org.uk/

**Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru**
http://www.westofwalessmp.org/content.asp?nav=23&parent_directory_id=10

# ATODIAD E
# Darogan Llifogydd a Rhybuddion Llifogydd

## Atodiad E – Darogan Llifogydd a Rhybuddion Llifogydd

### Swyddfa'r Met

Swyddfa'r Met yw Gwasanaeth Tywydd Cenedlaethol y DU.

Maent yn darparu'r Gwasanaeth Tywydd Cyhoeddus (PWS), sy'n darpar rhagolygon i'r cyhoedd i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu gweithgareddau beunyddiol. Mae'r Gwasanaeth Rhybuddio Tywydd Difrifol Cenedlaethol hefyd yn rhan o hyn, yn darparu rhybudd o flaen llaw am dywydd allai effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd.

Maent yn cyhoeddi rhybuddion am law, eira, gwynt, niwl a rhew. Rhoddir lliw i'r rhybuddion hyn yn dibynnu ar gyfuniad o'r tebygolrwydd i'r digwyddiad ddigwydd ac effaith tebygol y digwyddiad.
Bydd map y DU yn dangos rhybuddion sydd mewn grym ar y diwrnod dethol. Bydd clicio ar ardal rhybudd ar y map yn darparu testun y rhybudd a'r rhanbarthau sydd wedi'u heffeithio ar yr ochr dde. Trwy ddethol rhanbarth o'r tabl ar yr ochr dde gallwch weld yr holl rybuddion sydd mewn grym ar gyfer yr ardal honno, bydd hyn hefyd yn chwyddo'r map i'r ardal honno.

Ewch i: www.metoffice.gov.uk/public/weather/warnings/

### Asiantaeth yr Amgylchedd

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn darparu gwybodaeth ar y we am lefelau afonydd a'r môr fel bod pobl sy'n byw mewn ardaloedd perygl llifogydd yn fwy gwybodus ac yn gallu penderfynu pa gamau i'w cymryd wrth i lefelau'r dŵr newid.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gwneud hyn trwy gyhoeddi'r data diweddaraf o'u rhwydwaith o orsafoedd monitro ar draws Cymru a Lloegr sy'n mesur lefelau afonydd, llynnoedd, y môr a dŵr daear mewn amser real.

Cyhoeddir y data yma ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Ewch i: www.environment-agency.gov.uk/homeandleisure/floods/riverlevels/default.aspx

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd yn gweithredu gwasanaeth Rhybudd Llifogydd i helpu'r cyhoedd ac ymatebwyr brys i gymryd camau amserol ac effeithiol i leihau effaith llifogydd. Trwy ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf sydd ar gael. Mae AA yn monitro glaw, lefelau afonydd a lefelau'r môr a darogan llifogydd afonydd ac arfordirol trwy ddefnyddio modelau darogan lleol. Defnyddir yr wybodaeth hon gan Swyddogion Dyletswydd Llifogydd Asiantaeth yr Amgylchedd lleol (FIDO) i wneud penderfyniadau ynghylch cyhoeddi rhybuddion llifogydd i bartneriaid proffesiynol, y cyfryngau a'r cyhoedd

Os caiff llifogydd eu darogan, maent yn cyhoeddi rhybuddion trwy ddefnyddio set o dri gwahanol math o rybuddion – Gwylio Rhag Llifogydd, Rhybudd Llifogydd a Rhybudd Dwys Llifogydd.




**Mae llifogydd yn Bosibl Byddwch yn Barod**

- **Cadwch yn Effro**
- **Cadwch yn Wyliadwrus**
- **Mesurau Diogelwch Cynnar**




**Llifogydd i'w disgwyl, Angen Gweithredu ar Unwaith**

- **Llifogydd i'w disgwyl**
- **Gweithredu**
- **Digelu'ch hun a'ch Eiddo**




**Llifogydd Dwys – Perygl i Fywyd**

- **Perygl Sylweddol i Fywyd**
- **Aflonyddwch Sylweddol i Gymunedau**
- **Diogelu'ch hun**

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd yn gweithredu Gwasanaeth Uniongyrchol Llinell Rybuddion Llifogydd, gwasanaeth am ddim sy'n darparu rhybuddion llifogydd yn uniongyrchol ar y ffôn, ffôn symudol,. e-bost, negeseuon testun SMS,  galwr neu ffacs. Mae'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer Ardaloedd Rhybudd Llifogydd dynodedig yng Nghymru a Lloegr sydd mewn perygl o lifogydd afonydd neu lanwol.

Fel rheol cyhoeddir rhybuddion llifogydd i gymunedau penodol, mae Gwylio rhag Llifogydd yn cynnwys ardaloedd mwy yn gyffredinol e.e. dalgylchoedd neu ar hyd arfordir .

# ATODIAD F
# Geirfa

**Atodiad F**

**Geirfa – Wedi'i atgynhyrchu o'r Strategaeth Genedlaethol**

**Adfer –** Y broses o ailadeiladu, adfer ac adsefydlu'r gymuned yn dilyn argyfwng.
**Adlinio Rheoledig –** Techneg i amddiffyn yr arfordir sy'n ceisio amddiffyn yr arfordir rhag llifogydd mewn modd cynaliadwy trwy drwy ail-greu cynefinoedd morfeydd heli a thraethellau sydd wedi'u h erydu.
**Ailgronni –** Pan fo'r tir yn cael ei ymestyn yn raddol gan rymoedd naturiol, er enghraifft pan fo'r môr yn ychwanegu tywod at draeth, neu pan fo'r gorlifdir yn cael ei ymestyn gan waddodion yn sgil llifogydd.
**Amddiffynfa –**Strwythur a ddefnyddir i leihau'r tebygolrwydd y bydd llifddwr neu erydu arfordirol yn effeithio ar ardal benodol.
**Ardoll Seilwaith Cymunedol –** Dull o godi arian ychwanegol yn lleol.
**Ardollau Arbennig Awdurdodau Lleol –** Caiff y rhain eu talu i Fyrddau Draenio Mewnol gan awdurdodau lleol o fewn ardal ddraenio mewn perthynas â'r manteision o rheoli lefel y dŵr ar gyfer tir nad yw'n dir amaethyddol.
**Asedau –** Strwythurau neu system o strwythurau a ddefnyddir i reoli perygl llifogydd.
**Asesiad Risg –** Proses strwythuredig, y gellir ei harchwilio, i nodi digwyddiadau arwyddocaol, asesu eu tebygolrwydd a'u heffaith ac yna cyfuno'r rhain i ddarparu asesiad perygl risg cyffredinol i lywio penderfyniadau a chamau gweithredu pellach.
**Asiantaeth yr Amgylchedd ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru - AA/AAC –** Corff Cyhoeddus Anadrannol Gweithredol sy'n gyfrifol atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Chorff Cyhoeddus ac un o Gyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru sy'n atebol i Weinidogion Cymru.
**Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol –** (Awdurdod Lleol) Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol yr ardal.
**Awdurdod Rheoli Risg –** Diffinnir awdurdod rheoli risg yng Nghymru gan Adran 6 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 fel Asiantaeth yr Amgylchedd, Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, cyngor dosbarth ar gyfer ardal lle nad oes awdurdod unedol, Bwrdd Draenio Mewnol ar gyfer ardal draenio mewnol sydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru, a chwmni dŵr sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas ag ardal yng Nghymru.

**Bwrdd Draenio Mewnol** (BDM) **–** Corff statudol annibynnol sy'n gyfrifol am ddraenio tir mewn ardal lle mae angen arbennig am waith draenio yng Nghymru a Lloegr. Maent yn gyrff hirsefydledig ac yn gweithredu yn bennaf o dan y Ddeddf Draenio Tir 1991 mae ganddynt bwerau caniataol i gynnal waith i ddraenio eu hardaloedd a rheoli lefel y dŵr yno.

**Carthffos –** Pibell artiffisial, dan ddaear fel rheol, i gludo carthffosiaeth (carthffos dŵr budr) neu ddŵr glaw (carthffos storm) neu'r ddau (carthffos gyfun).
**Ceuffos –**Strwythur wedi'i osod o dan y ffordd, arglawdd ac ati, i gyfeirio llif dŵr.
**Cronfa Ddŵr –** Llyn artiffisial lle caiff dŵr ei gasglu a'i storio hyd nes bod ei angen. Gellir defnyddio cronfeydd dŵr at ddibenion dyfrhau, hamdden, darparu dŵr ar gyfer anghenion trefol, creu ynni trydan dŵr neu reoli llif dŵr.
**Cwmni Dŵr –** Cwmni sy'n dal apwyntiad o dan Bennod 1 o Rhan 2 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, neu drwydded o dan Bennod 1A o Rhan 2 o'r Ddeddf honno.
**Cwrs Dŵr –** Sianel naturiol neu artiffisial y mae dŵr yn llifo ar ei hyd.

**Cydnerthedd –** Gallu cymuned, gwasanaethau, ardal neu seilwaith i osgoi dioddef llifogydd, i osgoi gael eu colli yn sgil erydiad, neu i wrthsefyll canlyniadau llifogydd neu erydiad.
**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) –** Cymdeithas sy'n cynrychioli buddiannau Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae'r tri awdurdod tân ac achub, y pedwar awdurdod heddlu a'r tri awdurdod parc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.
**Cynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylch** – Cynlluniau sy'n rhoi braslun o berygl llifogydd ar draws pob dalgylch afon ac aber. Maent yn argymell ffyrdd o reoli'r peryglon hynny yn awr a thros y 50 -100 mlynedd nesaf.
**Cynlluniau Rheoli Perygl –** Ystod o gamau i leihau amlder llifogydd a/neu ganlyniadau llifogydd i lefelau derbyniol neu y cytunwyd arnynt.
**Cynlluniau Rheoli Traethlin –** Asesiad ar raddfa fawr o'r peryglon sy'n gysylltiedig â phrosesau arfordirol, er mwyn helpu i leihau'r peryglon hyn i bobl a'r amgylcheddau datblygedig, hanesyddol a naturiol.
**Cyrsiau Dŵr Cyffredin –** Pob cwrs dŵr nad yw wedi'i ddynodi'n Brif Afon, ac y mae Awdurdod Lleol neu, lle maent yn bodoli, y Byrddau Bwrdd Draenio Mewnol, yn gyfrifol amdano.
**Cywasgu Arfordirol –** Pan fydd yr arfordir ei amddiffyn gan strwythurau peirianyddol, ceir cynnydd yn lefel y môr sy'n arwain at broffil rhynglanwol mwy serth. Cywasgu arfordirol yw'r enw ar y broses hon.

**Dalgylch –** Ardal sy'n gwasanaethu afon gyda dŵr glaw sy'n rhan o'r tir lle mae'r dŵr glaw yn draenio i un cwrs dŵr sydd yn yr un dalgylch.
**Datganiad o Fanylion Amgylcheddol –** Gofyniad statudol o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004. Mae'n nodi sut y cafodd canfyddiadau'r Adroddiad Amgylcheddol eu hystyried a sut y rhoddwyd ystyriaeth i'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori wrth ddatblygu'r Strategaeth Genedlaethol.
**Deddf –** Mesur a gymeradwywyd gan Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi ac y cytunwyd yn ffurfiol arno gan y brenin neu frenhines sy'n teyrnasu (a elwir yn Gydsyniad Brenhinol).
**Deddf Llifogydd a Rheoli Dŵr 2010 –** Deddf Seneddol sy'n diweddaru ac yn addasu deddfwriaeth i ymdrin â bygythiad llifogydd a phrinder dŵr, gan fod disgwyl i'r ddau fygythiad gynyddu yn sgil y newid yn yr hinsawdd.
**Dŵr Daear –** Dŵr a gedwir o dan ddaear yn y pridd neu mewn mandyllau a holltau creigiau.
**Dŵr Ffo ar yr Wyneb –** Pan fo cyfradd y glawiad yn fwy na'r gyfradd y gall dŵr dreiddio i'r ddaear neu'r pridd.
**Dyddodi –** Y broses lle y caiff gwaddodion eu gosod ar wely'r môr, traethlin, gwely afon neu orlifdir.

**Erydu Arfordirol –** Pan fo'r arfordir yn cael ei dreulio, fel arfer gan y gwynt a/neu'r tonnau.

**F**
**FCERM –** Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.
**Fforymau Cydnerthu Lleol –** Grwpiau sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ac sy'n gyfrifol am gydlynu gwaith cynllunio ar gyfer argyfyngau mewn ardaloedd lleol.

**Grŵp Llifogydd Cymru –** Un o is-grwpiau o Fforwm Cymru Gydnerth.
**Gwasanaeth Uniongyrchol Llinell Rybuddion Llifogydd –** Gwasanaeth am ddim sy'n darparu rhybuddion llifogydd yn uniongyrchol i chi dros y ffôn, ffôn symudol, e-bost neu drwy e-bost, neges destun SMS a ffacs.

**Llifogydd –** Unrhyw achos lle y caiff tir nad yw fel arfer wedi'i orchuddio gan ddŵr yn cael ei orchuddio gan ddŵr.
**Llifogydd Arfordirol –** Y mae hyn yn digwydd pan na alld yw amddiffynfeydd arfordirol ymdopi â'ryn gallu dal y llanw uchel arferol gan a all achosi llifogydd, o bosib pan ywpan fo llanw uchel yn cyfuno gydag ymchwydd storm (a grëwyd gan wyntoedd cryf iawn neu wasgedd atmosfferig isel iawn).
**Llifogydd Dŵr Daear –** Mae hyn yn digwydd pan fo lefel y dŵr yn y ddaear yn codi uwchben yr wyneb naturiol. Mae ardaloedd ar dir isel sydd â haenau athraidd oddi tanynt yn arbennig o agored i hyn.
**Llifogydd Dŵr Wyneb –** Mewn cyd-destun trefol, mae hyn fel arfer yn golygu bod cyfraddau dŵr ffo ar yr wyneb yn fwy na gallu'r systemau draenio i gael gwared ohono. Mewn cyd-destun gwledig, mae'n golygu bod dŵr ffo ar yr wyneb yn achosi llifogydd i rywbeth neu rywun.
**Llifogydd o Afonydd –** Mae hyn yn digwydd pan fo lefel y dŵr mewn sianel yn mynd yn drech na chapasiti'r sianel.

**Mesur –** Cynnig ar gyfer cyfraith newydd, neu gynnig i newid cyfraith sy'n bodoli eisoes, a gyflwynir ar gyfer trafodaeth gerbron y Senedd.
**Mesur Drafft –** Mesur a gyhoeddir ar ffurf drafft cyn ei gyflwyno gerbron y Senedd.
**Mesurau Rheoli Perygl Llifogydd –** Y ffordd y caiff peryglon llifogydd eu rheoli.

**Newid yn yr Hinsawdd –** Unrhyw newid yn yr hinsawdd dros amser (fel arfer degawdau neu gyfnod hirach), naill ai yn sgil newid naturiol neu yn sgil gweithgarwch dynol.
**Nodyn Cyngor Technegol 14: Cynllunio Arfordirol –** Mae TAN 14 yn cefnogi Polisi Cynllunio Cymru ac mae'n ymdrin â phob agwedd ar gynllunio ar gyfer datblygiad newydd a'r parth arfordirol.
**Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd –** Mae TAN 15 yn cefnogi Polisi Cynllunio Cymru ac yn egluro sut y dylai awdurdodau lleol wneud penderfyniadau ynghylch mathau gwahanol o ddatblygiad ar orlifdiroedd, gan ddarparu profion clir ar gyfer cyfiawnhau a derbyn canlyniadau llifogydd, a galluogi ystyriaeth o'r peryglon dros oes y datblygiad newydd.

**Ôl-dreiglo –** Wrth i amddiffynfeydd naturiol fethu bydd yr arfordir yn ôl-dreiglo yn naturiol, gan greu cyfle i ehangu cynefinoedd rhynglanwol ac arfordirol.

**Perygl –** Mesur o arwyddocâd digwyddiad posibl o ran tebygolrwydd ac effaith. Yng nghyd-destun y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, mae'r digwyddiadau dan sylw yn argyfyngau.
**Perygl Erydu Arfordirol –** Mesur o arwyddocâd erydu arfordirol posibl o safbwynt tebygolrwydd ac effaith.
**Perygl Llifogydd –** Mesur o'r tebygolrwydd y bydd llifogydd yn digwydd a chanlyniadau hynny.
**Perygl Llifogydd Lleol** - Yn ôl diffiniad y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, mae hyn yn cynnwys dŵr ffo ar yr wyneb, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin.

**Prif Afon –** Cwrs dŵr a nodir ar y Map o'r Prif Afonydd, y mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd gyfrifoldebau a phwerau yn ei gylch.
**Pwyllgor Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordir –** Un o bwyllgorau Asiantaeth yr Amgylchedd, sy'n gyfrifol am ganiatáu cynlluniau hirdymor a thymor canol ar ran Bwrdd a Phrif Swyddfa'r Asiantaeth. Mae'n monitro ac adrodd ar gynnydd. Dim ond un Pwyllgor o'r fath sydd yng Nghymru, sef y grŵp Rheoli Perygl Llifogydd Cymru.

**Risgiau Gweddilliol –** Y risg sy'n weddill ar ôl rhoi mesurau rheoli perygl risg ar waith. Er enghraifft gall amddiffynfeydd llifogydd leihau'r tebygolrwydd o lifogydd, ond os yw'r llifogydd y tu ôl i'r amddiffynfeydd yn ddwfn iawn, mae'r risg gweddilliol i bobl yn uchel iawn ac efallai y bydd angen cymryd camau gweithredu eraill i leihau'r risg gweddilliol ymhellach.

**Rheoli Perygl Erydu Arfordirol –** Unrhyw beth a wneir at ddibenion dadansoddi, asesu a lleihau'r perygl bod yr arfordir yn cael eu dreulio.
**Rheoli Perygl Llifogydd –** Yr arfer o ddeall tebygolrwydd a chanlyniadau llifogydd, a cheisio addasu'r ffactorau hyn er mwyn lleihau'r perygl i bobl, eiddo a'r amgylchedd. Dylai hyn ystyried gwaith arall i reoli lefel y dŵr a gofynion amgylcheddol eraill, ynghyd â chyfleoedd a chyfyngiadau.
**Rheoli Perygl Llifogydd Cymru –** Y Pwyllgor Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordir Rhanbarthol ar gyfer Cymru.
**Rheoli Risg –** Unrhyw beth a wneir at ddiben dadansoddi, asesu a lleihau risg.
**Rheoliadau Adeiladu –** Rheolau statudol yw Rheoliadau Adeiladu y DU i bennu safonau ar gyfer dylunio a chodi adeiladau. Eu prif ddiben yw sicrhau diogelwch ac iechyd pobl yn yr adeiladau hyn a'r ardal o'u cwmpas, ond fe'u defnyddir hefyd at ddibenion arbed ynni a sicrhau mynediad i adeiladau eraill a'r ardal o'u cwmpas.
**Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009 –** Rheoliadau sy'n trosi Cyfarwyddeb Llifogydd y CE (Cyfarwyddeb 2007/60/EC ar asesu a rheoli peryglon llifogydd) yn gyfraith ddomestig, ac yn gweithredu ei darpariaethau.
**Rhynglanwol –** Ansoddair i ddisgrifio'r ardal rhwng llanw isel a llanw uchel.

**Seilwaith Cenedlaethol Critigol –** Seilwaith sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, e.e. dŵr, ynni, cyfathrebu, cludiant ac ati.
**Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol** - Yn ofynnol mewn perthynas â Chymru gan Adran 10 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Caiff strategaethau rheoli perygl llifogydd lleol eu paratoi gan awdurdodau llifogydd lleol arweiniol, ac mae'n rhaid iddynt nodi sut y byddant yn rheoli peryglon llifogydd lleol yn eu hardaloedd.
**Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) –** Dull o reoli dŵr wyneb sy'n helpu i ddelio â gormodedd o ddŵr drwy efelychu prosesau a phatrymau draenio naturiol.

**Treftadaeth Ddiwylliannol –** Adeiladau, strwythurau a nodweddion tirwedd sydd o werth hanesyddol.
**Trydydd Sector –** Sefydliadau gwirfoddol ac nid er elw.

**WFD –** Byrfodd ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.